
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

## i Hybu Twf a Swyddi



2012



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7744 4
ISBN digidol 978 0 7504 7745 1
© Hawlfraint y Goron 2012
WG14885

# Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi

## Cynnwys


**Rhagair** 5

**Crynodeb Gweithredol** 7

**Pennod 1 – Sylfeini Cadarnach ar gyfer Twf a Swyddi** 9

1.1 Cyflwyniad 10

1.2 Ein Cyflawniadau hyd yma a'r cyd-destun 10

1.3 Y sefyllfa sydd ohoni – rheoli buddsoddiad mewn seilwaith 12

1.4 Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'n blaenoriaethau lefel uchel o ran buddsoddi mewn seilwaith 13

1.5 Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein buddsoddiadau 18

1.6 Ein strategaeth ar gyfer cyflawni Cynllun Buddsoddi Mewn Seilwaith i Gymru yn llwyddiannus 20

**Pennod 2 – Cynlluniau a blaenoriaethau sectorol** 21

2.1 Cyflwyniad 22

**Seilwaith Economaidd**

2.2 Datblygu Economaidd 23

2.3 Trafnidiaeth 31

2.4 Yr Amgylchedd 40

2.5 Ynni 57

**Seilwaith Cymdeithasol**

2.6 Tai 66

2.7 Adfywio 72

2.8 Addysg 80

2.9 Iechyd 85

## Pennod 3 – Cyflawni'r Cynllun 93

3.1 Cyflwyniad 94

3.2 Gweithio gyda'n partneriaid 94

3.3 Strwythurau, cyfrifoldebau a phrosesau llywodraethu Llywodraeth Cymru 97

3.4 Defnyddio ein hasedau'n well 100

3.5 Caffael yn well 104

3.6 Sut y byddwn yn ymdrin â Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio 108

3.7 Sut y byddwn yn ariannu'r hyn sydd i'w gyflawni a dulliau cyllido arloesol 111

## Pennod 4 – Y camau nesaf 117

4.1 Cyflwyniad 118

4.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid 118

4.3 Y Llif o Brosiectau Arfaethedig 119

4.4 Cyflawni amcanion y Cynllun Seilwaith 119

## Atodiad 1 – Y Llif o Brosiectau Arfaethedig 123

## Atodiad 2 – Cynlluniau sectorol 154

# Rhagair

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw buddsoddi mewn seilwaith. Gall roi hwb sylweddol a mawr ei angen i'r economi ar adeg bwysig, gan greu'r amodau ar gyfer mwy o dwf a llewyrch dros gyfnod o amser. Felly, dyma gyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi. Ei bwrpas yw blaenoriaethu, cwmpasu a chydgysylltu ein buddsoddiad mewn seilwaith. Ar yr un pryd, bydd yn hybu lles pobl a chymunedau Cymru, o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Bu'r degawd diwethaf yn gyfnod o dwf economaidd. Bron na ddyblodd ein Cyllideb gyfalaf rhwng 1999 a 2009, gan roi cyfle inni fuddsoddi dros £2bn yn yr ystad iechyd; dros £578m ar 75 milltir o ffyrdd newydd; ac £1.5bn ar 414 o gynlluniau addysgol, gan gynnwys 127 o adeiladau ysgol newydd sbon – a hyn oll er budd pobl Cymru. Erbyn hyn, serch hynny, mae'r sefyllfa economaidd yn dra gwahanol. Rhaid yw teilwra'r buddsoddi er mwyn ymateb i'r heriau newydd, a rhaid yw manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol ychwanegol, megis cronfeydd Ewropeaidd. Gwelsom ostyngiad yn ein cyllideb gyfalaf yn sgil y toriadau i'r gyllideb o du Llywodraeth y DU. A chan ein bod fel Llywodraeth Cymru yn benderfynol o ddal ati i gynnal y lefel o fuddsoddi sy'n gwbl angenrheidiol, mae gofyn inni addasu a sicrhau buddsoddi sydd yn gyson effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi'n glir **pam** fod angen mabwysiadu ffordd newydd o weithio, ac yn crisialu gweledigaeth a nodau clir ar gyfer y dyfodol; **beth** fydd ein blaenoriaethau ar gyfer pob sector; **sut** yr awn ati i roi'r newid a'r weledigaeth ar waith a **phryd** y byddwn yn cymryd y camau nesaf. Dymuniad ein rhanddeiliaid yw gweld mwy o dryloywder a sicrwydd. Rydym felly wedi nodi cyfres o brosiectau ar draws nifer o sectorau dros y blynyddoedd nesaf – a hwnnw'n gam pwysig o ran galluogi ein partneriaid yn y sector preifat i sicrhau eu bod yn barod – o ran sgiliau ac adnoddau – i'n cefnogi i ddarparu'r seilwaith y bydd ei angen.

Nid yw'r her y tu hwnt i'n gafael, ond bydd angen mynd i'r afael â hi trwy ganolbwyntio mewn ffordd fwy strategol a all arwain a gyrru ein hagenda waith a llywio ein penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddi'r Cynllun yw'r cam cyntaf. Yr her nesaf o'n blaenau fydd cyflawni – clustnodi cynlluniau o bwys ar lefel genedlaethol a dod o hyd i ffyrdd newydd o'u hariannu a'u rhoi ar waith; rhoi mwy o gnawd ar y gyfres brosiectau a sicrhau proses gynllunio a chyflawni o ansawdd uchel. Hyn oll er mwyn dangos yn glir beth sy'n digwydd yng Nghymru, a pham mae'n lle da i fyw, i weithio ac i gynnal busnes.

Rwy'n gwbl siŵr y gallwn sicrhau llwyddiant y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi, gan sicrhau bod Datblygu Cynaliadwy yn rhan annatod ohono o'r dechrau'n deg. Mae hon yn fenter bwysig i Lywodraeth Cymru. Rwyf innau'n gofyn am eich cefnogaeth i'r Cynllun. Mae'n allwedd fydd yn sicrhau llwyddiant economaidd cynaliadwy i Gymru mewn byd sy'n mynd yn fwyfwy ansicr.





**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi yn amlinellu blaenoriaethau buddsoddi strategol Llywodraeth Cymru, yn rhoi cyfrif manwl o gynlluniau buddsoddi sectorol hyd at 2014-15 ac yn nodi elfennau allweddol dull newydd o fuddsoddi mewn seilwaith.

Mae **Pennod 1** yn nodi cyd-destun datblygiad y Cynllun, gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a chyfres o flaenoriaethau buddsoddi strategol a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth honno a llywio'r broses o fuddsoddi dros £3.5bn yn ystod cyfnod yr Adolygiad hwn o Wariant a thua £15bn dros y degawd nesaf. Nodir isod y blaenoriaethau buddsoddi hyn, sy'n atgyfnerthu'r Rhaglen Lywodraethu a ffocws Llywodraeth Cymru ar dwf a swyddi:

- Gwella rhwydweithiau trafnidiaeth, yn enwedig y cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn y Gogledd ac yn y De.
- Gwella rhwydweithiau telathrebu.
- Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn tai.
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus.
- Gwella ansawdd yr ystad addysg.
- Datblygu ein Hardaloedd Menter.

Mae **Pennod 2** yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o gynlluniau buddsoddi sectorol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- **Seilwaith economaidd** – Datblygu Economaidd, Trafnidiaeth, yr Amgylchedd ac Ynni.
- **Seilwaith cymdeithasol** – Tai, Adfywio, Addysg ac Iechyd.

Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyfrif o amcanion a diben y buddsoddiadau ym mhob sector, y cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf, arfarniadau rydym wedi eu cynnal yn unol â'n dull gweithredu ym maes datblygu cynaliadwy, crynodeb o'r cynlluniau yn y dyfodol a manylion partneriaid a strwythurau cyflawni. Mae Atodiad 1 yn cynnwys, ar gyfer pob sector, lif tair blynedd o fuddsoddiadau cymeradwy gwerth dros £15m. Bydd y llif hwn o brosiectau arfaethedig yn cynnig mwy o eglurder a sicrwydd i'n partneriaid cyflawni, rhywbeth sydd wedi dod i'r golwg fel blaenoriaeth allweddol i'r sector preifat. Mae Atodiad 2 yn rhoi arwydd 10 mlynedd o'n 'cyfeiriad teithio' ar gyfer pob sector.

Mae **Pennod 3** yn esbonio dull newydd Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid – y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector – er mwyn:

- Sicrhau bod buddsoddiadau yn gyson â blaenoriaethau strategol.
- Rhoi canolbwynt eglur i ddatblygu'r seilwaith, gyda datblygu cynaliadwy yn rhan greiddiol ohono.
- Denu mwy o arian i gyfalaf cyhoeddus a buddsoddi mewn seilwaith er mwyn hybu twf a swyddi.

- Mynnu cael mwy o werth am yr arian rydym yn ei fuddsoddi.
- Defnyddio ein hasedau'n well.

Mae **Pennod 4** yn manylu ar y camau nesaf. Ymhlith y camau allweddol mae:

- Datblygu a gwella'r llif o brosiectau arfaethedig drwy ei ddiweddaru bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig y gwerth gorau i randdeiliaid sy'n cyflawni.
- Gwella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn asesu cynigion ar gyfer buddsoddi.
- Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â materion allweddol sy'n ymwneud â seilwaith, ac annog partneriaid cyflawni i gydweithredu.
- Parhau i ddatblygu dulliau arloesol o ddenu buddsoddiad ychwanegol sylweddol i fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus lle mae'n cynnig gwerth am arian.
- Gwella a safoni sut rydym yn ymdrin â sicrwydd busnes a chyflawni'r cynllun ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol.
- Parhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn rheoli ac yn caffael asedau.
- Datblygu 'gwybodaeth ganolog' ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn cynnwys buddsoddiadau mewn seilwaith cyhoeddus yn lleol ac yn genedlaethol yn ogystal â chynlluniau buddsoddi yn y sector preifat ar hyn o bryd ac yn y dyfodol lle y bo modd.

# Pennod 1 – Sylfeini Cadarnach ar gyfer Twf a Swyddi



## 1.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn esbonio'r rhesymeg dros gyflwyno'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi. Mae'n esbonio:

- Beth mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflawni ers datganoli.
- Y sefyllfa sydd ohoni a pham bod hyn yn creu dadl gref dros newid.
- Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'n blaenoriaethau lefel uchel o ran buddsoddi mewn seilwaith.
- Ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus.

## 1.2 Ein cyflawniadau hyd yma a'r cyd-destun


Ers datganoli yn 1999, arweiniodd cynnydd yng nghyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r twf yng ngwariant cyhoeddus y DU at gynnydd cyson yn yr adnoddau a oedd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Bu ein cyllideb cyfalaf bron â dyblu o ychydig dros £1bn yn 1999-2000 i tua £2bn yn 2009-10, gan hwyluso'r broses o fuddsoddi'n sylweddol yn ein seilwaith.

- Ers 2001, rydym wedi adeiladu 12 o ysbytai newydd a chyfnewid ac ers 1999-2000 rydym wedi buddsoddi dros £2bn mewn cyfleusterau iechyd.
- Ers 1999 rydym wedi adeiladu 75 milltir o ffyrdd, gan wario £578m.
- Ers 1999 buddsoddwyd dros £1.49bn mewn addysg, gan gyflawni 414 o gynlluniau yn cynnwys adeiladu 127 o ysgolion newydd.

Yng nghanol 2008 cafwyd argyfwng ariannol yn y DU a dirywiad byd-eang, ynghyd â dirwasgiad cyn dychwelyd i dwf araf ar ddiwedd 2009. Ers hynny, mae economi'r DU wedi bod yn farwaidd. Wrth i ni lunio'r Cynllun hwn ar ei ffurf derfynol, mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer tri mis cyntaf 2012 yn nodi bod y DU unwaith eto yng nghanol dirwasgiad. Gyda'r ansicrwydd byd-eang yn parhau, disgwylir i dwf allbwn barhau'n araf am beth amser.

Yn sgil Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010 ffurfiwyd Llywodraeth glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, a gyhoeddodd doriadau mawr i wariant y llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â diffyg y sector cyhoeddus. Arweiniodd Adolygiad 2010 o Wariant at ostwng cyllideb cyfalaf Cymru fwy na 40% mewn termau real hyd at 2014-15, gostyngiad na welwyd ei debyg o'r blaen. Fel y dengys ffigur 1, erbyn diwedd cyfnod yr Adolygiad o Wariant, bydd cyllideb cyfalaf Cymru tua 46% yn is na'i lefel uchaf yn 2009-10 mewn termau real ac yn is nag unrhyw adeg ers datganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i chwarae ei rhan i leihau'r diffyg. Fodd bynnag credwn fod y toriadau hyn yn rhy fawr ac cael eu cyflwyno'n rhy fuan.

Ffigur 1 – Cyllideb Cyfalaf Cymru mewn Termau Real – 1999-00 hyd at 2014-15




Yn ystod y degawd nesaf rydym yn debygol o weld ein cyllideb cyfalaf flynyddol yn parhau i ostwng mewn termau real a fydd yn golygu ein bod yn disgwyl y bydd £2-4bn yn llai o gyfalaf ar gael o gymharu â'r degawd blaenorol. Fodd bynnag nid yw'r gostyngiad mawr hwn mewn cyllidebau cyfalaf yn adlewyrchu unrhyw leihad yn yr angen i fuddsoddi. Y gwir amdani yw, wrth i'r seilwaith presennol heneiddio, y bydd ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac adnewyddu hen rannau yn gofyn am lefel gynyddol o fuddsoddi – mae angen i ni wario hyd yn oed i aros yn ein hunfan.

Mae buddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru nid yn unig yn hanfodol i gynnal a chadw a datblygu seilwaith y sector cyhoeddus – mae'n bwysig hefyd o ran galw a gweithgarwch yn economi Cymru i hyrwyddo twf a swyddi. Rhagwelir y bydd y toriad mewn cyllidebau cyfalaf o tua £1bn mewn termau real ers ei lefel uchaf yn cael effaith fawr ar weithgarwch yn economi Cymru, sy'n dal i fod yn fregus.

Rydym yn wynebu'r hinsawdd economaidd a gwleidyddol fwyaf heriol ers datganoli, gyda Chymru yn wynebu'r dirwasgiad dwbl. Mae dyfnder a graddfa toriadau Llywodraeth y DU dros y ddwy flynedd diwethaf ynddynt hwy eu hunain wedi peri i'r galw cyffredinol yn economi'r DU leihau, a phrin bod yr economi wedi tyfu ers i'r toriadau gael eu cyhoeddi. Mae effaith 'cyfuno ariannol' wedi'i gwaethygu gan yr argyfwng dyled sofran yn ardal yr ewro a'r ffaith nad yw banciau yn benthyca sy'n ergyd i hyder byd busnes, gan danseilio buddsoddiadau a darbwyllo cwmnïau i beidio â chyflogi staff. Nid yw'r amodau economaidd anodd iawn hyn yn debygol o wella'n sylweddol cyn yr Adolygiad nesaf o Wariant nac yn wir drwy gydol yr Adolygiad nesaf.

Mae'n rhaid i ni ystyried pob opsiwn a manteisio ar bob cyfle i gynnal buddsoddi cyfalaf hanfodol yn wyneb y toriadau enfawr yn y gyllideb cyfalaf. Dyna pam rydym wedi cymryd y camau canlynol ar unwaith i ategu ein buddsoddiad cyfalaf.

- **Cynyddu buddsoddi o'n cronfeydd cyfalaf wrth gefn a throsglwyddo refeniw i gyfalaf**. Yn ail Gyllideb Atodol 2011-12 er enghraifft, bu i ni gynyddu buddsoddi cyfalaf dros £170m drwy'r ffyrdd hyn er mwyn rhoi hwb economaidd pwysig a chyfle i ni leihau effaith y toriadau difrifol.

- **Defnyddio dulliau cyllido arloesol, lle maent yn cynnig gwerth am arian ac yn briodol i'w defnyddio.** Mae Pennod 3 yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â sut rydym yn datblygu polisi yn y maes hwn.
- **Parhau i herio'r agweddau gwaethaf ar strategaeth o doriadau dwfn** a phwyso ar Lywodraeth y DU i gynyddu gwariant cyfalaf yn y byrdymor, ac yr un pryd gadw llif o gynlluniau arfaethedig a chanddynt achosion economaidd cadarn i gefnogi adferiad economaidd, yn barod i ddechrau os darperir arian.
- **Cyd-drafod â Llywodraeth y DU i ganiatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca** i ariannu seilwaith y mae ei angen yn ddirfawr. Byddai pwerau benthyca cyfrifol yn ein galluogi i leddfu ein diffyg cyfalaf, helpu i wrthbwyso effaith niweidiol y toriadau a chefnogi adferiad economaidd drwy adeiladu a datblygu seilwaith gwasanaeth cyhoeddus. Byddai'n galluogi rhaglenni gwariant cyfalaf i gael eu cynllunio'n effeithiol ac yn effeithlon yng Nghymru yn y tymor canolig. Yn bwysig ddigon, byddai hefyd yn golygu na fyddai proffil rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cael ei lywio'n gyfan gwbl mwyach gan amseriad a graddfa penderfyniadau anghysylltiedig Llywodraeth y DU ar wariant cyfalaf.

## 1.3 Y sefyllfa sydd ohoni – rheoli buddsoddiad mewn seilwaith

Yn hanesyddol gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniadau ynglŷn ag anghenion seilwaith a buddsoddi o fewn portffolios adrannol gan mwyaf, gyda phob un yn llunio ei fframwaith ei hun o strategaethau a chynlluniau buddsoddi, polisïau cyhoeddedig a rheoli rhaglenni.

Ym mis Gorffennaf 2010, ymgymerodd y Llywodraeth flaenorol, Llywodraeth Cymru'n Un, â gwaith cychwynnol ar Brosiect Seilwaith Strategol i fapio buddsoddi cyfalaf strategol Llywodraeth Cymru ac ystyried sut y dylid datblygu'r ffordd y caiff seilwaith strategol ei ddarparu yng Nghymru. O adeiladu ar y gwaith hwn amlygwyd yr angen am y canlynol:

- Gwell prosesau o rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar draws y Llywodraeth er mwyn helpu i lywio penderfyniadau Gweinidogion wrth iddynt ddewis a darparu seilwaith strategol allweddol.
- Cryfhau dylanwad Llywodraeth Cymru dros sicrhau'r budd mwyaf o brosiectau seilwaith mawr mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, sy'n cael effaith uniongyrchol ar Gymru (e.e. gwaith cynllunio seilwaith rheilffyrdd y DU a phrosiectau ynni mawr). Lle cafwyd ymgysylltu bu ffocws adrannol iddo yn aml, yn hytrach na safbwynt trawslywodraethol strategol.
- Newid sylweddol o ran ymgysylltu rhwng adrannau yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill. Fel y cadarnhawyd gan ganfyddiadau Adolygiad Simpson, mae mwy o gydweithredu drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn hanfodol er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'n hadnoddau cyfyngedig.

Mae'r toriadau mawr wedi hoelio'r sylw ar yr angen i barhau i fireinio agwedd strategol Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi sylfeini cadarnach ar gyfer buddsoddi a sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl. Mae blaenoriaethau strategol clir a phrosesau gweithredu a chyflawni effeithlon bob amser yn hynod ddymunol, ond yn y sefyllfa sydd ohoni ni allwn fforddio llai na hynny. Mae'n hanfodol ysgogi gwelliannau parhaus o ran:

- **Effeithlonrwydd a darbodusrwydd** – buddsoddi yn y pethau cywir a mynnu cael mwy am lai.
- **Effeithiolrwydd** – sicrhau gwell canlyniadau o'n buddsoddiadau.

## 1.4 Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'n blaenoriaethau lefel uchel o ran buddsoddi mewn seilwaith

Er ei bod yn glir bod yn rhaid i ni weithredu'n ddi-oed i gyfyngu ar effeithiau andwyol yr amodau economaidd cyfredol, mae'n hanfodol bod ffocws i'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ein hadnoddau cynyddol brin ac – er gwaethaf y toriadau dwfn a orfodwyd arnom – ein bod yn parhau i wneud buddsoddiadau sylweddol yn seilwaith Cymru. **Dros y tair blynedd nesaf, bwriadwn fuddsoddi dros £3.5bn. Dros y degawd nesaf, bwriadwn fuddsoddi tua £15bn**.

### 1.4.1 Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol – rhoi hwb i dwf a swyddi

Mae Llywodraeth Cymru am roi economi Cymru ar lwybr tuag at well cynhyrchiant a mwy o ffyniant i bawb. Mae newid llwybr economi aeddfed yn rhywbeth heriol i'w wneud ar unrhyw adeg ond rydym yn mynd drwy gyfnod anarferol o anodd ar hyn o bryd a rhaid i ni roi blaenoriaeth i helpu i arwain Cymru drwy'r dirwasgiad fel y gwnaethom yn 2008-9 gyda rhaglenni ProAct a ReAct a'r rhaglenni olynol sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl colli ei diwydiannau trwm traddodiadol yn ystod chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, bu'r twf yn economi Cymru yn araf o'i gymharu â gweddill y DU, heb sôn am yr economïau mwy dynamig dramor. Yn fwy diweddar, rydym wedi wynebu sgil-effeithiau'r argyfwng ariannol byd-eang, y dirwasgiad a ddaeth yn ei sgil, a'r polisïau datchwyddo a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU i leihau benthyca'r llywodraeth a'r ddyled wladol. Felly wynebwn her ddeuol sef y dirwasgiad a diweithdra cynyddol, ar ben problem strwythurol o dwf araf a chyfraddau isel o weithgarwch economaidd.

Yn y sefyllfa hon, mae polisïau i symbylu ac atgyfnerthu ein heconomi yn dod yn fwyfwy pwysig. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf polisi'r Llywodraeth fydd rhoi mwy o bwyslais ar bolisi economaidd sy'n hybu twf ac ar greu swyddi hyd yn oed o'i gymharu ag amcanion cymdeithasol dymunol eraill. Mae'n rhaid i'n buddsoddiad mewn seilwaith adlewyrchu'r flaenoriaeth honno.

Un o elfennau allweddol ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol economi Cymru yw cam pendant tuag at gynaliadwyedd. Wrth symud tuag at economi carbon isel rydym yn gobeithio nid yn unig gwneud yr economi yn fwy effeithlon a'i rhoi mewn sefyllfa well i wrthsefyll costau cynyddol tanwyddau ffosil ond hefyd ddatblygu sgiliau a thechnegau a fydd yn galluogi Cymru i greu busnesau newydd ac allforio'r arbenigedd hwnnw ledled y byd. Felly mae buddsoddi i gefnogi effeithlonrwydd ynni a datblygu ffynonellau newydd o ynni yn rhan bwysig o'r strategaeth.

Mae effeithlonrwydd ynni drwy adnewyddu tai a mathau eraill o ystadau a chyflwyno safonau ynni ar gyfer adeiladau newydd yn cael effaith uniongyrchol ar gyflogaeth gan fod y gweithgareddau hyn yn gofyn am lawer o oriau gwaith. Felly bydd buddsoddi yn y meysydd hyn yn cael effeithiau anarferol o fawr o ran cyflogi llafur cyflenwol.

Wrth hyrwyddo datblygu economaidd, mae'r Llywodraeth wedi nodi sectorau lle gall Cymru ddatblygu mantais gystadleuol a'i hymestyn. Gan weithio ochr yn ochr gydag arweinwyr busnes yn y sectorau hynny rydym yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ddatblygiadau drwy bolisïau cyhoeddus priodol. Mewn rhai achosion, mae hynny yn golygu datblygiadau wedi'u targedu mewn seilwaith.

Dengys ymchwil pa mor bwysig yw "clystyrau" o weithgarwch economaidd o ran ysgogi twf economaidd. At hynny, mae profiad mewn gwledydd eraill wedi dangos y gellir meithrin clystyrau drwy nodi ac annog 'pegynau twf'. Yr arsylwadau hynny sy'n sail i'r polisi o ddynodi ardaloedd lle rhoddir anogaeth benodol i fusnesau. Mae'r Ardaloedd Menter a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r strategaeth sectorol sy'n gysylltiedig â datblygu sectorau penodol. Felly mae'n rhaid i fuddsoddiadau mewn seilwaith i hybu twf a swyddi sicrhau y caiff gofynion Ardaloedd Menter Cymru o ran seilwaith eu bodloni.

Bydd darpariaeth Cysylltedd Band Eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru yn un o elfennau darparu seilwaith digonol. Mae'n rhaid uwchraddio rhwydweithiau ynni a thrafnidiaeth.

Mae angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau lle y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf, gan weithredu i alluogi twf yn yr economi. Yn y dyfodol caiff arian ar gyfer gweithgareddau adfer tir ei gymhwyso'n llawer mwy cyson â phrosiectau sy'n bodloni amcanion datblygu economaidd penodol neu lle mae gofyniad i arian o'r fath gyflawni nodau ehangach Llywodraeth Cymru.

Bydd rhaglen uchelgeisiol yn y meysydd hyn yn dreth ar adnoddau prinnach Llywodraeth Cymru dros y degawd nesaf. Felly mae'n bwysig ein bod yn gweithio mor agos â phosibl gyda'r sector preifat, awdurdodau lleol a'r trydydd sector gan gynnwys mentrau gwirfoddol a chydweithredol er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu buddsoddiadau mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin. Dim ond drwy ddefnyddio adnoddau ehangach na'r rhai sydd ar gael i'r Llywodraeth y gallwn anelu at gynorthwyo economi Cymru drwy'r anawsterau presennol a'i rhoi ar lwybr twf cynt a fydd yn sicrhau bod Cymru yn lle ffyniannus i fyw a gweithio.

### 1.4.2 Seilwaith i hybu twf a swyddi

Mae cyfnodau anodd yn codi'r safon o ran cymeradwyo buddsoddiadau ac yn gwneud pobl yn fwy o ymwybodol o gost cyfleoedd. O fuddsoddi mewn cynlluniau teilwng ond rhai nad ydynt yn cynnig y cyfleoedd economaidd gorau collir cyfle i fuddsoddi mewn cynlluniau a all gynnig mwy o gymorth a budd i economi Cymru.

Yn y ddogfen hon rydym yn gwahaniaethu rhwng dau gategori penodol o seilwaith:

- **Seilwaith Economaidd** – rhwydweithiau ffisegol sy'n cynnal ac yn datblygu gweithgarwch economaidd, megis ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr, porthladdoedd, trydan, TGCh, cyflenwadau dŵr a glanweithdra.

  Mae seilwaith economaidd yn darparu gwasanaethau allweddol ar gyfer busnesau a chwsmeriaid preifat gan greu cysylltiadau rhyngddynt drwy drosglwyddo nwyddau, gwasanaethau a gwybodaeth. Elfennau hynod o bwysig yw'r rhwydweithiau sy'n cyflawni'r

swyddogaeth economaidd o helpu pobl i gael cyflogaeth. Gall buddsoddi'n effeithiol mewn rhwydweithiau helpu i gynyddu cyflogaeth a hybu twf economaidd mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i effeithiau buddsoddiadau cyfalaf mawr eraill.

- **Seilwaith Cymdeithasol** – asedau ffisegol sy'n cynnal ac yn datblygu pobl yng Nghymru, megis ysgolion, ysbytai, tai a'r amgylchedd.

  Ei phobl yw un o asedau pennaf Cymru. Er mwyn cynnal economi ffyniannus mae angen poblogaeth iach, wedi'i haddysgu. Mae angen i unrhyw gynigion ar gyfer seilwaith cymdeithasol ystyried yr effeithiau uniongyrchol – er enghraifft, tystiolaeth o ganlyniadau addysgol gwell, iechyd gwell, neu leihau costau trwy resymoli. Gall y canlyniadau hyn gael effaith economaidd fawr, wrth gwrs, a gallant ein helpu hefyd yn ein hymdrechion i drechu tlodi a hybu cynhwysiant cymdeithasol.

Mae asesu buddiannau economaidd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn golygu cymharu'r holl gostau â'r holl fuddiannau. Hyd y gellir, dylai'r costau a'r buddiannau hyn gael eu meintioli a'u mynegi mewn termau ariannol. Gall costau a buddiannau nas meintiolwyd gael eu cynnwys ar sail tystiolaeth ansoddol, y mae angen llunio' barn' yn ei chylch. Nodir y safonau sydd i'w cymhwyso at arfarnu buddsoddiadau economaidd yn glir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ac maent yn rhan annatod o'r dull o ddatblygu achosion busnes sy'n seiliedig ar arfer da gan ddefnyddio Model 5 Achos.

Yn aml, bydd yr hyn a gyflawnir gan brosiect ar ffurf ychwanegu at y gwasanaethau a ddarperir gan esgor ar fuddiannau cymdeithasol, er enghraifft ym maes iechyd ac addysg, a all fod yn anodd eu meintioli. Ar adegau eraill, gall y buddiannau fod ar ffurf gostyngiadau net yng nghost gwasanaeth a ddarperir ('buddsoddi i arbed').

Gall prosiectau mewn unrhyw sector, neu ar unrhyw raddfa, ddangos buddiannau net mawr, bach neu negyddol. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o gasgliadau cyffredinol, os o gwbl, sydd wedi deillio o astudiaethau sydd wedi ceisio ystyried effaith buddsoddiad cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ar berfformiad economaidd (gweler er enghraifft, yr adolygiad a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth yr Alban[1]) er maent yn tueddu i awgrymu y gall buddsoddiadau wedi'u cynllunio'n dda mewn seilwaith economaidd hybu twf economaidd.

Mae hyn wedi arwain at y casgliad cyffredinol y dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran seilwaith ganolbwyntio'n bennaf ar y buddsoddiadau posibl hynny sy'n esgor ar y buddiannau economaidd mwyaf ac yn ystod y cyfnod hwn o ddiweithdra cyson uchel, mae'n briodol ceisio meithrin twf cyflogaeth yn yr hirdymor a'r byrdymor. Yn amlwg, wrth asesu rhinweddau cymharol cynlluniau rhaid dibynnu'n drwm ar ansawdd eu hachosion busnes unigol, a sefydlu a chynnal proses effeithiol o ddatblygu achosion busnes o'r fath, craffu arnynt a'u cymeradwyo. Dyma pam y byddwn ni, wrth gyflawni'r Cynllun hwn, yn canolbwyntio'n benodol ar wella ansawdd achosion busnes, sicrhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur a sicrhau y caiff ein buddsoddiadau eu cyflawni'n llwyddiannus drwy ddefnyddio arfer gorau. Nodir sut y bwriadwn weithredu ar hyn ym Mhennod 3 – 'Cyflawni'r Cynllun'.

Mae Blwch 1 yn amlinellu saith blaenoriaeth buddsoddi strategol, sy'n atgyfnerthu nodau ein Rhaglen Lywodraethu. Y blaenoriaethau fydd prif ffocws ein buddsoddiadau mewn seilwaith dros weddill cyfnod yr adolygiad cyfredol o wariant. Byddwn yn edrych eto ar y blaenoriaethau

[1] www.Scotland.gov.uk/Resource/Doc/919/0022400/pdf

hyn wrth i ni fireinio ein hamcanion strategol ac wrth i ni gael mwy o eglurder ynglŷn â'r sefyllfa ariannu yn y dyfodol wrth i ni symud ymlaen i gyfnod yr Adolygiad nesaf o Wariant.

Yn unol â'r blaenoriaethau hyn, rydym yn cyhoeddi £44m o fuddsoddiad newydd ar gyfer 2012-13, a fydd yn darparu'r symiau ychwanegol canlynol:

- £2.7m ar gyfer gwelliannau i gyffyrdd yr M4.
- £3m ar gyfer Nyth a £2m ar gyfer Arbed – bydd 1000 yn rhagor o gartrefi yn elwa ar hynny.
- £6m i ehangu'r cynllun llwyddiannus Partneriaeth Tai Cymru, gan sicrhau cyfanswm o £30m o fuddsoddiad er mwyn darparu 280 o dai teulol i'w gosod ar rent canolradd.
- £5m i ddyblu maint y gronfa tai gwag y gellir eu halgylchu, gan gyfrannu at ein targed o sicrhau bod 5,000 o dai gwag yn dechrau cael eu defnyddio eto yn ystod tymor y Cynulliad hwn.
- £4m i gyflymu'r gwaith ar gynlluniau hanfodol i amddiffyn rhag llifogydd, er mwyn lleihau effaith llifogydd ac erydu arfordirol ar ein cymunedau.
- £6.8m i gyflymu'r gwaith ar brosiectau ysbytai mawr yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Llandochau.
- £500k i sicrhau lleoliadau ar gyfer 'siopau un stop' i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig yn Sir Benfro, Abertawe a Gwynedd.
- £5m i gefnogi prosiectau ysgolion yn Llanbedr Pont Steffan, Sir Ddinbych, Abercynon a Phenarth.
- £3m ar gyfer y campws ôl-16 oed newydd yng nghanol Caerdydd.
- £3.5m i gefnogi gwaith hanfodol ar seilwaith safle Northern Gateway yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy.
- £2.5m i hybu Cronfa Twf Economaidd Cymru.

A chan weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, lansio Bond Tai Cymru. Rydym yn neilltuo £4m o gyllid y flwyddyn am 30 mlynedd i gefnogi cyhoeddi Bond o fwy na £100m, a fydd yn talu am fwy na 1,000 o dai fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf.

## Blwch 1 – Ein blaenoriaethau buddsoddi pennaf

1. **Gwella cysylltiadau trafnidiaeth, yn enwedig cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin yn y Gogledd ac yn y De** – Mae cysylltiadau rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin eisoes wedi cael blaenoriaeth yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. At hynny, mae prosiectau mwy o faint yn cael eu hystyried o ran dichonoldeb, gan gynnwys gwelliannau strategol i'r M4, codi trydedd bont dros y Fenai a pharhau i wella'r A465. Mae'r adran ar Drafnidiaeth ym Mhennod 2 yn rhoi mwy o fanylion.

   Ymhlith y meysydd eraill nad ydynt wedi'u datganoli'n llwyr ond lle mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant hollbwysig mae gwella gwasanaethau rheilffordd, yn enwedig trydaneiddio'r brif linell i Abertawe a llinellau Cledrau'r Cymoedd sy'n mynd i lawr i'n dinasoedd arfordirol.

   Rydym hefyd am sicrhau y caiff potensial Maes Awyr Caerdydd ei wireddu. Gyda buddsoddiad â ffocws a gwell cysylltiadau, gallai Maes Awyr Caerdydd ddenu teithwyr a nwyddau o bob rhan o Dde-orllewin y DU a Chanolbarth Lloegr. Byddai hyn yn esgor ar fuddiannau economaidd sylweddol i Gymru a byddai'n helpu i leddfu problemau o ran capasiti meysydd awyr ledled y DU.
2. **Gwella rhwydweithiau telathrebu a sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael mynediad i gyfleusterau band eang digonol at eu hanghenion economaidd** – bydd buddsoddiad Rhaglen Bang Eang y Genhedlaeth Nesaf mewn seilwaith cyfathrebu yn rhoi hwb i economi ddigidol ffyniannus a chystadleuol. Bydd yn cefnogi twf wrth i fusnesau yng Nghymru, yn enwedig y sector TGCh a'r sector Diwydiannau Creadigol, gymhwyso technolegau digidol ar raddfa fawr, arloesi yn y maes, masnacheiddio a manteisio i'r eithaf arnynt.
3. **Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru** – nid yw cynlluniau mwy o faint ar gyfer cynhyrchu ynni wedi'u datganoli ond gallent fod o'r pwys mwyaf i economi Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cysoni agendâu trawsadrannol i gefnogi cyfleoedd gan gynnwys Wylfa a rhaglen yr Ynys Ynni, ynni gwynt ar y tir a'r môr, a morglawdd Hafren.

4. **Buddsoddi mewn tai** – yn benodol cefnogi'r farchnad dai drwy fentrau megis y cynllun NewBuy arfaethedig, y Bond Tai, cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a gwella'r stoc dai bresennol, gan gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni drwy Arbed a Nyth.
5. **Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus** – buddsoddi er mwyn darparu gwasanaethau yn fwy economaidd ac effeithlon, yn arbennig er mwyn cefnogi'r gwaith o roi ein gweledigaeth ar gyfer y GIG yng Nghymru ar waith – gweledigaeth a ddisgrifiwyd yn **Law yn Llaw at Iechyd**[2].
6. **Gwella ansawdd yr ystad addysg, yn enwedig ysgolion** – yn y tymor hwy, bydd cystadleurwydd a chyflogaeth uwch yn gofyn am lafurlu hyfforddedig hefyd, sy'n golygu bod angen cyfleusterau addysgol sy'n gweddu i'r 21ain ganrif.
7. **Datblygu ein Hardaloedd Menter** – cyflawni'r gwelliannau i seilwaith a fydd yn galluogi Ardaloedd Menter i greu twf a swyddi.

## 1.5 Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein buddsoddiadau

Mae cryn le i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein buddsoddiadau ac rydym wedi cymryd y camau cyntaf i fanteisio ar hynny drwy adeiladu ar wersi a phrofiad Llywodraethau eraill wrth ddatblygu'r fersiwn gyntaf hon o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi. Mae Blwch 2 yn amlinellu ein dull o fynd ati o ran y cynllun hwn. Ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 3.

[2] www.Wales.nhs.uk/siteplus/867/opendoc/182769c

## Blwch 2 – Ein dull o fynd ati o ran y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Ein nod yw:

- Canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer **cydweithredu trawsbynciol**.
- Nodi a buddsoddi mewn **cynlluniau o bwys cenedlaethol i Gymru**.
- **Cydweithredu'n fwy agos** â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni gan gynnwys:
  - llywodraeth leol a gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru – manteisio ar unrhyw gyfleoedd i sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy atebion a rennir i heriau a rennir a manteisio ar arbedion maint
  - y sector preifat – annog buddsoddi preifat mewn seilwaith yng Nghymru yn daer drwy sicrhau bod ein blaenraglenni ar gyfer buddsoddi yn gliriach a chreu trefniadau i hwyluso buddsoddi priodol gan y sector preifat
  - Llywodraeth y Du a'r cyrff nad ydynt wedi'u datganoli sydd â chyfrifoldeb wrth gefn am rai rhannau o'n seilwaith allweddol gan gynnwys y rheilffyrdd ac ynni ar raddfa fawr. Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru a'n heconomi
  - gwledydd eraill – gan gynnwys gwledydd eraill y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn dysgu o brofiad eraill ac yn ymgysylltu â'r UE fel ffynhonnell bwysig o arian ac arbenigedd
- **Integreiddio materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** drwy ein defnydd o dechnegau arfarnu amrywiol er mwyn llywio'r gwaith cyflawni.
- **Gwella trefniadau caffael seilwaith** er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a'r manteision mwyaf i gymunedau.
- Datblygu **llwybrau a chyfryngau newydd i ariannu seilwaith mewn ffordd arloesol.**
- **Gwella'r ffordd rydym yn deall ac yn rheoli ein hasedau,** gan sicrhau ein bod yn manteisio arnynt i'r eithaf – gan sicrhau'r gwerth gorau drwy asesu'r buddiannau y maent yn eu cynnig ac y gallent eu cynnig.
- **Cynnal y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru fel dogfen 'fyw' a 'pherthnasol'** drwy ei adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd wrth i'r amgylchiadau economaidd, gwleidyddol ac ariannol ddatblygu fel y bydd yn parhau i fod yn adnodd cynllunio defnyddiol i'r sector preifat.

## 1.6 Ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn llwyddiannus


Nodir isod ein nodau ar gyfer cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

- **Nod 1**: creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan ganolbwyntio adnoddau ar fuddsoddiadau sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy.
- **Nod 2**: cynyddu'r adnoddau a fuddsoddir mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth dros y deng mlynedd nesaf y tu hwnt i lefelau cyllidebol a disgwyliedig.
- **Nod 3**:lleihau costau cynnal a chadw a darparu seilwaith a sicrhau bod ein buddsoddiadau yn rhoi'r gwerth gorau am arian drwy: waith cynllunio busnes gwell, sy'n canolbwyntio ar resymeg glir dros fuddsoddi yn y pethau cywir ar yr adeg gywir: gwell prosesau o gyflawni rhaglenni a phrosiectau sy'n defnyddio dulliau cymesur a rheoledig a rhoi cymorth ar sail arfer gorau, canllawiau a fframweithiau ar gyfer llywodraethu lle y bo'n briodol.
- **Nod 4**: sefydlu a chynnal system newydd o fonitro gwariant ar seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd:

- Sy'n integredig ac yn gyson ag ymrwymiadau ehangach Llywodraeth Cymru – hyrwyddo datblygu economaidd drwy annog diwydiannau a busnesau carbon isel, gan ystyried ymrwymiadau o ran cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy ochr yn ochr ag ymrwymiadau trawsadrannol fel mynd i'r afael â thlodi.
- Sydd wedi'i chefnogi gan ein rhanddeiliaid allweddol a'n partneriaid cyflawni – yn y sector cyhoeddus ehangach ac yn y sector preifat a'r trydydd sector.

# Pennod 2 – Cynlluniau a blaenoriaethau sectorol



## 2.1 Cyflwyniad

Rhydd y bennod hon fanylion am y prif sectorau, gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol am bob un:

- Nodau ac amcanion buddsoddi.
- Cyflawniadau hyd yma.
- Crynodeb o gynlluniau sectorol at y dyfodol.
- Ein partneriaid a'n strwythurau cyflawni presennol.

Rhoddir gwybodaeth am brosiectau a rhaglenni presennol yn Atodiadau 1 a 2.

Mae'r bennod hon yn cyflwyno pob sector o dan y penawdau canlynol;

**Seilwaith Economaidd** a ddiffinnir yn adran 1.4.2


- Datblygu Economaidd
- Trafnidiaeth
- Yr Amgylchedd
- Ynni

**Seilwaith Cymdeithasol** a ddiffinnir yn adran 1.4.2

- Tai
- Adfywio
- Addysg
- Iechyd

# 2.2 Datblygu Economaidd

## Ardaloedd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Prif Ffrwd ac Ardaloedd Menter



### 2.2.1 Amcanion a diben buddsoddi

Mae gan lywodraethau ran hollbwysig i'w chwarae i gefnogi mentergarwch drwy ffurfio'r amgylchedd lle mae busnesau yn cystadlu, darparu seilwaith rhwydwaith, datblygu sgiliau a chefnogi gwaith ymchwil a datblygu. Caiff buddsoddi strategol mewn gwella seilwaith effaith sylweddol gan greu amgylchedd sy'n galluogi busnesau i ffynnu a thyfu.

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar naw sector allweddol fel bod ein buddsoddiadau yn cael eu targedu'n well i helpu'r busnesau canlynol: ynni a'r amgylchedd, adeiladu, twristiaeth, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, TGCh, a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Rydym yn meithrin cydberthnasau strategol cadarn â chwmnïau sector, â'r cwmnïau sy'n bwysig yn rhanbarthol i ni ac â'n cwmnïau angori eraill.

Byddwn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng busnes a'r byd academaidd er mwyn cefnogi rhagoriaeth mewn arloesi, datblygu partneriaethau cydweithredol rhwng sectorau allweddol Cymru a sefydliadau sy'n cyflawni gweithgarwch ymchwil yng Nghymru a sicrhau bod Cymru yn datblygu ac yn cadw arbenigedd academaidd er budd busnesau Cymru.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r cynigion ar gyfer rhaglenni newydd yr UE ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Bydd y rhaglenni yn gwneud cyfraniad allweddol i gyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru ei hun o fuddsoddiadau. Bydd lefel buddsoddiadau mewn seilwaith yn y dyfodol, a'r defnydd o offerynnau ariannol arloesol i ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau, yn destun cyd-drafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd dros y ddwy flynedd nesaf.

### 2.2.2 Buddsoddi mewn seilwaith economaidd ers 2007

Ers 2007 rydym wedi buddsoddi mewn llawer o flaenoriaethau economaidd rhanbarthol a chenedlaethol ledled Cymru.

- Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn SA1, Abertawe wedi sicrhau 1,800 o swyddi yn y rhanbarth. Mae tua 96 erw o hen dir porthladd segur a halogedig wedi cael ei drawsnewid ac mae'r safle bellach yn gartref i swyddfeydd, unedau preswyl a siopau atyniadol.
- Yng Nghaerdydd, rydym wedi helpu i drawsnewid y dociau ym Masn y Rhath. Mae cam cyntaf y datblygiad wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar ac mae bellach yn gartref i bentref drama BBC Cymru. Mae cynlluniau ar waith i godi adeilad newydd 40,000 troedfedd sgwâr, wedi'i dargedu at ddeiliaid o Sector y Diwydiannau Creadigol ac mae datblygiadau eraill ym Masn y Rhath yn mynd rhagddynt.
- Rydym wedi buddsoddi bron £20 miliwn drwy arian grant mewn cyfleusterau twristiaeth newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Sicrhawyd £35 miliwn i ddatblygu saith canolfan ragoriaeth ledled Cymru. Mae'r prosiect twristiaeth arfordirol yn canolbwyntio ar wella a datblygu seilwaith arfordirol newydd, tra bod y prosiect twristiaeth gynaliadwy yn canolbwyntio ar farchnadoedd allweddol sy'n tyfu ym maes twristiaeth o ran yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

### 2.2.3 Cynllun Sectorol

Mae pob buddsoddiad mewn seilwaith yn effeithio ar dwf economaidd. Mae gwelliannau i seilwaith trafnidiaeth yn creu swyddi adeiladu a llif cynyddol o nwyddau a gwasanaethau i mewn ac allan o Gymru, yn ogystal â gwella mynediad i waith a chyfleoedd eraill yng Nghymru. Mae buddsoddi mewn seilwaith a chyfleusterau iechyd yn sicrhau bod Cymru yn lle mwy deniadol a hygyrch i fusnesau leoli ynddo, ac mae'n gwella iechyd y gweithlu. Mae buddsoddi mewn tai a

swyddfeydd mewn ardaloedd busnes yn creu twf yn y diwydiant adeiladu ac yn helpu busnesau sy'n ystyried lleoli yng Nghymru. Mae buddsoddi mewn seilwaith ynni yn creu'r amgylchedd cywir ar gyfer twf busnes, gall greu swyddi newydd a helpu i ddatblygu sector ynni iach.

Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod ysgogiadau economaidd sy'n sail i'r holl fuddsoddiadau mewn seilwaith yn cael eu cydnabod fel rhan o ddatblygu a chyflawni polisi.

Mae angen i ni sicrhau bod ein hadnoddau'n targedu'r meysydd hynny lle y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf, gan helpu'r economi i dyfu. Yn y dyfodol, bydd cysylltiad cadarn rhwng ein gweithgareddau adfer tir a phrosiectau sy'n cyflawni amcanion datblygu economaidd penodol neu lle mae gofyniad i'r fath arian gyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd cyfredol (2007-2013) yn agos at gael eu neilltuo'n llawn a gwelwyd cryn fuddsoddi mewn seilwaith, yn enwedig trafnidiaeth, adfywio a rhwydweithiau TGCh. Bydd gweithredu Cronfa Datblygu Trefol Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio gwerth £55m, sef Offeryn Peiriannu Ariannol a fydd yn buddsoddi mewn adfywio trefol, yn creu etifeddiaeth a fydd yn cefnogi buddsoddiadau yn y dyfodol ar ddiwedd cyfnod y rhaglenni cyfredol.

## Prosiect Bang Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru

Bydd busnesau yn y sectorau a'r economi yn ei chyfanrwydd yn cael budd o strwythur digidol cystadleuol a hyblyg. Rydym yn ceisio sicrhau y gall pob eiddo preswyl a busnes yng Nghymru gael mynediad at fand eang cyflym erbyn 2015, gyda'r uchelgais y bydd o leiaf hanner yn cael mynediad at wasanaethau bang eang tra chyflym. Disgwylir i gyfanswm y buddsoddiad a wneir ym mhrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf fod hyd at £400 miliwn, gan gyfuno tua £57m gan Lywodraeth y DU a £70m gan ffynonellau Ewropeaidd sydd wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn trosoli buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat. Bydd y buddsoddiad hwn mewn seilwaith cyfathrebu yn ysgogi economi ddigidol ffyniannus a chystadleuol. Bydd yn cefnogi twf wrth i fusnesau yng Nghymru, yn enwedig y sector TGCh a sector y Diwydiannau Creadigol, gymhwyso technolegau digidol, arloesi yn y maes a masnacheiddio a manteisio i'r eithaf arnynt.

## Ardaloedd Menter

Rydym wedi nodi nifer o Ardaloedd Menter a fydd yn ategu ein dull gweithredu yn seiliedig ar sector i atgyfnerthu cystadleurwydd economi Cymru. Mae pob un yn canolbwyntio ar sector targed allweddol ac maent oll yn cynnig cymhellion penodol i ddenu busnesau newydd i brif leoliadau yng Nghymru.

Cadarnhawyd pum lleoliad:

- **Caerdydd** – a fydd yn canolbwyntio ar y sector ariannol a gwasanaethau proffesiynol.
- **Ynys Môn** – a fydd yn canolbwyntio ar y sector ynni.
- **Glannau Dyfrdwy** – a fydd yn canolbwyntio ar y sector gweithgynhyrchu uwch.
- **Sain Tathan** – a fydd yn canolbwyntio ar y sector awyrofod.
- **Glynebwy** – a fydd yn canolbwyntio ar y sector gweithgynhyrchu uwch.

Mae dau opsiwn arall o ran lleoliadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, sef:

- Eryri
- Dyfrffordd y Ddau Gleddau

Bwriadwn ymyrryd yn yr ardaloedd hyn er mwyn helpu i dyfu'r economi leol a sbarduno twf economaidd mewn rhannau eraill o Gymru, y tu hwnt i ffiniau'r ardaloedd eu hunain.

Bydd seilwaith cyfathrebu da yn ganolog i lwyddiant a chystadleurwydd busnesau yn yr Ardaloedd Menter. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y caiff anghenion seilwaith a nodwyd ar gyfer yr Ardaloedd Menter eu diwallu. Lle y nodir gofynion trafnidiaeth penodol, byddwn yn cyfeirio arian priodol er mwyn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol i ffyrdd yn yr ardaloedd.

## Porthladdoedd a Meysydd Awyr

Byddwn yn ceisio sicrhau bod y seilwaith trafnidiaeth sy'n gwasanaethu ein porthladdoedd a'n meysydd awyr yn cefnogi eu rolau hollbwysig fel sbardun economaidd allweddol, gan ddenu a chefnogi amrywiaeth eang o weithgarwch busnes. Yn 2010, gwelodd porthladdoedd Cymru werth tua £60m tunnell o gargo, gyda chryn dipyn o hwnnw yn Aberdaugleddau. Mae ein porthladdoedd a'n meysydd awyr yn borth i farchnadoedd y byd mewn economi gynyddol fyd-eang. Byddwn yn anelu at nodi cyfleoedd buddsoddi a fydd yn cefnogi eu datblygiad parhaus fel canolfannau economaidd modern.

## Dinas-ranbarthau

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Tachwedd 2011 gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ystyried rôl bosibl dinas-ranbarthau yn natblygiad economaidd Cymru yn y dyfodol. Mae'r grŵp wrthi'n ystyried y dystiolaeth o blaid dinas-ranbarthau fel sbardun i dwf economaidd ac i gadarnhau'r cyfleoedd a buddiannau allweddol o ran datblygu economaidd a gynigir drwy ddatblygu dinas-ranbarthau.

Ar ôl i'r grŵp gadarnhau'r sylfaen dystiolaeth economaidd o blaid dinas-ranbarthau, bydd yn cyhoeddi ei argymhellion ynghylch pa ran(nau) o Gymru allai gael budd o ddull gweithredu o'r fath a nodi'r newidiadau y mae eu hangen i sicrhau bod hynny'n llwyddo i greu swyddi a ffyniant.

## Buddsoddi mewn sectorau allweddol

Bydd i bob sector allweddol ei sbardun penodol ei hun a'i ofynion a'i flaenoriaethau seilwaith gwahanol ei hun. Byddwn yn ystyried y gofynion sy'n dod i'r golwg ar gyfer pob sector ac yn ceisio nodi ymatebion sy'n cefnogi'r gofynion hynny orau. Bydd y ffordd y byddwn yn ymdrin â phortffolio eiddo Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn wrth i ni geisio cysoni ein gweithgareddau i helpu i ddatblygu'r sectorau allweddol.

## Ynni a'r Amgylchedd

Mae buddsoddi strategol mewn seilwaith ynni yn cynnig swyddogaeth alluogi bwysig drwy'r economi ehangach ac yn cyfrannu at heriau cymdeithasol ehangach, megis lleihau tlodi tanwydd, drwy ymestyn y grid a'r rhwydweithiau nwy. Mae'r sector Ynni a'r Amgylchedd yn wynebu heriau o ran seilwaith ac ar hyn o bryd nid yw'r ddarpariaeth yn bodloni'r gofynion cynyddol a roddir arni.

Mae diweddaru'r rhwydwaith trawsyrru trydan yng Nghymru yn flaenoriaeth, ac mae angen i ni sicrhau bod y rhwydwaith newydd yn gallu ateb heriau ein perthynas newidiol rhwng galw a chyflenwad. Er mwyn adeiladu ar botensial y sector hwn, mae angen i ni ystyried sut y gallwn gynyddu gallu porthladdoedd Cymru sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

## Adeiladu

Mae diwydiant adeiladu Cymru yn hollbwysig i economi Cymru. Amcangyfrifir bod gwariant y sector dros £2.3 biliwn y flwyddyn; mae'r sector yn cyfrannu tua 10% o CMC. Mae dros 13,000 o gwmnïau yn y sector, sy'n cyflogi dros 130,000 o bobl, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol megis cynllunwyr, penseiri, syrfewyr a pheirianwyr adeiladu yn ogystal â'r cwmnïau adeiladu traddodiadol sy'n gyfrifol am godi adeiladau newydd a chynnal a chadw ein hadeiladau hanesyddol a threftadol.

Y tu hwnt i'w effaith economaidd, mae'r sector yn ganolog i ddatblygu amgylchedd adeiledig o safon. Mae hyn yn bwysig i bob busnes a chymuned, gan gwmpasu popeth o amgylchedd dinesig ar raddfa fawr, megis gorsafoedd ynni, swyddfeydd a ffyrdd i'n lle byw personol.

Mae her newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ymagwedd fwy cynaliadwy tuag at ddatblygu, gyda rôl allweddol i dechnoleg adeiladu. Mae Cymru yn ymrwymedig i dorri ei hôl troed carbon 3% y flwyddyn o 2011. Mae'r newidiadau hyn yn codi heriau newydd i fusnesau cynhenid o ran datblygu, cynnal a chadw ac adnewyddu tai ac adeiladau eraill.

Mae cwmnïau adeiladu yng Nghymru ar flaen y gad o ran datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r technolegau arloesol sydd eu hangen i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil yr heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn cydweithio i sicrhau y gallwn gynnig yr atebion amgylcheddol a charbon isel a ddymunir gan gleientiaid yn awr ac yn y dyfodol.

## Twristiaeth

Mae Cymru yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel cyrchfan twristiaeth cynaliadwy blaenllaw sy'n hybu ffyniant economaidd lleol, lles ac ymgysylltu cymunedol, ac sy'n rhoi profiad o safon uchel i ymwelwyr. Mae **Cyflawni ein Potensial**, sef strategaeth twristiaeth genedlaethol Cymru, yn cyfleu ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer twristiaeth.

Mae'r sector twristiaeth yn cyflawni ei brosiectau seilwaith gan roi sylw dyledus i ddatblygu economaidd neu'r amgylchedd a thrwy fentrau adfywio megis Rhaglen y Moroedd Glas. Nod yr ymyriadau hyn yw ceisio gwella ansawdd profiad ymwelwyr, a fydd yn ei dro yn cynnig mwy o fudd economaidd o'r sector i economi Cymru.

Gall buddsoddi mewn cyfleusterau twristiaeth newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes godi safonau ansawdd cyffredinol y diwydiant, gan gynnwys atyniadau newydd i ymwelwyr a gwestai a bydd yn ychwanegu gwerth ochr yn ochr â gwelliannau i'n seilwaith twristiaeth arfordirol. Yr enghraifft ddiweddar fwyaf nodedig o hyn yw Llwybr Arfordir Cymru. Disgwylir i'r Llwybr 870 milltir (1400km) o hyd ddenu 100,000 o ymwelwyr ychwanegol i Gymru bob blwyddyn a bydd yn golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd â llwybr parhaus o amgylch ei harfordir.

## Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol

Y weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yw hyrwyddo sector cynaliadwy sy'n gystadleuol yn rhyngwladol wedi'i ategu gan gronfa o bobl gymwys a medrus iawn a gefnogir gan seilwaith datblygedig.

Bydd gwelliannau i seilwaith yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y sector hwn yng Nghymru mewn sawl ffordd. Mae swyddfeydd o safon dda a mynediad at seilwaith digidol o safon dda, yn enwedig yng Nghaerdydd, yn bwysig i ddatblygu'r sector. Mae gwelliannau i'r cysylltiadau trafnidiaeth o fewn dinas-ranbarth Caerdydd a rhwng Caerdydd a Llundain yn hollbwysig hefyd.

## Y Diwydiannau Creadigol

Mae sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cyflogi dros 30,000 o bobl – gyda 30,000 o bobl eraill yn cael eu cyflogi mewn rolau creadigol mewn sectorau eraill – ac mae'n cynhyrchu dros £1.8 biliwn o drosiant y flwyddyn. Cynyddodd trosiant yn y sector 23% rhwng 2005 a 2009, sy'n ei wneud yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru ac un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

Mae traddodiad hir o ddarparu cynnwys cerddoriaeth, teledu, animeiddio a mathau eraill o gynnwys creadigol yng Nghymru, yn ogystal â chryfderau a chyfleoedd newydd o ran datblygiad cynnwys a gwasanaethau digidol. Mae mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru yn ofyniad seilwaith pwysig i'r sector.

Yn gyffredinol, nid yw buddsoddi pellach mewn gweithleoedd busnes, na mesurau i symbylu datblygiadau eiddo drwy gyflymu/symleiddio prosesau cynllunio, yn flaenoriaethau i'r sector. Fodd bynnag, bydd datblygiadau ym Masn y Rhath, Caerdydd, gan gynnwys Canolfan y Diwydiannau Creadigol, yn cynnig canolbwynt posibl i'r sector creadigol yng Nghymru a modd i ddenu cwmnïau sy'n mewnfuddsoddi.

## Gwyddorau Bywyd

Mae'r sector Gwyddorau Bywyd yn sbardun pwysig i dwf economaidd ac yn hanfodol i'r economi o ran creu swyddi a datblygu sgiliau ym mhen uchaf y farchnad. Gan rychwantu cynhyrchion fferyllol, biotechnoleg, a thechnoleg feddygol ynghyd â gweithgareddau eang eu cwmpas, megis ymchwil, profi, gweithgynhyrchu a darparu gwasanaethau arbenigol, mae meysydd sylweddol o ragoriaeth wirioneddol eisoes yng Nghymru ac mae ganddi'r potensial i ennill enw da yn fyd-eang. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar nodi cyfleoedd newydd ar gyfer twf ac atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng busnes, y GIG a'r byd academaidd. Bydd gweddnewid Gwyddorau Bywyd Cymru yn sicrhau twf economaidd, yn gwella iechyd y bobl sy'n byw yng Nghymru ac yn cynnig arbedion cost i GIG Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrifysgolion a phartneriaid yn y sector preifat i sicrhau bod atebion o ran seilwaith wedi'u nodi a'u cyflawni i helpu'r sector i dyfu a ffynnu. Mae ein buddsoddiad yn yr Athrofa Gwyddor Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe yn dwyn ynghyd wyddoniaeth sylfaenol, ymchwil a'r diwydiant.

### Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Mae diwydiant Cymru wedi newid yn sylweddol ac yn gyflym yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Mae'r gweithgynhyrchu diwydiannol trwm a oedd yn nodweddu'r 1970au a'r 80au wedi ildio i amgylchedd gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg llawer mwy bywiog, wedi'i hwyluso'n rhannol gan fewnfuddsoddi. Bydd technolegau newydd sy'n cael eu sbarduno gan gystadleuaeth fyd-eang ddwys a lefelau uwch o Ymchwil a Datblygu yn arwain at gynhyrchion a phrosesau newydd. Nodi a blaenoriaethu cyfleoedd o'r fath yw'r sail dros ddull gweithredu strategol o ran twf.

Caiff map llwybr strategol lefel uchel ei ddatblygu i'r sector a'i ategu gan gyfres o gynlluniau gweithredu tactegol manwl. Bydd y map llwybr strategol yn targedu'r blaenoriaethau allweddol strategol canlynol: sgiliau, ymchwil, dylunio, datblygu ac arloesi, globaleiddio a thwf, cyllid ar gyfer twf a meithrin gallu. Wrth i'r map llwybr strategol ddatblygu, byddwn yn parhau i ystyried gofynion penodol y sector o ran seilwaith.

### TGCh

Mae TGCh yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer twf ymhob diwydiant a sector. Mae'n creu cyfleoedd economaidd i unigolion yn ogystal â busnesau. Felly mae angen i'r blaenoriaethau ar gyfer meithrin y sector fod yn eang eu cwmpas, ac ystyried yr effaith a'r cyfraniad y gall y sector eu cael o ran datblygu sectorau allweddol eraill. Byddwn yn ceisio nodi gofynion y sector o ran seilwaith a fydd yn rhoi hwb i enw da Cymru fel lle i gynnal busnes.

### Bwyd a Ffermio

Mae cadwyn gyflenwi bwyd a diod yn allweddol i economi Cymru o ran cyflogaeth, incwm a'r cyfraniad a wna i dwristiaeth. Cyflogir tua 230,000 o bobl yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod tra bod tua 70,000 yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector ffermio yng Nghymru.

Caiff blaenoriaethau seilwaith y sector Bwyd a Ffermio eu hystyried wrth ddatblygu strategaeth i'r sector.

## 2.2.4 Partneriaid a strwythurau cyflawni presennol

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad parhaus a helaeth â busnesau unigol, sefydliadau cynrychioliadol, awdurdodau lleol, cyrff yn y trydydd sector, academyddion a'r cyhoedd. Gweithiwn gyda chwmnïau angori, cwmnïau sydd o bwys rhanbarthol a chwmnïau sector i ddeall sut y gallwn gydweithio i hwyluso cydberthnasau strategol rhwng y Llywodraeth a'r sector preifat. Rydym wedi sefydlu paneli sector i roi cyngor uniongyrchol ar gyfleoedd o fewn ein sectorau allweddol a byddwn yn defnyddio'r safbwynt strategol sy'n datblygu o'r Cynllun hwn i wella a chefnogi cyfleoedd cydweithredol ymhellach.

## Astudiaeth Achos: Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru



Yn hanesyddol mae demograffeg a thopograffi Cymru wedi bod yn her i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu sy'n ceisio darparu eu gwasanaethau i'r nifer fwyaf o bobl â phosibl, yn enwedig yn achos band eang.

Yn draddodiadol, mae buddsoddiadau'r sector preifat wedi tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd mwy poblog a hynny ar draul ardaloedd llai poblog. Roedd hyn, ynghyd â datblygiad cyflym technoleg, yn awgrymu'n gryf bod rhannau o Gymru mewn perygl o fod ar ei hôl hi a bod mewn sefyllfa lle na allent fanteisio ar y buddiannau mawr sy'n gysylltiedig â dyfodol digidol sy'n datblygu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu'r amgylchedd cywir i sicrhau bod busnesau yn gallu cystadlu ar yr un telerau ag eraill. Fel rhan o hyn, rydym wedi gosod targed uchelgeisiol i geisio sicrhau bod cymaint o adeiladau preswyl a busnes â phosibl yn cael mynediad i wasanaeth band eang cyflym erbyn 2015.

Drwy brosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru y byddwn yn cyflawni'r targed hwn a dyma'r prosiect mwyaf o'i fath i'w gynnal erioed yng Nghymru. Heb yr ymagwedd strategol hon efallai y câi cynnydd ei wneud ar ffurf dameidiog drwy brosiectau a chaffael lleol unigol. Bydd y broses gaffael ar gyfer y prosiect yn dod i ben cyn hir ac ar yr amod y daw cais boddhaol i law, bwriedir i'r contract gael ei ddyfarnu yn ystod haf 2012 ar gyfer un ateb strategol i ddarparu gwasanaeth band eang cyflym, wedi'i dargedu at y rhannau hynny o Gymru lle na ddisgwylir i'r sector preifat ddarparu gwasanaeth.

Drwy'r dull gweithredu strategol hwn bu modd i'r prosiect harneisio a thargedu'n effeithiol arian cyfunol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a ffynonellau Ewropeaidd er mwyn denu buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat ac i sicrhau arbedion maint. Bydd ein Hadnodd Integreiddio Datblygu Cynaliadwy yn sicrhau bod y prosiect yn bodloni gofynion arfer gorau a rheoliadol o ran datblygu cynaliadwy.

Bydd prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru yn sbarduno gwell cysylltedd yn ein cymunedau. Bydd hyn yn golygu bod Cymru ar y blaen o'i chymharu â phob rhan arall o'r DU a bydd yn cynnig lefel dipyn yn well o fand eang nag y mae busnesau a chartrefi yn gyffredinol yn ei chael heddiw.

Y prosiect hwn yw un o'r buddsoddiadau mwyaf erioed gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith a bydd yn creu newid mawr yn seilwaith digidol Cymru, a fydd yn sail i strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor. Bydd hefyd yn ategu'r broses o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ymhell i'r dyfodol a sicrhau y gall busnesau ddatblygu atebion arloesol a hynny ar sylfaen ddigidol gadarn er mwyn ymateb i ddatblygiadau mewn marchnadoedd byd-eang.

# 2.3 Trafnidiaeth

## Rhwydwaith Trafnidiaeth



Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyflwynodd fuddsoddiad a fydd yn sicrhau bod y system drafnidiaeth yng Nghymru yn gweithio'n well i helpu i fynd i'r afael â thlodi, cynyddu lles a helpu twf economaidd.

Drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi'i flaenoriaethu byddwn yn cyflwyno buddsoddiadau a fydd yn dileu rhwystrau i dwf economaidd ac yn mynd i'r afael â'r materion a wynebir gan bobl sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r adran hon yn manylu ar y ffordd rydym yn bwriadu buddsoddi mewn ffyrdd a rheilffyrdd.

## 2.3.1 Ffyrdd

Mae'r seilwaith ffyrdd wedi'i ddatganoli a Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd am fwy na 1000 o filltiroedd o Gefnffyrdd a 75 milltir o Draffyrdd ac mae'n gyfrifol am adeiladu, cynnal a chadw a gwella asedau ffyrdd gwerth £13.3bn. Mae'r awdurdodau lleol (ALlau) yn gweithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer ffyrdd lleol; fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i roi cymorth grant i helpu i wneud gwelliannau.

Mae asiantau priffyrdd yn trin tua 2000 o dyllau yn y ffyrdd ac yn gosod arwyneb newydd ar tua 450 cilometr o lonydd yn y rhwydwaith bob blwyddyn.

### 2.3.2 Nodau ac amcanion buddsoddiadau

Ein nod yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y budd mwyaf o'r rhwydwaith ffyrdd presennol drwy waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio'n dda a gwaith uwchraddio er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn gweithredu'n fwy effeithlon drwy:

- Flaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cyfrannu at dwf economaidd – mynd i'r afael â thagfeydd trefol a gwella ffyrdd mynediad i ardaloedd allweddol a thrwy wella capasiti a dibynadwyedd ein llwybrau allweddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin.
- Bod yn fwy ystwyth yn y ffordd rydym yn datblygu atebion i broblemau sylfaenol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu bob dydd, megis cynllun arloesol cyffordd Coldra ar yr M4 i leddfu tagfeydd a llif traffig.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (CTC) wedi'i flaenoriaethu yn nodi ein blaenoriaethau a'u hamseriad sy'n galluogi ein partneriaid cyflawni i flaengynllunio'n fwy effeithiol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r CTC, cafodd Asesiad Amgylcheddol Strategol, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd manwl eu cynnal.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o effaith ei gwariant ar gymunedau lleol ac o ganlyniad i hynny ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ac wrth gyflawni'r rhaglen waith hon byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn.

### 2.3.3 Ffyrdd Lleol

Mae Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol i gyflwyno seilwaith ffyrdd drwy nifer o wahanol ddulliau megis y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac arian ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol. Mae hefyd yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu pob Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei lywio gan Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Gyda'r nod o roi hwb i economi Cymru a gwella'r priffyrdd lleol, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i helpu awdurdodau lleol i ymdopi â phwysau refeniw cynyddol, drwy ganiatáu

iddynt ryddhau adnoddau ar gyfer benthyca darbodus drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Caiff yr arian hwn, y disgwylir iddo wneud cyfanswm o £172 miliwn i gyd, ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf i wella priffyrdd yn unig ledled Cymru yn ystod y cyfnod o dair blynedd 2012-2015. Bydd arian refeniw ar gael i awdurdodau lleol dros gyfnod o 22 o flynyddoedd.

### 2.3.4 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Ers 2007, mae Llywodraeth Cymru, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r ALlau wedi gwneud nifer o ymyriadau yn y seilwaith ffyrdd er mwyn lleddfu tagfeydd, gwella diogelwch a lleihau'r effaith ar gymunedau lleol gan gynnwys:

- Ehangu ffordd tair lôn i safon dwy ffordd ddeuol dros bellter o bron pedair milltir ar yr A465 rhwng y Fenni a Gilwern – rhan o gynllun deuoli'r A465 ym Mlaenau'r Cymoedd. Costiodd y cynllun £57m i gyd ac fe'i cwblhawyd ym mis Mai 2008.
- Ehangu dros wyth milltir o'r M4 o ddwy lôn ddeuol i safon ffordd ddeuol tair lôn rhwng Cas-bach a Coryton sydd wedi gwella'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. Costiodd y cynllun £99m i gyd ac fe'i cwblhawyd ym mis Ionawr 2010.
- Drwy osgoi pentref Robeston Wathen gyda Gwelliant yr A40 rhwng Penblewin a Pharc Slebets sydd wedi creu mwy o le gyda'r defnydd cyntaf o safon ffordd ddeuol 2 plws 1 yng Nghymru. Costiodd y cynllun £41m i gyd ac fe'i cwblhawyd ym mis Chwefror 2011.
- Mae ffordd osgoi Porthmadog, Tremadog a Minffordd ar yr A487 wedi gwella amseroedd teithio a dibynadwyedd rhwng y gogledd a'r de. Cwblhawyd y gwaith adeiladu naw mis yn gynharach nag amserlen y rhaglen. Costiodd y cynllun £35m i gyd ac fe'i hagorwyd yn swyddogol i draffig ym mis Hydref 2011.
- Gwelliannau i aliniad llwybr presennol yr A470 rhwng Cwmbach a Phontnewydd-ar-Wy, gan osgoi pont reilffordd isel ac arwyddion traffig ar bont afon gul a gwella cysylltiadau rhwng y gogledd, y canolbarth a'r de yn ogystal ag amseroedd teithio a dibynadwyedd. Costiodd y cynllun £50m i gyd ac fe'i hagorwyd yn swyddogol i draffig ym mis Rhagfyr 2011.
- Gwella dibynadwyedd yr A473 â Ffordd Osgoi Gartholwg – cynllun gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a ariannwyd yn rhannol drwy raglen Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Costiodd y cynllun £99m i gyd ac fe'i cwblhawyd ym mis Awst 2010.
- Gwella coridor Ceredigion a'r A48/M4 yng Nghaerfyrddin drwy Ffordd Osgoi Llandysul yr A486 a gafodd £29m drwy raglen Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd y cynllun ym mis Hydref 2009.
- Gwella cysylltiadau'r A477 (Sanclêr i Ros-goch) â Doc Penfro. Dechreuodd y gwaith ym mis Chwefror 2012 ac mae'r cynllun yn costio tua £51m i gyd. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2013.
- Darparu gorsaf fysiau o'r radd flaenaf i Abertawe gan gynnig cyfnewidfa ar gyfer teithiau bysiau, coetsys a thacsis yn rhanbarthol. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfleusterau aros gwell i deithwyr, systemau gwybodaeth ac unedau manwerthu. Cwblhawyd y gwaith adeiladu yn 2011 ac fe'i hagorwyd yn swyddogol gan y Prif Weinidog ar 22ain Mehefin 2011. Costiodd y cynllun – cyfuniad o Grant Trafnidiaeth, WEFO a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol – tua £18m i gyd.
- Darparu'r rhan olaf, sef y brif ran o Gam 2 o Ffordd Ddosbarthu Cyrion Port Talbot, sy'n cysylltu Cam 1C â Chyffordd 38 yr M4. Costiodd y cynllun tua £111m i gyd gydag arian cyfatebol o gronfeydd Ewropeaidd gwerth £53m a dylai gael ei gwblhau yn 2013.

- Rhoi arian grant ychwanegol gwerth £50m i awdurdodau lleol ers 2007/8 i'w helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a £13m i'w helpu i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw adweithiol (tyllau yn y ffordd, gwasanaeth gaeaf ac ati).

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn y rhwydwaith ffyrdd gan wella dibynadwyedd amser teithio; gwella'r gallu i wrthsefyll pan fydd rhywbeth yn digwydd i'r rhwydwaith yn ogystal ag addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd; yn ogystal â gwell diogelwch i sicrhau bod y niferoedd sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y rhwydwaith ffyrdd yn parhau i leihau.

### 2.3.5 Cynlluniau sectorol

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn amlinellu'r cynlluniau ffyrdd y bwriadwn eu cyflwyno ac yn nodi'r flwyddyn ariannol pryd y bydd y gwaith yn dechrau. Ymhlith y mentrau a ddechreuodd yn 2011/12 mae:

- Gwelliannau diogelwch i ffordd yr A465 rhwng Hirwaun a Dowlais Top.
- Gwelliannau i ffordd ymadael cylchfan yr A470 yn Abercynon.
- Gwella'r ffordd fynediad i ganol y drefn ac Ysbyty newydd Cwm Cynon ar ffordd yr A4059 yn Aberpennar.
- Mesurau i leihau tagfeydd ar Bont Britannia yr A55.
- Gwella'r ffordd fynediad i ystad ddiwydiannol Cynffig.
- Gwelliannau i'r Ffordd Fynediad i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam (Cam 2).
- Darparu rhaglen o gynlluniau ailwynebu ffyrdd ledled Cymru i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar y rhwydwaith oherwydd tyllau yn y ffordd.
- Y rhaglen ymyrryd yn gynnar i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar y rhwydwaith yn y dyfodol.
- Uwchraddio goleuadau a gosod llusernau mwy effeithlon o ran ynni.

Ymhlith y cerrig milltir allweddol ar gyfer buddsoddiadau mawr mewn seilwaith ffyrdd yn y dyfodol mae:

2012 – 2013

- Penodi contractwyr i ymgymryd â gwaith ar yr A483 yn y Drenewydd.
- Datblygu'r mesurau trafnidiaeth integredig i wella'r A470 a'r A483 drwy Lanfair-ym-Muallt a chynllunio ymyriadau yn y tymor hwy (ar ôl 2015).
- Dechrau gwelliannau arfaethedig i:
  - Ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465, rhan 3 o Frynmawr i Dredegar
  - Ffordd yr A477 o Sanclêr i Ros Goch
  - Cwblhau Lôn Pum Milltir yr A4226
- Adolygu'r astudiaeth o'r materion trafnidiaeth yn yr ardal rhwng Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Chaer.

2013 – 2014

- Dechrau cyflwyno opsiynau ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer yr M4 o Fagwyr i Gas-bach.
- Gwelliannau i Gyffordd 28 yr M4 ym Mharc Tredegar.

2014 – 2015

- Dechrau Ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465, rhan 2 o Gilwern i Fryn-mawr (cyfeiriad 82 y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol).

Yn ogystal, mae rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella coridor strategol yr M4, gan wella ei allu i ymdopi â lefelau teithio cyfredol a'i gwneud yn bosibl i fwy o deithiau nag a geir ar hyn o bryd. Nod rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yw sicrhau bod teithio yn ne Cymru yn fwy diogel, yn haws ac yn fwy dibynadwy, drwy gyfuniad o drafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith priffyrdd a mesurau cyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â'r opsiynau gwella, fel rhan o Ymgynghoriad Ffurfiol ar Raglen Gwella Coridor yr M4, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2012. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad ffurfiol ynghylch sut y bydd hyn yn datblygu maes o law.

Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd i ystyried y posibilrwydd o wneud cais am arian oddi wrth Gyfleuster Cysylltu Ewrop, pan gaiff ei fabwysiadu, i gefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith trafnidiaeth ar y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd yng Nghymru.


### 2.3.6 Partneriaid a Strwythurau Cyflawni Cyfredol

Nodir yn y diagram isod grynodeb o'r partneriaid cyflawni allweddol o ran cyflwyno gwelliannau mewn seilwaith ffyrdd yng Nghymru a'u cynnal a'u cadw. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas waith agos ag Asiantau'r Cefnffyrdd, awdurdodau lleol a'r Consortia Rhanbarthol i gyflawni cynlluniau.

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu Asiantau'r Cefnffyrdd i ymgymryd â mân welliannau ac ymyriadau o ran ffyrdd ar ei rhan. Caiff gwelliannau mawr i seilwaith eu rheoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy gontractau â phartneriaid cyflawni gwaith adeiladu.

Mae'r pedwar Consortiwn Trafnidiaeth Rhanbarthol – Sewta, SWWITCH, Taith a TraCC – yn dwyn ynghyd gynlluniau cyflawni ar ran y 22 awdurdod lleol. Caiff y cynlluniau cyflawni hyn eu blaenoriaethu gan y Consortia a'u rheoli i sicrhau trosolwg strategol ar lefel ranbarthol.

Gall awdurdodau lleol hefyd gael arian grant yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gweithgarwch cynnal a chadw i sicrhau cydnerthedd y rhwydwaith ffyrdd lleol.




## 2.3.7 Rheilffyrdd

Nid yw'r rheilffyrdd wedi'u datganoli i Gymru. Mae gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru rôl o ran rhoi cyfeiriad strategol a chaffael gwasanaethau a phrosiectau rheilffyrdd. Y diwydiant sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd.

Mae Network Rail yn berchen ar y cledrau, signalau, twnelau, croesfannau, traphontydd a 18 o orsafoedd allweddol ac yn eu gweithredu, eu cynnal a'u cadw a'u datblygu. Caiff y rhan fwyaf o'r gorsafoedd eraill eu rheoli gan Gwmnïau Trên ond Network Rail sy'n berchen arnynt. Ar 14eg Tachwedd 2011, crëwyd Network Rail Cymru. Golyga hyn y bydd y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn cael ei reoli gan un uned fusnes wedi'i lleoli yng Nghymru, gan alluogi Network Rail Cymru i fod yn fwy ymatebol i anghenion Cymru ac yn fwy atebol yn lleol. Mae hwn yn gyfle i feithrin cydberthnasau gwaith cadarn â Network Rail.

Caiff gwasanaethau trên i deithwyr eu rheoli a'u gweithredu gan Gwmnïau Trên; fel arfer o dan fasnachfreintiau rhanbarthol a ddyfernir gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae Gweinidogion Cymru yn cyd-lofnodi masnachfraint Cymru a'r Gororau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r fasnachfraint yn nodi pa wasanaethau i deithwyr a gaiff eu darparu, eu hansawdd ac amodau eraill megis glendid trenau, cyfleusterau gorsafoedd a dibynadwyedd.

### 2.3.8 Nodau ac amcanion buddsoddiadau

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddefnyddio pob sbardun sydd ar gael i ddylanwadu ar y rhwydwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru ac mae'n anelu at sicrhau ei bod yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r gwaith o gynllunio a darparu rhwydwaith rheilffyrdd modern – sy'n parhau i wella gwasanaethau i deithwyr.

Yn y tymor hwy byddwn yn ceisio mwy o gyfrifoldeb am y rheilffyrdd yng Nghymru. Rydym eisoes yn amlinellu ein cynlluniau i gael buddsoddiad sylweddol yn y broses o foderneiddio ein rhwydwaith rheilffyrdd.

Rydym am gefnogi system reilffyrdd fodern o safon uchel ond sy'n fforddiadwy yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn fwy hygyrch i'n cymunedau. Bydd hyn yn golygu cynllunio ar gyfer twf yn y defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd ac ar yr un pryd ddod o hyd i ffyrdd o'i wneud yn fwy effeithiol. Rydym yn arwain y gwaith o ddatblygu'r achos busnes dros drydaneiddio Prif Linell Reilffordd y Great Western o Abertawe i Gaerdydd, a Cledrau'r Cymoedd, gan weithio'n agos gyda Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth. Rhwydwaith wedi'i drydaneiddio ar gyfer Cledrau'r

Cymoedd fydd y cam cyntaf tuag at ddarparu system drafnidiaeth metro wirioneddol integredig yn y De. Gan edrych y tu hwnt i hynny, bydd y dull gweithredu strategol o gynllunio yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau trafnidiaeth integredig ar sail ranbarthol.

### 2.3.9 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail wedi cyflwyno nifer o welliannau sylweddol i'r seilwaith rheilffyrdd ers 2007, gan gynnwys:

- **Gorsafoedd newydd** Tŷ-du, Rhisga a Phontymister, Crosskeys, Trecelyn, Llanhiledd, a Pharcffordd Glynebwy; Y Rhws (Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) a Llanilltud Fawr ar gyfer prosiect ailagor Llinell Bro Morgannwg; Llanharan; a dwy orsaf yn Abercynon (Gogledd Abercynon a De Abercynon) gydag un orsaf wedi'i huwchraddio. Bydd Wdig yn agor ym mis Mawrth 2012.
- **Gwelliannau i'r seilwaith** ar Linell Reilffordd y Cambrian i wella perfformiad ac effeithlonrwydd a'i gwneud yn bosibl i wasanaethau trên gael eu darparu yn y dyfodol. Mae 22 o filltiroedd newydd o gledrau wedi cael eu hadeiladu.
- **Mae gwasanaethau trên amlach** ar Rwydwaith Cledrau'r Cymoedd, rhwng Caerdydd a Chaergybi ac yng Ngorllewin Cymru rhwng Abergwaun a Chaerfyrddin/Abertawe.
- **Gwelliannau o ran adnoddau** – darparwyd cerbydau ychwanegol i wella adnoddau ar rwydwaith Cledrau'r Cymoedd, ac ar lwybrau llinell reilffordd y Cambrian a'r Gororau.

Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau drwy gronfeydd strwythurol Ewropeaidd – gan weithio mewn partneriaeth â Trenau Arriva Cymru, Network Rail, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol, i sicrhau tua £40m o arian ERDF ar gyfer prosiectau rheilffyrdd, gyda £17m ychwanegol yn cael ei arfarnu ar hyn o bryd:

- £15m ar gyfer prosiectau seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys dolenni pasio, mannau troi'n ôl a gorsaf newydd i'w gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau trên amlach ar nifer o linellau Cledrau'r Cymoedd.
- £21m ar gyfer Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru (NSIP+) – rhaglen strategol o welliannau i seilwaith gorsafoedd sy'n adeiladu ar Raglen Gwella Gorsafoedd y DU.
- £21m ar gyfer atgyfnerthu gwasanaethau ar Cledrau'r Cymoedd i leihau gorlenwi yn ystod oriau brig.
- At hynny, mae tua £5m wedi cael ei sicrhau gan awdurdodau lleol i wella cyfleusterau cyfnewid yn ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio.

Drwy'r buddsoddiadau hyn mewn seilwaith ac adnoddau bu modd gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar y rhwydwaith gan Trenau Arriva Cymru. Mae perfformiad gwasanaethau trên Trenau Arriva Cymru o ran dibynadwyedd y rhwydwaith trenau wedi gwella; mae prydlondeb bellach wedi cyrraedd 95% o Fesur Perfformiad Cyhoeddus, yn ogystal â chynnydd yn nifer y teithwyr o 21.8 miliwn yn 2006-07 i 27.8 miliwn yn 2010-11.

### 2.3.10 Crynodeb o'r Cynlluniau Sectorol

Nid yw arian ar gyfer seilwaith y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw. Fodd bynnag, arweiniodd Llywodraeth Cymru y gwaith o baratoi'r Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer trydaneiddio Prif Linell Reilffordd y Great Western i Abertawe, yn ogystal â thrydaneiddio rhwydwaith cyfan Cledrau'r Cymoedd, sy'n cynnwys Llinell Reilffordd Glynebwy, Maesteg a Bro Morgannwg.

Mae'r Achosion Busnes hyn wedi cael eu cyflwyno i'r Adran Drafnidiaeth a fydd yn asesu ac yn ystyried y blaenoriaethau hyn yng nghyd-destun rhaglen reilffyrdd ehangach y DU. Rydym yn parhau i gael deialog gyda'r Adran Drafnidiaeth ynglŷn â'r mater hwn a bwriada'r Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniad erbyn mis Gorffennaf eleni.

Nid yw tua hanner y gorsafoedd yng Nghymru yn gwbl hygyrch i deithwyr sydd â symudedd cyfyngedig. Drwy wella hygyrchedd gorsafoedd bydd teithio ar y rheilffyrdd yn dod yn ddull teithio mwy ymarferol i'r grŵp hwn. Bydd gorsafoedd o safon uwch hefyd yn denu mwy o bobl i ddefnyddio'r rheilffyrdd, a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel wrth ddefnyddio'r orsaf. Mae Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru (NSIP+) wedi sicrhau £21m o Arian Ewropeaidd i ddarparu rhaglen o wella hygyrchedd gwerth £40m mewn gorsafoedd yng Nghymru. Daw symiau sylweddol o arian am yr ymyriad hwn o Network Rail a Chronfeydd Strwythurol, sy'n ei wneud yn ymyriad cost-effeithiol iawn i Lywodraeth Cymru.


Mae rhaglen NSIP+ eisoes wedi gwneud datblygiadau sylweddol o ran moderneiddio gorsafoedd ledled Cymru, yn enwedig yng ngorsaf Abertawe sydd bellach yn fodel enghreifftiol. Rydym yn ymrwymedig i barhau i gyflawni'r rhaglen hon am y tair blynedd nesaf.

Caiff Prosiect Arwyddion Ardal Caerdydd ei ariannu gan yr Adran Drafnidiaeth, ynghyd ag arian gan Lywodraeth Cymru, a'i gyflawni gan Network Rail. Bydd y gwaith uwchraddio sylweddol hwn, a fydd yn costio dros £220 miliwn i gyd, yn gwella cledrau a signalau a mathau eraill o seilwaith yn ardal Caerdydd yn barod ar gyfer twf mewn gwasanaethau trên yn y dyfodol, o 12 trên yr awr ar hyn o bryd i hyd at 16 trên yr awr. Mae'r prosiect hwn yn brosiect allweddol sy'n rhagflaenu'r broses o drydaneiddio rhwydwaith Cledrau'r Cymoedd.

## 2.3.11 Partneriaid a Strwythurau Cyflawni Cyfredol

Mae darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn strwythur cymhleth, fel y nodir yn niagram 1. Mae'n gofyn am gydweithredu agos rhwng yr holl randdeiliaid a phartneriaid.

Diagram 1 – Partneriaid darparu gwasanaethau neilffyrdd



## Astudiaeth Achos: Prosiect Deuoli'r A465 ym Mlaenau'r Cymoedd





Mae cefnffordd yr A465 yn elfen allweddol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru sy'n gwasanaethu traffig lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n mynd drwy Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd, gan gynnig ffordd amgen i'r M4 ac mae'n rhan o'r rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Ar hyn o bryd nid yw'r llwybr yn cynnig y lefel o wasanaeth sydd ei hangen ac mae iddi record ddiogelwch wael.

Mae prosiect Deuoli'r A465 yn cynnwys uwchraddio 40km o'r ffordd unffrwd tair lôn bresennol rhwng y Fenni a Hirwaun a'i throi'n ffordd ddeuol fodern. Mae'r prosiect deuoli wedi'i rannu'n chwe rhan a fydd yn cael eu cwblhau yn 2020.

Mae prosiect Deuoli'r A465 yn cynnig gwerth am arian gyda Chymhareb Budd i Gost o 1.3. Mae buddiannau uniongyrchol y gwaith deuoli yn cynnwys lleihau amseroedd teithiau, gyda gwell dibynadwyedd, a gwell diogelwch. Bydd y broses adfywio gysylltiedig yn cynnwys gwell mynediad at swyddi yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus allweddol megis gofal iechyd, addysg a chyfleusterau hamdden, gwell cysylltedd i gymunedau lleol yn ogystal â mynediad i'r prif ddinasoedd yng Nghymru a thu hwnt.


Mae contractau cyflawni wedi'u cynllunio i sicrhau y bydd y gwariant cyhoeddus yn cael yr effaith fwyaf bosibl gan arwain at gefnogi swyddi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y sector adeiladu. Cyflawnir hyn drwy gynnwys cymalau Hyfforddiant a Recriwtio Wedi'u Targedu.

Caiff hydoedd sylweddol o lwybrau cerdded a beicio newydd eu cynnwys yn y cynigion.

Oherwydd ei leoliad yn yr Ardal Adfywio Strategol bwriedir gwneud cais am gyllid rhannol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

# 2.4 Yr Amgylchedd

## Perygl Llifogydd ac Amddiffynfeydd Llifogydd a’r Arfordir




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Asiantaeth yr Amgylchedd, 100026380, 2012

Yn draddodiadol, mae diogelwch amgylcheddol wedi cael ei seilio'n bennaf ar fesurau rheoleiddio. Mae proses reoleiddio briodol yn cynnig eglurder a sicrwydd i fuddsoddwyr, ond mae ein pwyslais yng Nghymru yn cael ei roi'n fwyfwy ar alluogi a chefnogi buddsoddiadau yn ein seilwaith amgylcheddol.

Mae'r adran hon yn nodi manylion:

- Y **rhaglen caffael gwastraff** – yn sicrhau safleoedd trin gwastraff o safon yr 21ain ganrif i Gymru er mwyn cyflawni ein targedau uchelgeisiol ar gyfer Dyfodol Diwastraff.
- **Y rhaglen rheoli perygl rhag llifogydd** – dyblu'r cymorth i gymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd.
- Trefniadau ar gyfer **rheoli'r seilwaith dŵr** yng Nghymru.
- Amlinelliad o **ddatbygiadau yn y dyfodol** i strwythur cyrff amgylcheddol yng Nghymru a cherrig milltir sylweddol o safbwynt deddfwriaeth a datblygu polisi.

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn hefyd yn moderneiddio'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn yr amgylchedd.

Bwriadwn gyflwyno **Bil Datblygu Cynaliadwy** yn ystod hydref 2013, i weithredu ar ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru;

Rydym yn cyflwyno '**Un Corff**' a fydd yn dod yn weithredol ar 1 Ebrill 2013, gan ddwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a'i gwneud yn bosibl i weithdrefnau rheoleiddio gael eu symleiddio a sicrhau bod ein dulliau gweithredu wedi'u teilwra at anghenion a chyfleoedd y gwahanol rannau o Gymru.

Bydd **Bil yr Amgylchedd** y bwriedir ei gyflwyno yn 2014/15 yn rhoi cyfle i gyfuno'r gweithdrefnau rheoleiddio cymhleth a sicrhau eu bod yn addas at y diben, gan ddwyn ynghyd ein gweithdrefnau rheoli gwahanol yn un broses symlach sy'n rhoi eglurder i fuddsoddwyr a chymunedau.

Bydd y **Bil Cynllunio**, y bwriedir ei gyflwyno yn 2015, yn defnyddio canlyniadau ein hadolygiad annibynnol cyfredol o'r ffordd y gallwn wella effeithiolrwydd y system gynllunio yn ei chyfanrwydd yn ogystal â rhoi cyfle i gyfuno cyfraith cynllunio yng Nghymru.

Fel rhan o'n gwaith polisi, byddwn hefyd yn datblygu cynigion ar gyfer buddsoddi'n gadarnhaol mewn gwella ein hamgylchedd naturiol a'n hamgylchedd ffisegol a fydd yn gwella'r amodau sylfaenol ar gyfer buddsoddi a swyddi, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o offerynnau'r farchnad ac offerynnau ariannol yn yr amgylchedd, er enghraifft ym meysydd rheoli dŵr a charbon.
Yn sail i hyn bydd Cynllun Adnoddau Naturiol newydd, y byddwn yn dechrau ei ddatblygu yn 2013, a fydd yn rhoi darlun cenedlaethol clir o'n blaenoriaethau a'n dyheadau o ran defnyddio ein hadnoddau naturiol ac a fydd yn ategu Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi.

Mae Arbed, sef cynllun effeithlonrwydd ynni domestig, yn rhaglen amgylcheddol allweddol, y manylir arni yn yr adran ar Ynni.

# 2.4.1 Rhaglenni Buddsoddi mewn Seilwaith Gwastraff

## 2.4.2 Nodau ac amcanion buddsoddiadau

Sefydlwyd y Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff yn 2008 i gaffael adnoddau trin gwastraff fel rhan o'r broses o gyflawni'r strategaeth wastraff genedlaethol, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, a helpu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd seilwaith gwastraff cynaliadwy yng Nghymru.

Nod y rhaglen gyfalaf hon gwerth £750m, a gyflawnir drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat, yw helpu awdurdodau lleol i sicrhau digon o adnoddau trin gwastraff i'w galluogi i ddargyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a chyflawni targedau dargyfeirio oddi wrth dirlenwi yr UE a thargedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth cyffredinol o ran rheoli rhaglen, trafodion masnachol a chymorth ariannol i ddwy is-raglen sy'n cynnwys:

- Saith prosiect gwastraff bwyd a gwastraff organig.
- Chwe phrosiect gwastraff gweddilliol.

Bydd y rhaglenni hyn yn darparu adnoddau i drin 150,000 a 700,000 o dunelli y flwyddyn yn y drefn honno a chynhyrchu tua 83MWe[3] o drydan gyda'i gilydd, sy'n cyfateb i 11% o gartrefi Cymru.

Cafodd gwaith datblygu cynnar ar y farchnad ei ategu gan farn polisi gadarn a chlir ac ymrwymiad, a wnaed gan y cyn-Brif Weinidog ym mis Rhagfyr 2008, i gynnig pecyn ariannol sylweddol. Caiff pob prosiect cymeradwy gymorth o hyd at 25% o'i ffi tipio net, yn ogystal ag arian caffael â chymhellion sy'n gysylltiedig â chyflawni cerrig milltir.

[3] MWe = Megawatt trydan

## 2.4.3 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Mae 18 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi ffurfio saith grŵp i gaffael **gwasanaethau trin gwastraff bwyd a gwastraff organig**. Mae'r grwpiau hyn oll wedi dechrau caffael ac maent ar wahanol gamau yn amrywio o gam y cynigiwr a ffefrir i gam atebion manwl, fel y crynhoir yn nhabl 1 isod.

Tabl 1

| Grŵp Gwastraff Bwyd a Gwastraff Organig | Awdurdod Lleol | Cynnydd |
|---|---|---|
| GwyriAD | Gwynedd (yn arwain) | Ar gam Cynigiwr a Ffefrir o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Mehefin 2013 |
| Y Gogledd-ddwyrain | Sir Ddinbych (yn arwain)<br>Sir y Fflint<br>Conwy | Ar gam Cynigiwr a Ffefrir o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Awst 2013 |
| Canolbarth Cymru | Ceredigion (yn arwain)<br>Powys | Ar gam Cynigiwr a Ffefrir o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Tachwedd 2012 |
| Cwm Yfory | RhCT (yn arwain)<br>Merthyr Tudful<br>Casnewydd | Ar gam Tendrau Terfynol o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Mawrth 2014. |
| Blaenau'r Cymoedd | Blaenau Gwent (yn arwain)<br>Torfaen | Ar gam Atebion Manwl o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Mehefin 2014 |
| Y De-orllewin | Abertawe (yn arwain)<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr | Ar gam Atebion Manwl o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Mawrth 2014. |
| Caerdydd | Caerdydd (yn arwain) | Ar gam Atebion Amlinellol o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Chwefror 2016. |

Mae 21 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi ffurfio chwe chonsortiwm i gaffael gwasanaethau trin **gwastraff gweddilliol**. Mae dau o'r consortia hyn wedi dechrau caffael, mae'r pedwar grŵp arall ar gam cynllunio busnes fel y crynhoir yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2

| Consortia Gwastraff Gweddilliol | Awdurdod Lleol | Cynnydd |
|---|---|---|
| Prosiect Gwyrdd | Caerdydd (yn arwain)<br>Casnewydd<br>Sir Fynwy<br>Caerffili<br>Bro Morgannwg | Ar gam Atebion Manwl o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Ebrill 2016 |
| Gogledd Cymru | Sir y Fflint (yn arwain)<br>Sir Ddinbych<br>Conwy<br>Gwynedd<br>Ynys Môn | Ar gam Atebion Manwl o'r broses gaffael. Bwriedir i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Ionawr 2017 |
| Y De-orllewin | Abertawe (yn arwain)<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr | Wrthi'n datblygu Achos Busnes Amlinellol |
| Canolbarth Cymru | Ceredigion<br>Powys | Wrthi'n datblygu Achos Busnes Amlinellol |
| Blaenau'r Cymoedd | Blaenau Gwent (yn arwain)<br>Torfaen | Gwerthuso opsiynau |
| Cwm Yfory | RhCT (yn arwain)<br>Merthyr Tudful | Gwerthuso opsiynau |

## 2.4.4 Cynlluniau sectorol

Nodir polisïau a thargedau gwastraff Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru yn "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" (roedd datblygu yn cynnwys Arfarniadau manwl o Gynaliadwyedd, Asesiadau o Reoliadau Cynefinoedd ac Asesiadau o Effaith ar Iechyd) – dogfen gyffredinol y strategaeth wastraff i Gymru.

Mae cynlluniau gweithredu, a elwir yn Gynlluniau Sector, wrthi'n cael eu llunio ac maent yn targedu pob maes sy'n ymwneud â gwastraff. Mae'r gwaith o'u llunio a'u datblygu wedi cael ei lywio gan y defnydd o Arfarniadau Manwl o Gynaliadwyedd

- Cynllun y Sector Gwastraff Trefol – sy'n ystyried gwastraff y mae cynghorau lleol yn ei gasglu, gan gynnwys gwastraff a deunydd ailgylchu cartrefi.
- Cynllun y Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd – sy'n ystyried yr hyn sy'n digwydd i'r gwastraff ar ôl iddo gael ei roi i'w gasglu a sut y mae Cymru yn ymdrin â'i gwastraff heb ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Cynllun y Sector Bwyd, Gweithgynhyrchu, Gwasanaeth a Manwerthu – sy'n ystyried gwastraff bwyd a phecynnu bwyd yng Nghymru a sut y gellid ei leihau yn y diwydiant bwyd a gweithgynhyrchu.
- Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel – sy'n ystyried y gwastraff a gynhyrchir yn y diwydiant adeiladu a sut y dylid ei reoli.
- Cynllun y Sector Masnachol a Diwydiannol – sy'n ystyried gwastraff ym maes busnes, manwerthu a gweithgynhyrchu a sut y gellid ei leihau a'i reoli.
- Cynllun y Sector Cyhoeddus – sy'n ystyried y gwastraff a gynhyrchir gan y sector cyhoeddus a sut y gellid ei leihau a'i reoli.

Mae'r Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff yn helpu i ddarparu adnoddau trin gwastraff yn bennaf yn y sector trefol yng Nghymru, gyda rhywfaint o adnoddau dros ben ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol.

## 2.4.5 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol


Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i drin gwastraff trefol. Er mwyn cydnabod yr angen am raglen gyflawni gadarn, gydgysylltiedig ac amserol, sefydlodd Llywodraeth Cymru raglen wedi'i rheoli'n ganolog. Yr awdurdodau lleol sy'n ymgymryd â'r prosiectau gyda'r gwasanaethau yn cael eu darparu drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat â chwmnïau preifat.

Mae arbedion maint sylweddol a gwerth i'r cyhoedd yn cael eu cyflawni drwy gydweithrediad awdurdodau lleol mewn consortia rhanbarthol gan sicrhau partneriaeth agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac adrannau Llywodraeth Cymru.

Mae 18 o awdurdodau yn ymwneud â'r rhaglen gwastraff bwyd ac mae 21 yn ymwneud â'r rhaglen gwastraff gweddilliol. Dangosir ffiniau canolfannau caffael yr awdurdodau lleol ar gyfer y ddwy raglen yn y mapiau canlynol.


## Trin Gwastraff Bwyd

1 Y Gogledd-ddwyrain
2 Prosiect GwyriAD
3 Y Canolbarth
4 Y De-orllewin
5 Cymoedd Yfory
6 Blaenau'r Cymoedd
7 Caerdydd




Ffin Awdurdod Lleol

# Trin Gwastraff Gweddilliol




1 Y Gogledd
2 Y Canolbarth
3 Y De-orllewin
4 Cymoedd Yfory
5 Blaenau'r Cymoedd
6 Prosiect Gwyrdd

Ffin Awdurdod Lleol

Ymhlith y partneriaid cyflawni pwysig eraill mae:

- Partneriaethau Lleol[5] – sy'n rhoi cymorth masnachol i'r rhaglen ganolog a phrosiectau awdurdodau lleol drwy fasnachwyr.
- Cynllun Craff am Wastraff – sy'n gweithio drwy CLlLC i gydgysylltu'r broses o ymgysylltu â chymunedau.
- Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) – a gynrychiolir yng Ngrŵp Llywio'r rhaglen i gadw cysylltiadau â datblygiadau seilwaith trin gwastraff yn y sector preifat.
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) – aelodau craidd o Dasglu Cynllunio cydweithredol y rhaglen sy'n cyfrannu tuag at ei nod o leihau risg ac ysgogi effeithlonrwydd yn y prosesau cynllunio a thrwyddedu.
- Asiantaeth Diogelu Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru – ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag allyriadau a phryderon eraill sy'n ymwneud ag iechyd.

Cwmnïau gweithredu – caiff gwasanaethau, p'un a gânt eu darparu drwy gyfleusterau adeiledig ar dir sy'n eiddo i awdurdod lleol neu gyfleusterau masnachol, eu darparu gan gwmnïau gweithredu preifat. Yn amodol ar raddfa'r prosiectau a'u hanghenion ariannol, efallai y bydd banciau o gronfeydd menter eraill yn rhan o'r broses o gefnogi'r prosiectau ochr yn ochr â'r cwmnïau gweithredu.

## 2.4.6 Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

### 2.4.7 Nodau ac amcanion buddsoddiadau

Llywodraeth Cymru sy'n gosod y polisi ynglŷn â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ac mae'n ariannu'r rhan fwyaf o weithgarwch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith diogelu'r arfordir.

Mae buddsoddi yn ein seilwaith amddiffyn rhag llifogydd a gwella'r gallu i wrthsefyll perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn hollbwysig i ddatblygiad parhaus economi Cymru.

Mae dros 400,000 o bobl yn byw ac yn gweithio ar ein gorlifdiroedd. Mae tua 220,000 o eiddo yng Nghymru yn wynebu perygl llifogydd afonol a llanwol, sef 11% o'r holl eiddo ac mae'n cynnwys 65,000 o eiddo sy'n wynebu risg sylweddol o fynd dan ddŵr. At hynny, amcangyfrifir bod tua 12% o'r holl eiddo yng Nghymru yn wynebu perygl llifogydd dŵr wyneb ar hyn o bryd. Mae'r nifer hwn yn debygol o gynyddu.

Gan edrych i'r dyfodol, mae amcanestyniadau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y gallwn ddisgwyl gweld llifogydd amlach a mwy difrifol, a fydd yn effeithio fwy ar seilwaith Cymru:

- Gall nifer y bobl ac eiddo sy'n wynebu perygl llifogydd afonol a llanwol gynyddu rhwng 10% a 100% erbyn 2020au, yn dibynnu ar y gyfradd newid yn yr hinsawdd, a rhwng 50% a 250% erbyn y 2080au.
- Amcangyfrifir bod 22km o draffyrdd, dros 2,300km o ffyrdd eraill a thros 400km o linellau rheilffyrdd yn wynebu risg sylweddol o lifogydd afonol a llanwol. Gallai'r ffigurau hyn gynyddu rhwng 10% a 35% erbyn y 2080au.

[5] cyd-fenter 50:50 rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Thrysorlys EM sy'n cynnig un ffynhonnell o arbenigedd masnachol a gwybodaeth ymarferol i'r holl gyrff cyhoeddus lleol

- Amcangyfrifir bod tua 20% o adnoddau cynhyrchu ynni yng Nghymru yn wynebu risg sylweddol o lifogydd. Gallai hyn gynyddu tua 30% erbyn y 2020au a thua 50% erbyn y 2080au os bydd yr un safleoedd yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu ynni.
- Ar hyn o bryd mae tua 11% o ysbytai (gyda 10% o welyau ysbyty) yn wynebu risg sylweddol o lifogydd. Gallai hyn gynyddu rhwng 12% a 18% erbyn y 2080au.
- Yn ôl amcanestyniadau bydd arwynebedd y tir amaethyddol sy'n wynebu perygl llifogydd afonol a llanwol yn cynyddu tua 50% erbyn y 2080au o'i gymharu â'r llinell sylfaenol. Yn ôl amcanestyniad gallai rhwng 0.1% a 0.2% o dir amaethyddol Cymru gael ei golli oherwydd erydu arfordirol erbyn y 2080au.



Nod buddsoddi Llywodraeth Cymru ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yw rheoli'r risgiau ledled Cymru, a gwella gallu Cymru i addasu a gwrthsefyll. Bwriedir i'r ddau fesur hyn leihau amser adfer a lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol fel ei gilydd. Nid oes modd atal llifogydd nac erydu'n gyfan gwbl ond gallwn reoli eu canlyniadau.

Mae gan Gymru rwydwaith helaeth o amddiffynfeydd rhag llifogydd ac mae ein mesurau i ddiogelu'r arfordir yn rhychwantu 370km o'n morlin. Caiff y rhain eu cynnal a'u cadw gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol ac maent yn dal yn ased pwysig i Gymru. Mae'n bwysig nodi hefyd bod mathau eraill o seilwaith, er enghraifft argloddiau rheilffyrdd a ffyrdd a waliau o amgylch safleoedd diwydiannol, yn rhan allweddol o'r rhwydwaith amddiffyn rhag llifogydd er mai perchennog yr ased sy'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.

Nodir polisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Genedlaethol statudol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

### 2.4.8 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Yn 2007 gwelwyd y llifogydd mwyaf ofnadwy mewn rhannau o'r DU ers cenhedlaeth, yn enwedig yn Lloegr. Comisiynodd Llywodraeth y DU adolygiad o lifogydd haf 2007, y cyfeirir ato'n aml fel Adolygiad Pitt, a wnaeth 92 o argymhellion ar gyfer newid y ffordd y cafodd perygl llifogydd ei nodi a'i reoli a'r ffordd yr ymatebwyd iddo.

Ochr yn ochr ag Adolygiad Pitt, lansiodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen 'Dulliau Newydd' gyda'r nod o newid dulliau o ymdrin â llifogydd ac erydu arfordirol o'r sail hanesyddol sef amddiffyn a draenio i ddull gweithredu sydd wedi'i wreiddio yn egwyddorion rheoli risg, sef newid sylfaenol yn y ffordd o weithredu, gan gynnwys y defnydd o brosesau naturiol i reoli'r risgiau a gwella gallu cymunedau i wrthsefyll.

Cefnogwyd y newid hwn gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, a drosodd Gyfarwyddeb Llifogydd y GE a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Yn 2011 lansiodd Llywodraeth Cymru y Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, gan ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl nawr ac yn y dyfodol.

Yn sail i'r polisi a'r ddeddfwriaeth newydd, gwariodd Llywodraeth Cymru dros £87 miliwn rhwng 2007 a 2011 ar fuddsoddiadau cyfalaf ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Fe'i dyrannwyd rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a chynlluniau awdurdodau lleol.

Yn 2008 gwnaeth Llywodraeth Cymru gais llwyddiannus hefyd am £30 miliwn o gymorth ariannol ychwanegol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Gwnaed cyfres o geisiadau eraill

dros y ddwy flynedd ddilynol, a esgorodd ar ymrwymiad ariannol o £49.85 miliwn i gyd o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'r swm hwn yn cefnogi rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth mwy na £100 miliwn yn ystod y cyfnod 2009-14.

Comisiynwyd ymchwil gennym yn ddiweddar gan Ysgol Fusnes Caerdydd mewn perthynas â chynlluniau a gyflwynwyd rhwng 2009 a 2011 i ystyried effaith cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar economi Cymru.

Yn yr astudiaeth, defnyddiwyd sampl o 12 cynllun a oedd wedi cael buddsoddiad o ychydig dros £45 miliwn i gyd. Yn ogystal â'r buddiannau amlwg sy'n gysylltiedig â lleihau perygl llifogydd, gwella iechyd a diogelwch a gwelliannau amgylcheddol yn aml, canfuwyd hefyd bod y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Dangosodd y canlyniadau gyswllt clir rhwng rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a'r buddiannau economaidd a daethpwyd i'r casgliad y gallai'r gweithgarwch adeiladu a'r colledion economaidd a osgowyd esgor ar 570 o swyddi (neu 5,700 o flynyddoedd person o gyflogaeth) a thros £80 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth dros oes y seilwaith.

Yn 2011/12 darparodd Llywodraeth Cymru:

- Grantiau cyfalaf gwerth £12m i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau diogelu'r arfordir a rheoli perygl llifogydd lleol. Rhoddir arian cyfalaf drwy grant penodol a phenderfynir ar geisiadau gan Lywodraeth Cymru. Darperir y rhan helaeth o arian ar gyfer rheoli perygl llifogydd i awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw ond caiff grantiau penodol hyd at oddeutu £2m eu talu i alluogi awdurdodau lleol i ymateb i ofynion statudol newydd o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a Chyfarwyddeb Llifogydd yr UE.
- £11m o arian cyfalaf i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer prosiectau rheoli perygl llifogydd a £17m o arian refeniw i dalu am weithgarwch rheoli perygl llifogydd ehangach. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn penderfynu ar ei blaenoriaethau ei hun ar gyfer y prosiectau sydd i'w hariannu drwy ddefnyddio'r arian hwn.

Hefyd, hawliodd Llywodraeth Cymru £6.8 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer prosiectau rheoli perygl erydu arfordirol eleni. Mae'r gofyniad i ddarparu arian cyfatebol o dan y rhaglen hon yn ffactor pwysig wrth benderfynu sut y caiff arian Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio.

### 2.4.9 Crynodeb o'r cynlluniau sectorol

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – gofyniad statudol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 – yn amlinellu amcanion rheoli perygl llifogydd Llywodraeth Cymru, y camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny a sut y cânt eu hariannu. Defnyddiwyd Arfarniad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd gennym fel rhan o'r broses o'i datblygu. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ategol ar ddatblygu cynaliadwy gan fod yn rhaid i Awdurdodau Rheoli Risg ystyried datblygu cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau ynglŷn â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Lluniwyd cyfres o gynlluniau strategol yn pennu sut mae polisïau rheoli perygl lleol ar gyfer rheoli gwahanol ffynonellau o reoli perygl llifogydd ac erydu:

- Paratoir **Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd**, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac maent yn gosod y polisïau lefel uchel i'w dilyn wrth reoli perygl llifogydd o bob ffynhonnell mewn dalgylch penodol neu gyfres o ddalgylchoedd. Ceir deg Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch dros Gymru.

- Paratoir **Cynlluniau Rheoli Traethlinau (CRhTau)**, unwaith eto gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, gan Grwpiau Peiriannu Arfordirol, cyd-weithgorau o dan arweiniad awdurdodau lleol arfordirol sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Y CRhTau sy'n pennu'r polisïau lefel uchel i'w dilyn wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar hyd darn penodol o arfordir. Ceir pedwar CRhT ledled Cymru, y mae dau ohonynt yn gynlluniau trawsffiniol â Lloegr.
- Paratoir **Strategaethau Lleol** gan awdurdodau llifogydd lleol arweiniol a byddant yn amlinellu sut y caiff perygl llifogydd 'lleol' ei reoli. Mae'r rhain yn cyfeirio at lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb a dŵr daear.



Yn ogystal â'r rhain mae Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiadau Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd, Mapiau Risg Llifogydd, Mapiau Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd gael eu paratoi er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Llifogydd yr UE. Dros amser bydd y rhain yn llywio polisïau lleol a buddsoddiad.

Ar hyn o bryd nid yw blaenoriaethau cymharol rhwng y perygl llifogydd ac erydu a nodwyd yn y cynlluniau hyn yn cael eu cymharu â'i gilydd yn uniongyrchol.

Ar yr amod bod achos busnes cynnig yn gadarn a'i fod yn bodloni'r meini prawf asesu caiff ei ariannu pan fo arian ar gael. Nid yw hyn yn arwain at y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Rydym yn datblygu polisi ariannu a phroses blaenoriaethu asesiadau ar gyfer pob math o ffynhonnell o berygl llifogydd a chynllun buddsoddi hirdymor wedi'i flaenoriaethu.

Mae nifer y cynlluniau a nodwyd sydd eu hangen yng Nghymru dipyn yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Yn 2007/08 gwahoddwyd Awdurdodau Gweithredu yng Nghymru gennym i wneud cais am arian am eu cynlluniau â blaenoriaeth drwy ein rhaglen waith a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ar y pryd, nodwyd gwaith gwerth dros £300 miliwn. Mae'r galw am gynlluniau dipyn yn uwch na'r arian sydd ar gael o hyd.

Dengys y tabl isod y buddsoddiadau cyfalaf a wnaed gan Lywodraeth Cymru ers 2007/8 a'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r tabl yn cynnwys y rhagamcan o gostau cynlluniau a'r hyn sydd i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf.

Dylid nodi y gellir dosbarthu eiddo yn eiddo 'wedi'i ddiogelu' pan fo'r cynllun wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Golyga hyn nad yw'r eiddo wedi'i hawlio yn yr un flwyddyn ariannol ag y gwariwyd yr arian mewn llawer o achosion.

Tabl 3

| Blwyddyn | Buddsoddi cyfalaf/ Buddsoddi cyfalaf a ragwelir £'000 | Cartrefi a ddiogelwyd | Busnesau a ddiogelwyd | Buddiannau ehangach |
|---|---|---|---|---|
| 2007/08 | 21.5 | 486 | 23 | 4 pwll wedi'u creu, 2 bwll wedi'u hadfer |
| 2008/09 | 18.9 | 882 | 74 | 0.5 hectar o gynefin wedi'i greu o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| 2009/10 | 23.5 | 520 | 74 | 2km o welliannau i afonydd ac 8.5 hectar o gynefin wedi'i greu o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| 2010/11 | 23.2 | 1,774 | 10 | 7.9 hectar o gynefin wedi'i greu o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| 2011/12 | 19.0 | 2,059 | 72 | 6.5 hectar o gynefin wedi'i greu o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| 2012/13 | 16.3 | 651 | 51 | 5 hectar o gynefin wedi'i greu o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| 2013/14 | 9.7 | 3,083 a ragwelir | | I'w cadarnhau |
| 2014/15 | 9.7 (amcangyfrif) | 965 a ragwelir | | I'w cadarnhau |

Er y bydd cyfanswm yr arian yn aros yn ddigyfnewid fwy neu lai dros y tair blynedd nesaf, bydd y cydbwysedd rhwng arian cyfalaf ac arian refeniw yn newid, a bwriadwn droi rhywfaint o arian refeniw yn arian cyfalaf, a fydd yn cynyddu'r arian cyfalaf sydd ar gael o ychydig. At hynny, bydd y cydbwysedd ariannu rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yn newid, yn amodol ar gwblhau prosiectau mawr a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

### 2.4.10 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol.

Wrth weithredu polisïau cenedlaethol, caiff Llywodraeth Cymru gymorth gan nifer o sefydliadau, sef 'Awdurdodau Rheoli Risg Cymru', sy'n cynnwys: Asiantaeth yr Amgylchedd; Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol; cynghorau dosbarth penodol a Byrddau Draenio Mewnol; cwmnïau dŵr; ac Awdurdodau Priffyrdd.

Y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol dros ardal. I bob pwrpas mae hyn yn golygu bod pob un o'r Awdurdodau Lleol yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gan mai awdurdodau unedol ydynt i gyd. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cael eu dynodi hefyd yn awdurdodau rheoli perygl erydu arfordirol.

Mae 31 o Awdurdodau Rheoli Risg, fel a ganlyn:

- Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 22 o Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.
- Tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru[6].
- Y pum cwmni sy'n darparu amrywiol wasanaethau dŵr a charthffosiaeth i Gymru a'r gororau[7].

Mae Llywodraeth Cymru a phob un o'r Awdurdodau Rheoli Risg yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth sy'n edrych, o safbwynt defnyddwyr, fel un corff gyda'r nod o ddiwallu eu hanghenion, drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cefnogi hyn drwy gynnig hyblygrwydd i Awdurdodau Rheoli Risg i gydweithio i lunio atebion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol sy'n briodol i'w hanghenion lleol.



## Astudiaeth Achos: Y Borth



Cafodd Cam Un o Gynllun y Borth ei gwblhau'n ddiweddar a'i agor yn ffurfiol gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Mae'r cynllun yn cynnig diogelwch arfordirol i'r gymuned yn y Borth, ac mae'n cynnwys creigres amlbwrpas arloesol ac iddi fanteision sylweddol o ran twristiaeth.

Mae cymuned y Borth ar forlin Ceredigion. Yn ogystal â channoedd o gartrefi a busnesau, mae'r pentref hefyd yn cynnwys fforest betraidd a mawnog o bwys cenedlaethol, sydd wedi cael dynodiad Natura 2000, ACA a SoDdGA. Mae'r ffaith bod y gymuned mor agos at y môr yn peri risg. Pe bai dim wedi cael ei wneud, byddai'r gymuned wedi mynd o dan ddŵr.

Mae'r gwaith adeiladu yn rheoli symudiad y marian sy'n diogelu pentref y Borth ac mae wedi datblygu Creigres Amlbwrpas. Diogelu'r arfordir fydd prif fudd y datblygiad hwn, ond bydd hefyd yn helpu i ffurfio'r tonnau presennol a'u troi'n well siâp ar gyfer syrffio, ac yn sicrhau y caiff prif ffynhonnell twristiaeth yr ardal ei diogelu a'i gwella.

Mae'r cynllun wedi lleihau'r risg i fwy na 400 o gartrefi a busnesau ac mae wedi cael cymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

[6] Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gweinyddu 11 o Ardaloedd Draenio Mewnol eraill yn y Gogledd-orllewin.
[7] Dŵr Cymru, Severn Trent Water, Scottish and Southern Water, Albion Water, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

Ein prif sbardun i ymgymryd â gwaith yw lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol i gartrefi a busnesau. Fodd bynnag, ceir effaith fawr ar economi Cymru. Dengys ymchwil a gomisiynwyd gennym oddi wrth Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd fod cyswllt amlwg rhwng rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a'r buddiannau economaidd. Daeth yr ymchwil i'r casgliad y gallai'r gweithgarwch adeiladu a'r colledion economaidd a gollwyd esgor ar 570 o swyddi i gyd (neu 5,700 o flynyddoedd person o gyflogaeth) a thros £80 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth dros oes y seilwaith (yn seiliedig ar fuddsoddiad o £45 miliwn).

Mae Cam Un o'r cynllun yn y Borth yn rhan o gynllun mwy gwerth £20 miliwn i leihau'r risg ar gyfer darn 6km o'r forlin rhwng y Borth ac Ynys Las. Mae angen arian o hyd arnom i gwblhau gweddill y cynllun, a fydd yn lleihau'r risg i gartrefi a busnesau, llinell reilffordd y Cambrian a mawnog sydd o bwys ecolegol.

# 2.4.11 Dŵr

## 2.4.12 Gweledigaeth

Ein gweledigaeth ar gyfer dŵr yng Nghymru yw cael cyflenwad dŵr diogel, glân, cynaliadwy a fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys safon uchel o ansawdd dŵr amgylcheddol.

## 2.4.13 Cyfleoedd a Heriau

Y brif her ar hyn o bryd yw cael cydbwysedd rhwng y gwahanol fathau o sbardun i fuddsoddi a'r effaith ar y biliau. Cyfyd materion penodol yn lleol hefyd, naill ai lle mae datblygiad arfaethedig yn fwy na chapasiti'r system a buddsoddi arfaethedig i'w gefnogi neu lle mae'n rhaid newid y defnydd presennol neu gyfyngu arno er mwyn atal effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae trosglwyddo carthffosydd preifat o ddeiliaid tŷ unigol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn faich asedau newydd sylweddol, a fydd yn cael effaith ar filiau cwsmeriaid.

## 2.4.14 Rôl Llywodraeth Cymru yn y sector hwn

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru, wedi'i lunio o fewn cyfres gymhleth o gyfrifoldebau rheoleiddio a gweithredu. Amlinellir cyfeiriad polisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011 a byddwn yn ymgynghori ar Strategaeth Ddŵr fanwl yn ddiweddarach yn 2012.

Mae'r ffordd y rhennir cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â chwmnïau dŵr yn gymhleth. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaethau mewn perthynas â 'chwmnïau dŵr sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru', sy'n golygu ein bod yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â Dŵr Cymru, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ac Albion Water, ond mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am swyddogaethau mewn perthynas â Severn Trent Water. O ystyried yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan y cwmnïau hyn, golyga hyn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio ar rannau o Loegr ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar rannau o Gymru.

## 2.4.15 Y darlun cyfredol

Mae i seilwaith dŵr bedair nodwedd benodol allweddol:

- Y sylfaen asedau sylweddol bresennol.
- Y lefel o gyllid na welwyd mo'i thebyg o'r blaen (mewn sectorau eraill) ar gyfraddau ffafriol a sicrhawyd gan y Ddinas.
- Y nifer fawr o ffactorau statudol ar gyfer y rhaglen fuddsoddi.
- Y broses dra strwythuredig ar gyfer penderfynu ar fuddsoddiadau yn y dyfodol.

Mae cynnal a chadw ac uwchraddio'r sylfaen asedau bresennol yn ymrwymiad mawr. Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth neu gwmnïau dŵr yn unig sy'n gyfrifol am hynny. Prif ffactorau sy'n sbarduno buddsoddi yw sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol (gan gynnwys llawer o rwymedigaethau Ewropeaidd) o ran ansawdd dŵr yfed ac ansawdd dŵr amgylcheddol, rheoli adnoddau dŵr ac argaeledd dŵr a sicrhau y cydymffurfir â gofynion o ran diogelwch a chydnerthedd. Llywodraeth Cymru sy'n llywio polisi yn gyffredinol ond mae ganddi amrywiol swyddogaethau statudol hefyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau hyn.

Mae gwneud buddsoddiadau o'r fath yn cael effaith ar filiau a rhaid taro cydbwysedd cynyddol heriol rhwng buddsoddi a chost i gwsmeriaid.

## 2.4.16 Y darlun cyfredol Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru yn gwmni wedi'i reoleiddio sy'n darparu gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth i dros dair miliwn o bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru a rhai ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae ganddo 1.2 miliwn o gwsmeriaid preswyl a thros 110,000 o gwsmeriaid busnes. Dŵr Cymru yw'r chweched cwmni mwyaf o blith y 23 o gwmnïau dŵr wedi'u rheoleiddio yng Nghymru a Lloegr.

Mae ei weithrediadau yn cynnwys 81 o gronfeydd dŵr, 105 o weithfeydd trin dŵr ac mae'n cyflenwi 900 miliwn litr o ddŵr bob dydd ar gyfartaledd drwy rwydwaith o 27,000km o brif bibellau dŵr, gan gynnwys 532 o orsafoedd pwmpio a 715 o gronfeydd dŵr gwasanaethu. Mae'r cwmni hefyd yn casglu dŵr gwastraff (gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr draenio priffyrdd) drwy rwydwaith o 36,000km o garthffosydd, sy'n ymgorffori 1,700 o orsafoedd pwmpio carthffosiaeth a 3,300 o orlifiannau carthffosydd cyfun. Caiff ei drin mewn 832 o weithfeydd trin dŵr gwastraff a leolir wrth ymyl afonydd ac ar hyd arfordir Cymru.

## 2.4.17 Dŵr Dyffryn Dyfrdwy

Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy PLC yn cyflenwi dŵr i tua 258,000 o gwsmeriaid yng Nghaer a Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r cwmni yn cyflenwi 23 miliwn o dunelli o ddŵr y flwyddyn dros ardal o 831 cilometr sgwâr.

Mae'r holl ddŵr y mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn ei buro ac yn ei gyflenwi i'w gwsmeriaid yn dod o law, a gaiff ei storio drwy'r cyfnod gwlyb a defnyddir y cronfeydd wrth gefn hyn yn ystod cyfnodau sych. Mae Llyn Celyn, Llyn Brenig a Llyn Tegid yn dal cyflenwadau sy'n bwydo Afon Dyfrdwy lle mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn tynnu 90% o'i ofynion blynyddol.

Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn rheoli adnodd dŵr Afon Dyfrdwy ar y cyd â thynnwyr dŵr eraill (United Utilities, Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd). Mae Afon Dyfrdwy yn cyflenwi mwy o ddŵr ar gyfer y cyflenwad cyhoeddus nag Ardal y Llynnoedd yn Lloegr yn ei chyfanrwydd.

Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy hefyd yn cael dŵr o wyth gronfa ddŵr gronni sy'n cael eu bwydo o diroedd casglu ar y bryniau lleol o amgylch Llandegla. Caiff dŵr ei drin i'w wneud yn addas i'w yfed mewn un o chwe gwaith trin, yna mae'n mynd drwy tua 1,940 cilometr o bibellau dŵr i gartrefi cwsmeriaid, swyddfeydd a ffatrioedd.

### 2.4.18 Albion Water

Penodai mewnosod yw Albion Water, sy'n cyflenwi dŵr i Shotton Paper yn y Gogledd-ddwyrain. Mae'n cael swp-gyflenwad o ddŵr yfed a dŵr na ellir ei yfed oddi wrth Dŵr Cymru er mwyn hwyluso hyn.

### 2.4.19 Severn Trent Water

Cwmni dŵr a charthffosiaeth yw Severn Trent Water. Mae'n gwasanaethu oddeutu 27,500 o gwsmeriaid yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r cwmni yn rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru, ond gan fod yr ardal ddaearyddol "yn gyfangwbl neu'n bennaf" yn Lloegr", mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol swyddogaethau mewn perthynas â'r cwmni hwn.

### 2.4.20 United Utilities

Cwmni dŵr a charthffosiaeth yw United Utilities. Mae'n gwasanaethu oddeutu 7 miliwn o bobl yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Mae'r cwmni yn tynnu dŵr o Afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru ac o Lyn Efyrnwy ym Mhowys er mwyn cyflenwi eu cwsmeriaid. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol swyddogaethau mewn perthynas â'r cwmni hwn.

### 2.4.21 Rôl y rheoleiddiwr

Penderfynir ar fuddsoddi parhaus mewn seilwaith yn y sector dŵr drwy broses adolygu prisiau bob pum mlynedd a bennir gan Ofwat, sef rheoleiddiwr economaidd y sector dŵr.

Mae cwmnïau dŵr yn paratoi cynllun busnes sy'n amlinellu gofynion buddsoddi ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd, drwy adeiladu ar eu Datganiadau am Gyfeiriad Strategol 25 mlynedd a thrwy gael eu llywio gan flaenoriaethau a nodwyd mewn trafodaethau â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Caiff cynlluniau busnes eu llywio hefyd gan gyfraniadau cwsmeriaid ac mae Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn chwarae rhan allweddol yn y broses.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat ac yn cadeirio Fforwm Adolygu Prisiau sy'n cynnwys cynrychiolwyr y cwmni, y rheoleiddwyr, Cyngor Defnyddwyr Dŵr a CLlLC. Mae'r Fforwm yn cyfarfod drwy gydol y broses adolygu prisiau ac mae'n galllu dylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau cwmnïau ac mae'n cyflwyno ei farn ar y cynnig i Ofwat i'w ystyried ochr yn ochr â chyfraniadau Grŵp Herio Cwsmeriaid pob cwmni.

Mae Ofwat yn profi cynlluniau busnes a gyflwynwyd, ar sail trafodaethau â'r rheoleiddwyr, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a chwmnïau i benderfynu ar derfynau prisiau a'r buddsoddiadau mewn seilwaith a gaiff eu hariannu drwy'r cyfnod o bum mlynedd.


### 2.4.22 Cynllunio buddsoddiadau

Yn ogystal â'u Datganiadau am Gyfeiriad Strategol 25 mlynedd a'r cynllun busnes sy'n llywodraethu cyfnod adolygu prisiau penodol, mae gan y cwmnïau dŵr eu cynlluniau gweithredol eu hunain ar gyfer cynnal a chadw a gwella'r cyflenwad dŵr a rhwydweithiau carthffosiaeth.

O ran y cyflenwad dŵr, mae'n ofynnol i gwmnïau, o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, baratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, sy'n nodi sut y caiff anghenion am adnoddau dŵr yn y dyfodol eu diwallu gan gynnwys manylion.

# 2.5 Ynni






* Ardal Chwilio Strategol (SSA) – ardaloedd strategol yng Nghymru sy'n ddigon mawr i leoli ffermydd gwynt mawr (>25MW) ar y tir.

Mae gan Gymru asedau seilwaith pwysig, gan gynnwys y rhwydwaith trawsyrru trydan – y grid; porthladdoedd môr dwfn a seilwaith nwy – yn enwedig y ddwy derfynfa LNG yn Aberdaugleddau. Er mwyn datgloi ein hynni adnewyddadwy a chynyddu faint o ynni carbon isel ac ynni gwasgaredig a gynhyrchir yn ein system yn sylweddol bydd angen buddsoddi yn ein seilwaith ynni, ei atgyfnerthu a'i uwchraddio.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym yn nodi'r ymrwymiad i '**greu economi carbon isel gynaliadwy i Gymru**' a'n nod yw sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl yn sgil newid i economi carbon isel er mwyn sicrhau dyfodol mwy cyfoethog, mwy cydnerth a chynaliadwy i Gymru. Mae datganiad polisi ynni y Prif Weinidog **Ynni Cymru: Newid Carbon Isel**[8] yn amlinellu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector ynni yng Nghymru a'r ffocws ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi.

Nid yw polisi ynni wedi'i ddatganoli ac nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros yr holl wariant ar seilwaith ynni o reidrwydd, ond, mae sawl maes polisi allweddol yn galluogi ac yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein dyheadau o ran ynni, gan gynnwys:

- Gwella ein gweithdrefnau cynllunio a thrwyddedu.
- Rhoi seilwaith ar waith sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.
- Prosiectau ynni sy'n esgor ar y buddiannau mwyaf posibl drwy ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni megis Ynys Ynni Môn ac Ynni'r Llanw ar Aber Hafren.

Mae'r adran hon yn nodi sut y bwriadwn:

- Hwyluso **seilwaith ynni mawr ac ynni adnewyddadwy.**
- Gwella **effeithlonrwydd ynni adeiladau a phrosesau.**

Mae datblygu economaidd yn bolisi allweddol arall sy'n ymwneud ag ynni. Manylir ar ein dulliau gweithredu yn hyn o beth yn y rhan o'r bennod hon sy'n ymwneud â **Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.**

Mewn sawl un o'r meysydd hyn rôl Llywodraeth Cymru yw cynnig yr amgylchedd priodol lle bydd eraill yn buddsoddi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wneud buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol sylweddol mewn effeithlonrwydd a pherfformiad ynni, wedi'u hategu gan arian sy'n deillio o rwymedigaethau cyflenwyr a systemau a arweinir gan y farchnad megis y Fargen Werdd.

# 2.5.1 Cyflawni seilwaith mawr ac ynni carbon isel

## 2.5.2 Nodau ac amcanion

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda'r sector preifat i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd buddsoddi posibl yn y sector ynni carbon isel. Yn 2009/10 roedd y sector yn cynnal tua 13,000 o swyddi yng Nghymru  ac mae wedi cynyddu'n sylweddol. Cynyddodd yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir 58% rhwng 2004 a 2010. Er enghraifft, cyfrannodd biomas £279 miliwn ac ynni'r haul £338 miliwn mewn gwerthiannau yn 2009/2010.

[8] cymru.gov.uk/docs/desh/publications/120314energywalescy.pdf

Rydym yn anelu at wneud y defnydd gorau o ffynonellau ynni carbon isel sy'n brofedig yn fasnachol – megis ynni'r gwynt ar y tir a'r môr, ynni'r haul a bio-ynni – er mwyn cyfrannu at nodau ehangach y DU a'r UE a gwireddu potensial Cymru i greu cyfoeth a'r potensial i arwain y byd yn y marchnadoedd hyn – fel cynhyrchydd ac allforiwr pwysig o wybodaeth, technolegau a gwasanaethau ym maes ynni.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth uniongyrchol dros ddatblygiadau'r grid – seilwaith hanfodol i gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy – ond mae ganddi ddisgwyliadau cytûn â phartneriaid cyflawni ac mae wedi bod yn gweithio gyda hwy i fodloni'r disgwyliadau hynny, gan gynnwys cyfleoedd i wella cysylltiadau ffyrdd er mwyn ei gwneud yn bosibl i ffermydd gwynt ar y tir gael eu hadeiladu. Rydym yn cydnabod bod aneffeithlonrwydd yn y broses reoleiddio ar hyn o bryd ac rydym yn anelu at ymdrin â materion o'r fath.



### 2.5.3 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Mae sawl menter wedi mynd rhagddi, gan gynnwys:

- Sefydlu rhaglen **Ynys Ynni Môn** – partneriaeth waith rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ym maes ynni.
- **Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy'r Môr** i wella ein dealltwriaeth o adnoddau morol Cymru, gan weithio gydag arbenigwyr yn y diwydiant i nodi gofynion seilwaith y sector ac Ystad y Goron er mwyn agor y moroedd o amgylch Cymru lle mae potensial i ymelwa ar ynni adnewyddadwy. Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn gan Arfarniad o Gynaliadwyedd, a geir mewn adroddiad cyhoeddedig o'r enw 'Dull Gweithredu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'.
- **Marine Energy Pembrokeshire** – partneriaeth rhwng y byd academaidd, y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio i sefydlu Sir Benfro fel 'canolfan ragoriaeth' ar gyfer cynhyrchu ynni morol cynaliadwy.
- **Agorwyd Gwastadeddau'r Rhyl** yn swyddogol ym mis Rhagfyr 2009, sef fferm wynt bum milltir oddi ar arfordir gogledd Cymru ym Mae Lerpwl. Mae 25 tyrbin gwynt y fferm yn gallu cynhyrchu hyd at 90 megawat i bweru'r hyn sy'n cyfateb i 61,000 o gartrefi y flwyddyn.

### 2.5.4 Cynlluniau sectorol

Prif rôl Llywodraeth Cymru yw cefnogi, galluogi a gwella datblygiadau ym maes ynni carbon isel. Byddwn yn cefnogi'r canlynol yn llawn:

- Datblygiadau gyda'r Ynys Ynni a'r orsaf niwclear newydd a fydd yn esgor ar fuddiannau economaidd hirdymor sylweddol i Ynys Môn a Gogledd Cymru yn gyffredinol gyda'r potensial i gyfrannu mwy na £2.3bn i'r economi yn ystod y cyfnod hyd at 2025. Rhagwelir y bydd yn creu 5,000 o swyddi adeiladu pan fydd y gwaith adeiladu yn ei anterth a thua 800 o swyddi uniongyrchol yn ystod oes cyfleusterau newydd. Pan gymeradwyir yr orsaf niwclear newydd, bydd angen gwelliannau i seilwaith y grid, trafnidiaeth, eiddo a chyfleustodau.

- Ynni'r Môr – yn elwa ar 1200km o forlin Cymru, porthladdoedd môr dwfn wedi'u lleoli'n strategol, seilwaith grid hygyrch, a sylfaen gweithgynhyrchu drwy:
  - Ynni'r Llanw ar Aber Hafren – ffynhonnell strategol bwysig o ynni adnewyddadwy. Mae heriau amgylcheddol ac ariannol mawr ynghlwm wrth harneisio'r math hwn o ynni. Mae'r cynnig cyfredol wedi'i arwain gan y sector preifat ac mae ar gam cynnar yn ei ddatblygiad, ond os bydd Morglawdd Hafren yn mynd rhagddo, bydd angen buddsoddi sylweddol ym mhorthladd Mhort Talbot, cysylltiadau ffyrdd, tai, mannau gweithgynhyrchu a chysylltiadau'r grid
  - Defnyddio dangosydd ynni'r llanw 1.2MW ar raddfa lawn gan Tidal Energy Ltd yn Swnt Dewi, Sir Benfro, yn 2013. Cafodd y prosiect hwn gwerth £12m sydd wedi cael cydsyniad llawn, £6.94m gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Cronfa Gydgyfeirio'r UE i gynnal astudiaethau dichonoldeb cynnar a gweithgynhyrchu a gosod y ddyfais
  - Cynlluniau ar gyfer rhesaid llanwol 10MW cyn-fasnachol oddi ar Ynysoedd y Moelrhoniaid, Ynys Môn a gyflwynwyd gan Marine Current Turbines i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect hwn gwerth £70m wedi cael prydles gwely'r môr gan Ystad y Goron ac, os caiff gydsyniad llawn, y nod yw ei osod yn 2014
- Gall Ynni'r Môr gynhyrchu hyd at 6.2GW o bosibl yn ôl amcangyfrif (dros 10GW o gynnwys y Morglawdd arfaethedig ar Aber Hafren).

Rydym hefyd wrthi'n datblygu Achosion Amlinellol Strategol i:

- Gefnogi datblygiadau ynni'r gwynt ar y tir ac ar y môr, datblygiadau biomas a datblygiadau eraill ar raddfa fawr yng Nghymru, sy'n gofyn am welliannau i'r grid.
- Datblygu ein rhaglen ynni adnewyddadwy cymunedol, gan nodi a dileu rhwystrau mewn perthynas â datblygiadau ynni cymunedol ac felly gynhyrchu enillion economaidd hynod uchel. Un rhwystr canfyddedig yw cost cysylltu datblygiadau bach â'r grid.
- Ystyried cyfleoedd i sicrhau buddiannau economaidd hirdymor o ganlyniad i 'Byw'n Ddoeth' a'n huchelgeisiau ym maes effeithlonrwydd ynni.
- Annog Wales and West Utilities i ymestyn y grid nwy lle y bo hynny'n ddichonadwy.

### 2.5.5 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol

Byddwn yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cyflawni ac yn eu cefnogi i ddarparu seilwaith ynni adnewyddadwy:

- **O ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy** – ein partneriaid cyflawni presennol yw'r Grid Cenedlaethol, Rhwydweithiau Scottish Power Energy, Western Power Distribution a Wales and West Utilities (nwy) ac awdurdodau porthladdoedd.
- **O ran Ynys Ynni Môn** – ein partneriaid cyflawni cyfredol yw Llywodraeth y DU, llywodraeth leol, darparwyr sgiliau ac ymchwil, diwydiant (gan gynnwys datblygwyr a busnesau bach a chanolig) a chymunedau. Caiff y buddiannau hyn eu cydgysylltu gan Raglen yr Ynys Ynni.
- **O ran Ynni'r Llanw ar Aber Hafren** – ein partner cyfredol o'r sector preifat yw Corlan Hafren ar hyn o bryd. Mae partneriaid eraill yn cynnwys Llywodraeth y DU, cyrff rheoleiddio, cymunedau a grwpiau â diddordeb amgylcheddol.
- **O ran Ynni'r Môr** – ein partneriaid cyflawni cyfredol yw Halcrow, Ystad y Goron, Marine Energy Pembrokeshire, Tidal Energy a Llywodraeth y DU.

## Astudiaeth Achos: Ynys Ynni Môn





Mae'r rhaglen hirdymor hon yn cynnwys adeiladu atomfa newydd yn Wylfa, ynni'r gwynt ar y môr, ynni'r llanw a phrosiectau ynni carbon isel eraill prosiect y Celtic Array. Maent yn elfen allweddol o 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' Llywodraeth Cymru, a adlewyrchir yn amcanion a blaenoriaethau datganedig Ardal Adfywio Môn Menai ac fe'u hystyrir yn enghraifft o sut y gellir cydgysylltu prosiectau mawr. Bydd cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus, datblygwyr preifat a rheoleiddwyr yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

Er mwyn cyflawni'r datblygiadau hyn a datblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys twristiaeth, a sicrhau'r buddiannau economaidd mwyaf posibl i'r Gogledd a thu hwnt, bydd angen bod seilwaith priodol ar waith.

- **TGCh** – Bydd statws Ardal Fenter i'r Ynys Ynni yn dod â buddsoddiad wrth i Raglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru gael ei chyflwyno. Mae gwell darpariaeth band eang yn hanfodol yn ystod cam datblygu'r prosiectau hyn a hefyd pan fyddant yn weithredol nid yn unig o ran cyfathrebu, ond o ran logisteg Iechyd a Diogelwch. Mae'r galw a ddaw yn sgil y prosiectau hyn hefyd yn rhoi achos busnes dichonadwy dros wella gwasanaeth derbyn ffonau symudol.
- **Priffyrdd** – Mae'r A55 ar draws yr Ynys ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru yn un o lwybrau'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd o Iwerddon i dir mawr Ewrop. Mae angen trydedd pont dros y Fenai, cyrchfannau newydd gyda chyffyrdd wedi'u gwahanu yn ôl gradd a gwell cyfleusterau cilfannau. Gyda chyflenwad trydan newydd sylweddol yn cael ei gyflwyno bydd angen cysylltiadau newydd â rhwydwaith y Grid Cenedlaethol a bydd angen gwella'r rhwydwaith. Gan fod angen pont newydd, rhydd gyfle i gynnwys llwybr ceblau newydd yn y strwythur yn hytrach nag adeiladu twneli neu osod llinellau uwchben sydd â goblygiadau amgylcheddol. At hynny, fel llwybr Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd gallai'r gwaith hwn ddenu arian Cysylltu Ewropeaidd yr UE.
- **Porthladdoedd, Safleoedd ac Eiddo** – Mae Mostyn wedi ymsefydlu fel canolfan ar gyfer gosod a gwasanaethu tyrbinau gwynt ar y môr, ac mae Prif Gynllun yn cael ei gomisiynu i nodi cyfleoedd buddsoddi yng Nghaergybi yng ngoleuni'r datblygiadau yn y dyfodol. Bydd angen i gynlluniau priffyrdd wella'r mynediad i'r porthladdoedd hyn a bydd angen lleihau tagfeydd wrth y porthladdoedd drwy barc loriau newydd ar safle datblygu diwydiannol Parc Cybi Llywodraeth Cymru, lle bydd cymhellion yn cael eu rhoi i'r sector preifat fuddsoddi mewn safleoedd newydd drwy'r Ardal Fenter i helpu i ateb y galw am le sy'n deillio o brosiectau ynni.

## 2.5.6 Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau a phrosesau

Mae allyriadau o adeiladau yn y sector domestig a'r sector cyhoeddus ar eu pennau eu hunain yn rhoi cyfrif am dros chwarter cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Felly, mae llywodraethau, diwydiant a'r byd academaidd yn rhoi cryn sylw i berfformiad ynni adeiladau ledled y byd am fod gwella perfformiad ynni yn gwbl hanfodol o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd a sicrhau dyfodol carbon isel. Mae hefyd yn gyfle mawr yn y farchnad.

Mae gan Gymru gadwyn gyflenwi ynni gynhwysfawr, o'r cam gweithgynhyrchu i'r cam gosod, o fewn ei ffiniau. Caiff mesurau inswleiddio a thechnolegau microgynhyrchu eu gwneud yng Nghymru gan fusnesau gan gynnwys Rockwool, Knauf, Kingspan a Sharp, ynghyd â sylfaen gadarn o osodwyr – mae 80% o'r busnesau a gyflawnodd gam 1 rhaglen Arbed yn gweithredu'n bennaf, neu'n gyfan gwbl, yng Nghymru.

### 2.5.7 Nodau ac amcanion

Rydym yn ceisio sbarduno gwelliannau ym mherfformiad ynni adeiladau a phrosesau er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol uniongyrchol ac anuniongyrchol. Yn achos deiliaid cartrefi a busnesau, gall defnyddio ynni yn fwy effeithlon arbed arian sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a sicrhau bod busnesau yn broffidiol.

Mae rhaglenni gwella perfformiad ynni allweddol Llywodraeth Cymru – Nyth ac Arbed a'r cynlluniau a'u rhagflaenodd – yn fuddsoddiad sylweddol a pharhaus mewn gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru.

Nyth yw cynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o helpu pobl yng Nghymru i leihau effaith eu biliau tanwydd ac mae'n cynnig pob math o gyngor drwy bartneriaid arbenigol, yn ogystal ag asesiad llawn o ynni cartref a gwelliannau i'r cartref ar gyfer y cartref mwyaf aneffeithlon o ran ynni – am ddim i'r deiliaid tŷ.

Mae Arbed yn cefnogi ein hymrwymiadau i leihau newid yn yr hinsawdd, helpu i ddileu tlodi tanwydd a hybu datblygu economaidd ac adfywio yng Nghymru. Sefydlwyd y rhaglen gennym yn 2009 a'i nod yw esgor ar fuddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i Gymru a chydgysylltu buddsoddiadau ym mherfformiad ynni cartrefi Cymru.

### 2.5.8 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Mae ein buddsoddiadau hyd yma yn cynnwys:

- £3m i sefydlu'r Ganolfan Amlen Adeiladu Cynaliadwy gwerth £6.4m – Menter yn Shotton a ariennir gan Tata, y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel a Llywodraeth Cymru. At hynny, mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi darparu £1.8m i ddylunio, modelu, profi a monitro systemau adeiladu carbon isel sy'n defnyddio technolegau thermol a ffotofoltäig integredig.
- £2m yn SPECIFIC – canolfan arloesi a thechnoleg ym Mhort Talbot y bwriedir iddi droi ymchwil academaidd i haenau gweithredol yn gynhyrchion y gellir eu cynhyrchu ar raddfa ddiwydiannol – yn ogystal â'r swm o £10 miliwn dros bum mlynedd gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg (TSB).

- Buddsoddi mewn rhaglenni yn seiliedig ar y galw:
  - £87.5m yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) rhwng mis Ebrill 2007 a diwedd mis Mawrth 2011 pan ddaeth y cynllun i ben – cafodd dros 50,000 o gartrefi systemau gwresogi newydd a gwaith inswleiddio atig a waliau ceudod rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2011
  - £2.35m yn y cynllun sgrapio boeleri yn 2010-11 a arweiniodd at osod 4707 o foeleri newydd yn lle hen foeleri neu foeleri aneffeithlon yng nghartrefi pobl dros 60 oed
- Buddsoddi yn Nyth:
  - sydd wedi darparu pecynnau gwella ynni i bron 3800 o gartrefi a fydd yn esgor ar fuddiannau economaidd drwy gymorth i fusnesau bach a chanolig, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi
- Buddsoddi yn Arbed:
  - Dros £29.61m sydd wedi denu £31m ychwanegol gan gwmnïau ynni a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar gam 1 (2009/10-2010/11) sydd wedi cefnogi 28 o brosiectau gwella perfformiad ynni ar sail ardal
  - Mae dros 6580 o gartrefi wedi cael cymorth o ganlyniad i'r gyfres hon o gynlluniau o dan Arbed ynghyd â thua 1500 sydd wedi cael cymorth mewn arian ar gyfer estyniadau, gan gynnwys: inswleiddio waliau solet ar gyfer bron 2,900 o gartrefi cymdeithasol a phreifat; dros 1,800 o baneli ffotofoltäig solar mewn tai cymdeithasol; gwresogi dŵr poeth solar ar gyfer 1,000 o gartrefi gan gynnwys sawl cynllun tai gwarchod; pympiau gwres a gwell lefelau o inswleiddio ar gyfer 121 o gartrefi nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith nwy.

### 2.5.9 Cynlluniau sectorol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i buddsoddiadau cyfalaf yn ei rhaglenni ynni domestig yn y dyfodol a bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod cymaint o fuddsoddi â phosibl ar gael yng Nghymru o dan raglenni'r DU, yn enwedig y Rhwymedigaeth newydd ar Gwmnïau Ynni. Bwriadwn wneud y canlynol:

- Buddsoddi £100m yn Rhaglen Nyth a ddisodlodd HEES, dros y pum mlynedd o 2011-12 ymlaen gan sicrhau y cyflawnir cymaint â phosibl o ran nifer y cartrefi lle y cyflwynir mesurau; y mathau o fesurau a gyflwynir; nifer y bobl sy'n cael cyngor; nifer y busnesau bach a chanolig a phrentisiaethau a gyflogir o dan y cynllun yn ogystal â lleihau costau biliau tanwydd ynni i ddeiliaid tŷ.
- Gwireddu buddsoddiadau gwerth tua £43m dros dair blynedd wrth i ni gyflwyno cam 2 o Arbed, a gaiff ei ariannu'n bennaf drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gydag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y gellir defnyddio arian y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) ochr yn ochr â buddsoddiad o Arbed a Nyth. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn amcangyfrif y bydd y Rhwymedigaeth yn arwain at fuddsoddi £1.3bn ledled y DU hyd at 2015[9].

[9] Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 'The Green Deal and Energy Company Obligation – consultation document', http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green_deal/

### 2.5.10 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cyflawni ym maes gwella perfformiad ynni gan gynnwys:

- Nwy Prydain sy'n rheoli rhaglen Nyth, gyda chymorth dros 50 o isgontractwyr a leolir yng Nghymru ar y cyfan.
- Rheolwyr cynllun o'r sector preifat ar gyfer rhaglen Arbed sy'n rhoi contractau fframwaith ar waith i osodwyr a deunyddiau ar gyfer y technolegau perthnasol.
- Awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a'r cwmnïau ynni y mae'n ofynnol iddynt fuddsoddi'n sylweddol yn y maes hwn o ganlyniad i rwymedigaethau cyflenwyr a osodwyd arnynt gan Lywodraeth y DU.
- Amrywiaeth eang o randdeiliaid newydd yn y sector preifat drwy'r Fargen Werdd – system a arweinir gan y farchnad sy'n ceisio ysgogi buddsoddi gan y sector preifat mewn effeithlonrwydd ynni.

## Astudiaeth Achos: Arbed



Rhaglen buddsoddi strategol Llywodraeth Cymru mewn perfformiad ynni yw prosiect Arbed. O'r cychwyn bu iddi dri nod fel a ganlyn:

- Lleihau allyriadau carbon.
- Helpu i ddileu tlodi tanwydd.
- Hybu datblygu economaidd ac adfywio.

Ariannwyd y cam cyntaf o'r prosiect gan Lywodraeth Cymru. Hon oedd y rhaglen fwyaf o'i math yn y DU a buddsoddwyd £30 miliwn mewn mesurau ôl-gyfarparu effeithlonrwydd ynni yn eiddo landlordiaid cymdeithasol mewn rhannau difreintiedig o Gymru. Roedd technolegau a osodwyd yn cynnwys inswleiddio waliau solet, paneli solar a phympiau gwres.

Ariannwyd 28 o gynlluniau o dan Gam I a llwyddwyd i ddenu £31 miliwn yn ychwanegol, £20 miliwn gan ddarparwyr tai cymdeithasol ac awdurdodau lleol, gyda'r £10 miliwn ychwanegol gan gwmnïau ynni drwy rwymedigaethau cyflenwyr ynni. Drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwn llwyddwyd i gyflwyno sawl mesur effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi gan gynnwys; uwchraddio boeleri a gosod rhai newydd, uwchraddio ffenestri, estyniadau to, gwaith strwythurol a chyngor ar arbed ynni.

O dan Gam I ariannwyd mesurau mewn dros 6,000 o gartrefi mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog yng Nghymru. Cafodd pob mesur Cam I ei ddyfarnu drwy broses ymgynnig a'i gyflwyno gan awdurdodau lleol neu bartneriaid tai cymdeithasol. Mae'r canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r hyn a gyflwynwyd o dan y mesurau:

- Inswleiddio waliau solet mewn 3,000 o gartrefi preifat.
- Gosod paneli solar ffotofoltäig ar 1,800 o eiddo.
- Gwresogi dŵr drwy ynni'r haul ar gyfer 1080 o gartrefi.
- Galluogi 1,000 o eiddo i gael tanwyddau carbon isel rhatach drwy newid tanwydd.
- Gosod pympiau gwres mewn dros 100 o gartrefi nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith nwy.

Ar y cam cychwynnol hwn canolbwyntiwyd hefyd ar ddatblygu cadwyn gyflenwi carbon isel a'r buddiannau economaidd a ddeuai yn ei sgil mewn ardaloedd difreintiedig lle y cyflwynwyd y mesurau.


Enghraifft o effaith lefel leol:

O dan gam un Arbed, gwnaeth Cymdeithas Tai Cartrefi Conwy osod pympiau gwres ffynhonnell aer, inswleiddio waliau solet a gosod systemau dŵr poeth solar mewn 135 o eiddo mewn chwe ardal wahanol o Fwrdeistref Sirol Conwy. O dan arian Arbed un bu modd gosod pympiau gwres ffynhonnell aer mewn 11 o gartrefi y Gymdeithas ym mhentref anghysbell San Siôr ger Abergele, o fewn Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru.Nid yw'r cartrefi hyn wedi'u cysylltu â'r prif bibellau nwy ac arferai tenantiaid wresogi eu cartrefi â rheiddiaduron a oedd yn rhedeg o foeler cefn y tu ôl i danau glo. Yn ogystal â chymorth Arbed, denwyd arian ychwanegol oddi wrth Cartrefi Conwy ac arian CESP a CERT i ariannu'r gwaith o inswleiddio waliau ceudod ac inswleiddio atig er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni'r eiddo ymhellach. Ymhlith y buddiannau i breswylwyr roedd biliau ynni is a gwell diogelwch am fod llai o angen am danau agored.

Bydd ail gam cynllun Arbed sydd ar fin cychwyn yn para am dair blynedd rhwng 2012 a 2015. Bwriedir i'r ail gam hwn wella effeithlonrwydd ynni 4,800 o gartrefi yng Nghymru a lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr o leiaf 11,600 o dunelli erbyn diwedd 2015 drwy osod mesurau tebyg i Arbed 1.

# 2.6 Tai

## Stoc Tai Cymdeithasol



Mae cartrefi yn hollbwysig – yn effeithio ar iechyd a lles, ansawdd bywyd a chyfleoedd pobl. Mae buddsoddi arian cyhoeddus mewn adeiladu ac adnewyddu cartrefi eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol at economiau cenedlaethol a lleol, creu a chefnogi miloedd o swyddi a chyfleoedd hyfforddi. Mae'n chwarae rhan enfawr o ran adfywio cymunedau ac mae'n esgor ar fuddiannau economaidd i Gymru.

### 2.6.1 Nodau ac amcanion buddsoddiadau

Nod y rhaglen cyfalaf strategol Tai yw cynnig dull cydlynol a thryloyw o fuddsoddi cyfalaf tai ac asedau yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu, gan ddarparu tai newydd cynaliadwy o safon uchel ac addas ar gyfer y tai presennol sy'n galluogi pobl i gael cartref diogel ac sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt gyflawni a llwyddo mewn bywyd.

Mae i'r cynllun buddsoddi ar gyfer tai ddau amcan allweddol sef:

- **Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy newydd o safon uchel yng Nghymru** gyda chymorth y rhaglen grant tai cymdeithasol – comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil sy'n amcangyfrif bod angen 5,100 o dai ychwanegol nad ydynt ar gyfer y farchnad bob blwyddyn er mwyn ateb y galw a ragwelir a bod gan tua 9,500 o aelwydydd anghenion tai nas diwallwyd ar hyn o bryd.
- **Adnewyddu a gwella'r stoc dai bresennol** – drwy gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer tai cymdeithasol.

### 2.6.2 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i gynyddu nifer y tai yng Nghymru drwy:

- Ddyrannu dros £510 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a darparu cyfanswm o 9,091 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2011 sy'n rhagori ar darged gwreiddiol "Cymru'n Un" sef 6,500 ar gyfer 2011 a hynny o 40 y cant.
- Lleihau cyfradd y Grant Tai Cymdeithasol o 58% i 25% ar gyfer rhent canolraddol megis Rhent Gyntaf a chyfradd grant hyd yn oed yn is ar gyfer cynllun peilot Partneriaeth Tai Cymru eleni sef 19%.
- Rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau tai fforddiadwy trwy gytundebau a106 y gall aelwydwydd eu cael a'u fforddio.
- Cefnogi dull arloesol o ddarparu tai fforddiadwy gan gynnwys:
  - Partneriaeth Tai Cymru gwerth £16m sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael yr effaith fwyaf bosibl drwy ddefnyddio cymorth a chyllid partneriaid yn y sector preifat ac a ariennir drwy gyfuniad o £3 miliwn o arian grant Llywodraeth Cymru, benthyciad o £12 miliwn gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality a chyfanswm o £1 filiwn gan bedair cymdeithas sy'n rhan o Bartneriaeth Tai Cymru
  - Cynllun Pont Trelái yng Nghaerdydd (gweler yr astudiaeth achos flaenorol ym Mhennod 3.7)
- Cyflymu'r broses o Ryddhau Tir ar gyfer tai gan gynnwys neilltuo adnoddau ar gyfer tîm penodol i weithredu ar hyn.
- Cefnogi'r defnydd o Gyfryngau Diben Arbennig i ddarparu tai ar dir trosglwyddo stoc ar raddfa fawr a hefyd ar dir Llywodraeth Cymru (e.e. datblygiad Pont Trelái yng Nghaerdydd).

- Gwella'r ffordd y caiff y Grant Tai Cymdeithasol ei weinyddu a'i reoli mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai drwy'r canlynol:
  - Cyflwyno fformiwla i ddosbarthu Prif Raglen y Grant Tai Cymdeithasol o fis Ebrill 2011 ymlaen
  - Cyflwyno Canllaw newydd i Reoli'r Rhaglen ym mis Ebrill 2011, i helpu i ddarparu cynifer o dai fforddiadwy â phosibl mewn modd effeithlon a chynaliadwy drwy raglen y Grant Tai Cymdeithasol ar y cyd â pholisi a strategaeth tai genedlaethol
- Datblygu'r rhaglen i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud fel y gall tenantiaid yn y rhan fwyaf o'r stoc tai cymdeithasol hŷn gael budd o fyw mewn cartrefi o ansawdd gwell sy'n fwy effeithlon o ran ynni.
- Mae buddsoddiadau o £1.6 biliwn yn y rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru hefyd wedi esgor ar nifer o fuddiannau ehangach:`
  - Cyflogaeth – fel rhan o'u rhaglenni cynnal a chadw a gwella er enghraifft, mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol wedi creu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau gyda chontractwyr lleol fel rhan o'r gofyniad recriwtio a hyfforddi wedi'i dargedu mewn contractau
  - Troseddu – mae gwelliannau i ddiogelwch cartrefi yn ogystal â gwelliannu i ystadau wedi helpu i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
  - Iechyd – mae un awdurdod lleol yn treialu Astudiaeth o Effaith ar Iechyd y mae'r canlyniadau wedi dangos tystiolaeth i weithiau gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl, lleihau nifer yr achosion o broblemau anadlu a lleihau nifer yr ymweliadau â'r meddyg teulu.

### 2.6.3 Cynlluniau sectorol

Byddwn yn parhau i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru drwy'r canlynol:

- Sicrhau 7,500 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y Llywodraeth.
- Buddsoddi Cyfalaf uniongyrchol drwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol gyda chymorth o £60 miliwn yn 2012/13, £48 miliwn yn 2013/14 a £48 miliwn yn 2014/2015 a hefyd geisio cynyddu 'r Grant Tai Cymdeithasol drwy gyflwyno'r achos dros arian ychwanegol am dai.
- Datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o sicrhau tai e.e. mae tai cydweithredol a chyd-berchentyaeth wedi arwain at sefydlu grŵp rhanddeiliaid tai cydweithredol sy'n cynnwys arbenigwyr tai a thai cydweithredol allweddol i ddatblygu ymagwedd strategol tuag at y gwaith hwn. Mae'r grŵp rhanddeiliaid tai cydweithredol yn cefnogi nifer o brosiectau tai cydweithredol arloesol ac mae'n ystyried ffynonellau newydd o arian ac unrhyw rwystrau deddfwriaethol i ddatblygu'r math hwn o dai.
- Cefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu Bond Tai i Gymru drwy roi arian refeniw.
- Cefnogi a gwerthuso modelau arloesol megis Partneriaeth Tai Cymru a datblygu Pont Elái, Caerdydd.
- Y gronfa 'Troi Tai'n Gartrefi' gwerth £5m i Gymru gyfan sy'n galluogi awdurdodau lleol i gynnig benthyciadau ailgylchadwy di-log i berchenogion adnewyddu eiddo preswyl gwag mewn cyflwr gwael yn y sector preifat a'u troi'n gartrefi i'w gwerthu neu eu rhentu.

- Y Cynllun Newbuy a lansiwyd yn ddiweddar yn Lloegr a'r opsiynau ar gyfer darparu cynllun tebyg Prynu Newydd yng Nghymru. O dan y cynllun, mae'r Llywodraeth yn darparu 5.5% o bris prynu'r cartref newydd mewn cronfa i helpu i yswirio rhag colledion yn achos ailfeddiannu'r eiddo. Mae'r datblygwr yn rhoi 3.5% o gost pob cartref newydd yn y gronfa. Sefydlwyd cwmni gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi i weithredu'r cynllun.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i ychwanegu at eu potensial i adeiladu cartrefi newydd.



Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o adnewyddu a gwella'r stoc tai yng Nghymru drwy'r canlynol:

- Rhoi grant cyfalaf Lwfans Atgyweiriadau Mawr i awdurdodau lleol i helpu i ariannu'r ôl-groniad o waith atgyweirio er mwyn cyrraedd SATC.
- Rhoi arian bwlch gwaddol i sefydliadau trosglwyddo stoc yn wirfoddol ar raddfa fawr er mwyn cefnogi rhaglenni adnewyddu ar ôl trosglwyddo.
- Parhau â thrafodaethau â Llywodraeth y DU i'w gwneud yn bosibl i'r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai gael ei diddymu yng Nghymru. Yn amodol ar gytundeb, byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i refeniw tai aros yng Nghymru a chael ei ddefnyddio ar y stoc tai bresennol a stoc tai newydd.
- Gweithio gyda'r landlordiaid hynny na allant gydymffurfio'n llawn â Safon Ansawdd Tai Cymru drwy ystyried opsiynau polisi a allai helpu i oresgyn y rhwystrau i'w chyflawni'n llawn.
- Sefydlu Tasglu Gweinidogol i helpu i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (erbyn mis Medi 2012).
- Gwella'r ffordd y caiff cydymffurfiaeth landlordiaid â'r Safon ei monitro a chyhoeddi'r canlyniadau bob blwyddyn.
- Hyrwyddo a gwerthuso'r buddiannau ehangach a gyflawnir drwy Safon Ansawdd Tai Cymru.

### 2.6.4 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol

Darperir y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Mae awdurdodau lleol yn datblygu ac yn gweithredu strategaethau tai lleol, gan benderfynu pa gynlluniau sydd o bwys strategol; eu blaenoriaeth gymharol a'r gymdeithas tai a fydd yn datblygu ac yn rheoli'r eiddo. Goruchwylir y broses hon gan Lywodraeth Cymru – sy'n cytuno ar raglen ddatblygu aml-flwyddyn awdurdodau lleol, dyrannu adnoddau, cymeradwyo ceisiadau o dan y cynllun a thalu'r grant.

Mae cymdeithasau tai yn cyflwyno cyfleoedd datblygu realistig i gyflawni nodau strategol awdurdodau lleol a sicrhau bod cynlluniau yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru o ran dyluniad a gwerth am arian.

Ar gyfer Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru, yr asiantau cyflawni yw pob landlord cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- Awdurdodau lleol sydd wedi cadw eu stoc dai.
- Landlordiaid trosglwyddo stoc ar raddfa fawr a sefydlwyd i dderbyn y stoc dai gan awdurdod lleol.
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig traddodiadol.

## Astudiaeth Achos: Pentref Trefol




Mae Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn darparu arian ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r cynlluniau a gefnogir gan y Grant Tai Cymdeithasol yn flaenoriaethau tai strategol (a benderfynir gan awdurdodau lleol) a chynlluniau sy'n cael eu datblygu a'u rheoli gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithasau Tai).

Mae Pentref Trefol Grŵp Tai Coastal yn y Stryd Fawr, Abertawe yn enghraifft o ddiwallu anghenion tai ond hefyd adfywio ar sail tai.

Bydd y cynllun, a fydd yn hybu datblygu cymdeithasol ac economaidd, ac yn gwella'r amgylchedd, yn arwain at gyfleuster defnydd cymysg sy'n cyfuno eiddo preswyl, manwerthu a swyddfeydd, clwstwr creadigol, adnoddau cymunedol, a lleoliad sy'n wynebu'r Strand. Mae wedi'i ddylunio fel cyfres o gyrtiau sy'n cysylltu siopau, swyddfeydd, mannau gwerthu bwyd a diod a fflatiau 'fforddiadwy".

Nod y cynllun hwn yw ategu camau gweithredu eraill a thrawsnewid Stryd Fawr Abertawe, a chreu ffryntiadau gweithredol ar y Strand, ac adfer Lôn y Brenin fel cyswllt bywiog rhwng y Stryd Fawr a safle Parc Tawe.

Mae i'r prosiect hwn bedwar cam:

- Bloc y Stryd Fawr a fydd yn cynnig siopau a swyddfeydd a lleoedd parcio gerllaw.
- Bloc y Strand a fydd yn darparu 76 o unedau preswyl.
- Adeilad y Clwstwr Creadigol a fydd yn cynnig lle i'r diwydiannau creadigol megis hysbysebu, marchnata, pensaernïaeth, gemau fideo, a rhagor.
- Warws Lôn y Brenin wedi'i adnewyddu sy'n dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif.

Mae'r elfen breswyl, sy'n cael ei hadeiladu gan Mi-space UK, yn cynnwys 76 o fflatiau dwy ystafell wely, a bwriedir iddynt gael eu cwblhau yn 2012. Mae eisoes restr aros o ddarpar denantiaid sy'n awyddus i symud i mewn.

Caiff yr elfen ddibreswyl ei chwblhau erbyn mis Gorffennaf 2012. Mae rhan o lawr daear y bloc wedi cael ei defnyddio fel theatr gerdd dros dro o fis Hydref 2011 i fis Mai 2012.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth i elfen breswyl y cynllun drwy arian Grant Tai Cymdeithasol gwerth £6.2 miliwn fel rhan o gyfanswm o £9.7 miliwn gyda'r gweddill yn dod o gyllid preifat.

Mae'r Pentref Trefol gwerth £25 miliwn yn brif sbardun i weithgareddau adfywio yn Abertawe. Bydd yr adfywiad hwn a lywir yn ddiwylliannol yn mynd law yn llaw ag adfywio a lywir gan dai; bydd yn gartref i Ganolfan i'r Diwydiannau Creadigol, gyda'r nod o ddeori ac ysgogi datblygiad y Diwydiannau Creadigol yn Abertawe. Mae'n seiliedig ar gyfres o gyrtiau sy'n cysylltu siopau, swyddfeydd, mannau gwerthu bwyd a diod a fflatiau fforddiadwy. Y nod

hefyd yw creu 'clwstwr creadigol' wedi'i gynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o ddiwydiannau megis hysbysebu a marchnata, pensaerniaeth, gemau cyfrifiadurol a fideo, crefftau a'r cyfyngau.

Cafodd Grŵp Tai Coastal swm o £900,000 dan raglen Ardal Adfywio Abertawe , y defnyddiwyd £300k ohono i gynorthwyo gyda'r gwaith dymchwel. Drwy'r cyfraniad cychwynnol hwn bu modd ysgogi prosiect blaenllaw a oedd wedi bod yn ddifywyd ers blynyddoedd lawer. Ategwyd y cyfraniad gan £600k arall sydd wedi cyfrannu at ddatblygu mannau manwerthu a swyddfeydd.


Bydd cynllun y Pentref Trefol yn creu 320 o swyddi ynghyd â thua 400 o swyddi llawn amser a rhan amser ar ôl iddo gael ei gwblhau. Hefyd, rhoddir cyfleoedd hyfforddi drwy'r rhaglen Mwy na Brics a Morter.

Mae tîm yr Ardal Adfywio yn arwain gwaith ar y cyd â Chyngor a Dinas Abertawe a Chyngor Celfyddydau Cymru a'r trydydd sector  i gyflawni strategaeth ar gyfer Canolfan y Diwydiannau Creadigol yn Abertawe. Mae hyn yn gysylltiedig ag Adroddiad Hargreaves a Strategaeth y Diwydiannau Creadigol sy'n cael ei drafftio gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd y gwaith hwn yn creu effaith 'clwstwr' naturiol a bydd yn sbardun arall i adfywio'r ardal.

Mae tîm yr Ardal Adfywio yn cydnabod bod angen camau gweithredu cyfannol er mwyn ategu ymyriadau sy'n ymwneud â thai yn unig. Yn hyn o beth mae'r tîm yn gweithio gyda rhanddeiliaid megis Dinas a Sir Abertawe, Grŵp Tai Coastal a BID Abertawe i sicrhau bod y camau yn cael eu cymryd i roi cymorth busnes i fusnesau newydd neu fusnesau sy'n methu, mabwysiadu defnyddiau yn y cyfamser, mentrau sy'n mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lapio safleoedd nas defnyddir mewn finyl a chymryd camau yn erbyn landlordiaid absennol er mwyn sicrhau bod mwy o hyder, mwy o fwrlwm a mwy o ymwelwyr yn y Stryd Fawr sydd yn wir wedi'i adfywio.

# 2.7 Adfywio

## Ardaloedd Adfywio



Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu nifer o nodau strategol o ran gwella lles pobl yng Nghymru drwy sbarduno datblygu economaidd, mynd i'r afael â thlodi, a gwneud cymunedau yn gynaliadwy ac yn gydnerth. Ar lefel leol, mae rhaglenni adfywio yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau buddsoddi gael eu cyflwyno sy'n dod â phartneriaid ynghyd i wneud cynnydd yn erbyn nodau strategol lluosog mewn ffordd integredig.

Mae "Adfywio" yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau, o brosiectau adnewyddu ffisegol ar raddfa fawr sy'n hyrwyddo twf economaidd i ymyriadau mewn cymdogaethau sy'n gwella ansawdd bywyd. Mae'r cysylltiadau rhwng y gwahanol weithgareddau hyn yn dod yn fwyfwy pwysig, yn enwedig o ran datblygu cynaliadwy a chydnerthu cymunedol. Yn wir, dros y degawd diwethaf mae ffocws adfywio yng Nghymru (ac mewn mannau eraill) wedi symud oddi wrth welliannau ffisegol tuag at ddulliau mwy integredig o gysylltu'r gwaith o adnewyddu lleoedd â chanlyniadau i bobl a chymunedau.

Yn ogystal ag amrywiaeth mawr o fuddsoddiadau ac iddynt effeithiau adfywio ar draws meysydd polisi o iechyd i dai ac o addysg i ddatblygu economaidd, mae Llywodraeth Cymru yn targedu buddsoddiadau at nifer fach o ymyriadau adfywio penodol.

Mae'r Is-adran Adfywio yn cael cyllideb o tua £60m y flwyddyn. Buddsoddir y rhan fwyaf o'r swm hwn mewn saith Ardal Adfywio ar hyn o bryd, gyda'r gweddill wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni eraill.

### 2.7.1 Nodau ac amcanion buddsoddi

Anelwn at fynd i'r afael â methiant y farchnad i wrth-droi dirywiad mewn cymunedau difreintiedig, er mwyn creu lleoedd bywiog a chynaliadwy lle mae pobl am weithio, byw, ac ymweld â hwy drwy raglenni buddsoddi cyfannol a chydgysylltiedig.

Mae'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar Ardaloedd Adfywio yn ceisio sicrhau canlyniadau sy'n ymwneud â heriau lleol mewn ffyrdd sy'n atgyfnerthu blaenoriaethau cenedlaethol. Drwy fuddsoddi yn yr ardaloedd hyn, ein nod yw gwella ffyniant a lles yng Nghymru.

### 2.7.2 Y cynnydd a wnaed yn y sectorau ers 2007

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at adfywio, yn ei ystyr ehangaf, drwy amrywiaeth eang o raglenni, er enghraifft, Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dechreuodd yr Ardaloedd Adfywio gyda rhaglen Blaenau'r Cymoedd, a sefydlodd y prif egwyddorion ar gyfer adfywio cyfannol, gan gynnwys:

- Gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau daearyddol, sefydliadol a sectorol.
- Gwaith cynllunio strategol integredig.
- Diwallu angen mawr drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- Denu buddsoddiad ychwanegol.
- Arian hyblyg sy'n cynnig atebion wedi'u teilwra ar gyfer heriau lleol.

Mae ardal Blaenau'r Cymoedd yn cwmpasu 212 milltir sgwâr, a phoblogaeth o 260,000 ac mae wedi buddsoddi £100m o arian Llywodraeth Cymru, gan ddenu £250m o fuddsoddiad ychwanegol amcangyfrifedig gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Cyhoeddwyd y strategaeth 'Syniadau Blaengar' yn 2006, gydag ymrwymiad o £140m o fuddsoddiad ychwanegol dros 15 mlynedd, a'r nod o fanteisio i'r eithaf ar wariant arfaethedig arall, gan gynnwys deuoli ffordd yr A465 ym Mlaenau'r Cymoedd. Mae i'r strategaeth bum thema:

- Amgylchedd naturiol ac adeiledig sy'n ddeniadol ac a ddefnyddir yn helaeth.
- Tirlun economaidd sy'n ffynnu ac yn cynnig cyfleoedd newydd.
- Poblogaeth addysgedig, medrus ac iachach.
- Profiad deniadol a chydlynol o weithgareddau twristiaeth a hamdden.
- Hyder y cyhoedd mewn dyfodol llewyrchus ar y cyd.

Rydym yn defnyddio ein profiad o gynllun Blaenau'r Cymoedd mewn chwe rhaglen arall ledled Cymru. Mae'r dull gweithredu yn amrywio o ardal i ardal ond mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cefnogi pobl a lleoedd, o dwristiaeth a hamdden, i iechyd ac addysg, i gyflogaeth ac entrepreneuriaeth. Mae'n cefnogi ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi, a'r ffordd rydym yn ysgogi datblygu economaidd ledled Cymru.

Y chwe rhaglen Ardal Adfywio arall yw:

- **Môn a Menai – rhaglen gwerth £33m sy'n cwmpasu Ynys Môn a rhan o Wynedd** i hyrwyddo mesurau cynhyrchu ynni carbon isel/lleihau carbon; sgiliau a thechnoleg ar gyfer economi carbon isel; seilwaith a theithio cynaliadwy; yr amgylchedd naturiol a threftadaeth leol ac asedau cymunedol. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi cyflawni'r canlynol:
  - Angorfa Llongau Teithiol Caergybi
  - Doc Fictoria, Caernarfon
  - Prosiect Amgylchedd Arfordir Ynys Môn (£5.2m)
  - Denu arian Ewropeaidd ar gyfer gwelliannau i ganol y dref gwerth dros £16m drwy'r ardal
- **Arfordir Gogledd Cymru – rhaglen gwerth £20m sy'n canolbwyntio ar y Rhyl a Bae Colwyn** i wella tai; iechyd a lles; addysg a sgiliau; cydlyniant cymunedol; yr amgylchedd a thrafnidiaeth; economi amrywiol a chynaliadwy. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi cyflawni'r canlynol:
  - Ardal digwyddiadau mawr gwerth £6.5m ym Mharc Eirias
  - £800,000 i ailddatblygu Theatr Colwyn
  - Gwaith amddiffyn yr arfordir a chanolfan chwaraeon dŵr newydd
  - Ailddatblygu Sinema Apollo, y Rhyl
  - Cyfleuster Beicio BMX a Beicio oddi ar y ffordd Marsh Tracks
- **Cymoedd y Gorllewin – rhaglen gwerth £24m sy'n canolbwyntio ar Gwm Gwendraeth, Cwm Aman, Cwmtawe, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Cwm Afan, Cwm Llynfi, Cwm Garw a Chwm Ogwr** i wella canolfannau trefi a seilwaith twristiaeth; cynnig marchnata a chyd-frandio; cyflwyno gwelliannau amgylcheddol; datblygu safleoedd strategol a chefnogi cyflogaeth a 'Her Iechyd y Cymoedd'. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi cyflawni dros 185 o brosiectau gan ddefnyddio £13m o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i ddenu £35m o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl amcangyfrif (gan gynnwys arian Ewropeaidd).

- **Abertawe – rhaglen gwerth £18m yn canolbwyntio ar Ddinas Abertawe** i hyrwyddo Prifddinas Ranbarthol; Cymunedau Cydlynol; Tai a'r Amgylchedd; Cyfoeth Cynaliadwy. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi cyflawni'r canlynol:
  - Rhaglen Gydgyfeirio Glannau Abertawe Strategol gwerth £32m, sy'n canolbwyntio ar ailddatblygu tir cyhoeddus y Ddinas a seilwaith y Glannau Dŵr
  - Datblygu Pentref Trefol gwerth £25m a'r Ganolfan Greadigol
  - Gwaith ailddatblygu gwerth £7.3 miliwn ar Orsaf Reilffordd Abertawe
  - Ailddatblygu Oriau Gelf Glynn Vivian
  - Arian Cyfatebol ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Chwaraeon Dŵr (buddsoddiad gwerth £4.2m i gyd)
  - Mwy na Brics a Morter sy'n cynnig cyfleoedd recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu
  - Darparu £700,000 ar gyfer safle'r Cae Vetch i alluogi datblygiad tir llwyd 4.52 erw
- **Aberystwyth – rhaglen gwerth £10.3m sy'n canolbwyntio ar ardal drefol Aberystwyth** i hyrwyddo glan-môr a rhodfa fywiog a chanol atyniadol a ffyniannus i'r dref; teithio cynaliadwy; darparu tai o safon i bobl leol a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi cyflawni'r canlynol:
  - Grantiau Gwella Trefi a ddefnyddiwyd i wella eiddo allweddol drwy ganol y dref
  - Gwelliannau tai/effeithlonrwydd ynni ym Mhenparcau drwy raglen Arbed
  - Cyfleusterau hamdden Min Y Ddôl, Penparcau gan gynnwys un o brosiectau gwaddol y Gemau Olympaidd
  - Dros £1 filiwn ar gyfer ailddatblygu Porth Trafnidiaeth Trefi
- **Y Barri – rhaglen gwerth £9.8m sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Barri fel lle atyniadol i fyw ynddo ac Ynys y Barri fel cyrchfan gwibdaith dydd sy'n cynnig gweithgareddau** ac sy'n hyrwyddo adfywio ffisegol; twristiaeth; iechyd a lles; tai a'r amgylchedd a sgiliau a chyflogaeth. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi cyflawni'r canlynol:
  - 31 o brosiectau cymeradwy gwerth bron £6m i gyd
  - Gwelliannau i fannau cyhoeddus gwerth dros £1 filiwn
  - Wedi buddsoddi dros £1.5m yn yr Ardal Arloesi, gan helpu i sicrhau datblygiad newydd gwerth £7.5m sy'n darparu gwesty a bwyty a 68 o swyddi
  - Dros £400,000 i wella lles mewn ardaloedd difreintiedig
  - £1.8m ar uwchraddio cyfleusterau hamdden dan do a thu allan.

Rydym hefyd wedi cyflawni'r rhaglenni buddsoddi mewn adfywio canlynol drwy:

- **Bartneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd** – i gydlynu, hybu a hyrwyddo gweithgareddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, treftadaeth a thwristiaeth drwy gymoedd y De. Mae'r fenter wedi cymeradwyo dros 40 o brosiectau cyfalaf mewn egwyddor o dan brosiect Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).
- **Cwmni Adfywio Trefol Newport Unlimited (NU)**, a gyd-berchenogir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd – a grëwyd i adfywio'r ddinas a'i datblygu yn ganolfan ffyniannus i fusnes a hamdden ac yn lle ffyniannus i fyw ynddo.

Ymgymerodd NU â'r rhaglen lawn o gasglu tir sydd wedi ei gwneud yn bosibl i drawsnewid glannau Afon Wysg yng Nghanolfan Dinas Casnewydd: yn ogystal ag atgyfnerthu'r amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol i hwyluso'r broses o ddatblygu'r tir wrth yr afon. Oherwydd y dirywiad economaidd bu'n rhaid canolbwyntio ar ganol y dref a'r datblygiadau diweddar, a gyflawnwyd mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd, yw creu cyfleusterau manwerthu a hamdden a gynigir yn Sgwâr John Frost ac adfywio Canolfan Cambrian.

Bu NU hefyd yn bartner pwysig yn y gwaith o baratoi ar gyfer Cwpan Ryder 2010 a thrwyddo cafodd arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ei sianelu gan gynnwys yr orsaf newydd gwerth £8 miliwn a adeiladwyd.

- Awdurdod Harbwr Caerdydd, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i reoli gan Gyngor Dinas Caerdydd, sydd, yn ogystal â rhedeg a chynnal a chadw cyfleusterau Bae Caerdydd, yn buddsoddi mewn asedau hamdden newydd i wella'r hyn a gynigir i ymwelwyr.

  Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd wedi gallu defnyddio arian o'i Gronfa Wella (sy'n deillio o weithgareddau cynhyrchu incwm ac arbedion effeithlonrwydd o'i gyllideb Costau Sefydlog) i ariannu gwariant ar wella seilwaith, asedau, gweithgareddau neu wasanaethau ym Mae Caerdydd. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar mae:

  – Cyfraniad o £8.9m i adeiladu Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd (cyfrannodd Cyngor Dinas Caerdydd £3.4m a chyfrannodd Croeso Cymru £1m)
  – £200k ar gyfer adnewyddu glanfa lo yn Afon Elái (heneb hanesyddol)
  – £75k ar gyfer Cyfleuster Ffitrwydd Adizone ar Forglawdd Bae Caerdydd.

Mae'r Gronfa Wella bellach wedi cael ei disodli gan Gronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiectau. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu defnyddio £2m o arian y gronfa hon i adeiladu cyfleuster syrffio mewnol (drws nesaf i Ganolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd) y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Ebrilll 2013.

- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, sef cronfa hyd braich gwerth £55m a weithredir yn fasnachol sydd o dan berchenogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys £40m o arian ERDF ac arian cyfatebol i'w fuddsoddi yn yr Ardal Gydgyfeirio a £15m i'w fuddsoddi mewn rhannau eraill o Gymru. Mae buddsoddiadau o'r Gronfa yn ad-daladwy, ar ffurf uwch ddyled neu ddyled mesanîn, ac ecwiti o dan rai amgylchiadau.

  Ar y cam cymharol gynnar hwn yn ei datblygiad mae'r Gronfa eto i wneud ei buddsoddiad cyntaf, er bod llif sylweddol o gynigion ar gyfer prosiectau yn yr arfaeth. Mae'r camau gweithredu hyd yma wedi canolbwyntio ar (i) sefydlu'r Gronfa fel cyfrwng gwaith (ii) codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa ymhlith awdurdodau lleol a datblygwyr – cynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru.

## 2.7.3 Cynlluniau sectorol

Wrth i'r rhaglenni buddsoddi presennol dynnu at eu terfyn, mae ein sylw yn troi at strategaethau buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Chwefror 2012 dechreuwyd ar adolygiad polisi o ddulliau adfywio Llywodraeth Cymru. Cynhelir yr adolygiad yng nghyd-destun:

- Penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo ymdrin ag adfywio drwy ddull Llywodraeth gyfan.
- Ymrwymiadau penodol i adnewyddu trefi glan-môr a chanol trefi.
- Yr angen i integreiddio prosesau polisi a chyflawni ar draws Tai, Adfywio a Threftadaeth.

Amcan yr adolygiad yw datblygu methodoleg ar gyfer buddsoddi mewn adfywio o'r portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth gan gynnwys:

- Ble i fuddsoddi a phryd.
- Beth y dylid buddsoddi ynddo.

Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn dod i ben ym mis Chwefror 2013 gyda chyhoeddiad polisi. Cyn hyn, caiff ymgynghoriad ei gynnal o fis Hydref 2012.

## 2.7.4 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i'n dulliau gweithredu ac mae'n gofyn am gydweithredu effeithiol â rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn sicrhau ein bod ni, drwy ysgogi proses gyfannol o wrth-droi dirywiad economaidd, cymdeithasol a ffisegol lleoedd lle na fydd grym y farchnad ar ei ben ei hun yn ddigon, yn galluogi'r sector preifat i ddychwelyd i ardaloedd lle bu diffyg buddsoddiad yn y gorffennol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol, ar dair lefel:

- Y lefel strategol: mae gan bob Ardal Adfywio Fwrdd Partneriaeth sy'n cynnwys buddiannau allweddol o'r ardal leol o bob sector. Mae'r Byrddau Partneriaeth, ac mewn rhai ardaloedd Grwpiau Llywio sydd o dan haen y Byrddau, yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth ynglŷn â chyfeiriad strategol ac ariannu prosiectau.
- Lefel y Rhanddeiliaid: rydym yn sicrhau bod ymgynghori yn rhan annatod o waith cynllunio strategol a datblygu prosiectau.
- Cyflawni prosiectau: rydym yn gweithio gyda nifer o noddwyr prosiectau i sicrhau buddsoddiad cyfalaf a gweithgareddau ategol eraill.

Un enghraifft nodedig ar hyn o bryd fyddai prosiect y Gweithfeydd yng Nglynebwy, sef prosiect hirdymor mawr i adfer safle un o'r gweithfeydd haearn mwyaf a hynaf yn Ewrop. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno o dan Gyd-fenter â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae prif gynllun yn amlinellu'r dyheadau ar gyfer y safle. Mae'r rhaglen yn dangos dull gweithredu sy'n cwmpasu Llywodraeth Cymru gyfan, a bydd nifer o sectorau yn chwarae rhan yn y prosiect dros amser.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cefnogi cryn dipyn o weithgarwch adfer tir sylweddol ac adeiladu ysbyty newydd. Mae blaenoriaethau cyfredol yn cynnwys prosiectau seilwaith (e.e. maes parcio, canolfan ynni a rhwydwaith ffyrdd) a darparu cyfleusterau dysgu a hyfforddi o safon uchel; disgwylir i'r Parth Dysgu newydd fod ar agor i fyfyrwyr ym mis Medi 2012. Mae'r gwaith o adnewyddu'r Swyddfa Gyffredinol yn mynd rhagddo; mae'r rhan gyntaf ar agor i'r cyhoedd ac yn gartref newydd i Archifau Gwent y bu ymweliad brenhinol â hi yn ddiweddar. Mae'r contractau ar gyfer y prosiectau cyfredol hyn eisoes wedi'u dyfarnu. O ganlyniad i ddull cydweithredu, nid yw rhaglen y Gweithfeydd wedi'i nodi ar wahân, ond mae wedi'i chynnwys yn y sector, megis cyfraniad gan Raglen Ysgolion i'r 21ain Ganrif.

Bwriedir ymgymryd â datblygiadau eraill ar y safle hefyd. Mae'r prif gynllun yn cynnwys dyheadau ar gyfer tai, creu swyddi, hamdden a rhagor o seilwaith. Bydd prosiectau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r llif o brosiectau arfaethedig wrth iddynt aeddfedu; er y bydd y trefniadau caffael ar gyfer pob prosiect yn wahanol, bydd pob un yn cynnwys cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a/neu randdeiliaid eraill.

## Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru: Astudiaeth Achos



Cafodd rhaglen Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru ei dynodi gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2008 a thros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf mae wedi derbyn £25m o arian craidd i gyflawni nifer o brosiectau yn unol â Chynllun Gweithredu Arfordir Gogledd Cymru 2016. Mae £11m o arian Ewropeaidd ychwanegol ar gael hefyd yn ystod y cyfnod 2009-2014 i gefnogi prosiectau yn y Rhyl a Bae Colwyn .

Mae prosiectau allweddol yn cynnwys:

**Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl** – Nod y prosiect hwn yw trawsnewid y tai sydd ar gael mewn rhan o orllewin y Rhyl lle ceir tai amlfeddiannaeth o ansawdd gwael yn bennaf ar hyn o bryd. Bydd yn creu tai newydd gydag amrywiaeth o fathau o dai ynghyd â pharc trefol yng nghalon yr ardal darged.

Caiff y prosiect hwn gwerth £23m ei gyflawni drwy Grŵp Cyswllt Gwella Tai Gorllewin y Rhyl sef partneriaeth rhwng y tîm Ardal Adfywio, Grŵp Tai Pennaf a Chyngor Sir Ddinbych. Bydd £10m o gyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn helpu i weithredu'r cam nesaf o waith yn ystod y cyfnod 2012-14.

**Canolfan Ddysgu'r Bae, Bae Colwyn** – ceisiodd Coleg Llandrillo gymorth gan Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru i helpu i sefydlu Canolfan Ddysgu'r Bae ym Mae Colwyn, sef canolfan dysgu a gwybodaeth yn ardal Cymunedau yn Gyntaf y dref. Roedd y Ganolfan wedi'i chynllunio i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adfywio Bae Colwyn, gan roi cyngor, gwybodaeth, cymorth a dysgu i'r rhai sydd â'r angen mwyaf i uwchraddio eu sgiliau er mwyn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd. Darparwyd arian ar gyfer

y prosiect gwerth £1.4m gan Lywodraeth Cymru drwy'r Ardal Adfywio (50%) ac AdAS (25%) gyda Choleg Llandrillo yn ariannu'r gweddill.


**Canolfan Drafnidiaeth y Rhyl** – Roedd y rhengoedd bysiau a thacsis yn y Rhyl, y tu allan i orsaf drên y Rhyl mewn cyflwr gwael iawn nes i gydweithio drwy'r Ardal Adfywio ei gwneud yn bosibl i'r Cyngor wneud gwelliannau gwerth £3.6m. Bydd y gwelliannau ynghyd â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar ailddatblygu gwesty'r Bee and Station gynt a thafarn Costigan gerllaw yn sicrhau y bydd ymwelwyr yn cael profiad llawer gwell wrth gyrraedd y Rhyl yn y dyfodol agos.

**Canolfan Ddigwyddiadau Parc Eirias, Bae Colwyn** – Cwblhawyd y buddsoddiad hwn gwerth £6.5m yn ystod hydref 2011. Ers hynny mae Arena Parc Eirias ar ei newydd wedd wedi cynnal tair gêm rygbi ryngwladol o dan 20 oed a bu'n orlawn ar gyfer pob gêm. Bydd yr Arena hefyd yn cynnal cyngerdd llawn sêr ym mis Gorffennaf i nodi achlysur agor y Gemau Olympaidd yn Llundain ac mae yno gyfleusterau i ddarparu ar gyfer digwyddiadau llai dan do o briodasau i gynadleddau. Bu'r prosiect yn ffrwyth cydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y Tîm Ardal Adfywio, Tîm Cyllid Ewropeaidd Cymru ac Undeb Rygbi Cymru ac mae eisoes yn cael ei ystyried yn llwyddiant mawr yn lleol.

**Y Gronfa Gymunedol** – mae'r prosiect arloesol hwn ar y cyd â RWE npower, wedi sefydlu Cronfa Gymunedol o bron £400,000 y flwyddyn i gefnogi prosiectau bach o fewn yr Ardal Adfywio. Gweinyddir y gronfa gan y tîm Ardal Adfywio ac mae'n cefnogi 23 o brosiectau yn 2011/12.

# 2.8 Addysg

## Ardaloedd Consortia CCAC ac Ysgolion yr 21ain Ganrif



Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn gyfrifol am addysg a sgiliau yng Nghymru ac mae'n gweithio i godi safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant drwy well gwasanaethau a seilwaith i sicrhau gwell cyrhaeddiad.

Mae'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf yn helpu i ddarparu'r cyfleusterau a'r seilwaith angenrheidiol, gan gynnwys TGCh, i ddysgwyr o bob oedran ym mhob sector addysg gan gynnwys **ysgolion** (addysg cyn 16) ac **addysg bellach** ac **addysg uwch** (addysg ôl-16).



### 2.8.1 Nodau ac amcanion Buddsoddi mewn Addysg

Bydd Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AdAS yn cyflawni nodau ac amcanion allweddol y Rhaglen Lywodraethu er mwyn:

- Buddsoddi cyfalaf addysgol a dysgu gydol oes a buddsoddi mewn asedau mewn ffordd gydlynol a thryloyw.
- Rhoi cyfleoedd dysgu cynaliadwy o safon uchel a fydd yn galluogi dysgwyr o bob oedran i gael addysg o safon uchel gan gynnal cyflogaeth gynaliadwy, datblygu economaidd a datblygu cymunedol.

Amcanion y cynllun buddsoddi ar gyfer y tri sector addysg allweddol – ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch – yw:

- Sicrhau gwell canlyniadau addysgol a gwella cyrhaeddiad addysgol.
- Gwella sgiliau ar gyfer swyddi a dysgu oedolion.
- Sicrhau buddsoddiad cyfalaf mewn ymchwil.
- Cyflymu'r broses o ad-drefnu a chydweithredu rhwng darparwyr addysg.
- Darparu ystad effeithlon – a chynaliadwy  sy'n addas at y diben, sy'n ymgorffori technoleg fodern ac yn ystyried newidiadau demograffig sy'n effeithio ar alw.

### 2.8.2 Cynnydd hyd yma

Hyd at 2007, roedd buddsoddi mewn addysg yn seiliedig yn bennaf ar broses sectorol a fformiwläig a wnaed ar sail blwyddyn ariannol. Ers 2009 mae proses o ariannu trosiannol wedi cael ei gweithredu i baratoi'r system ar gyfer rhaglen fuddsoddi i Gymru gyfan mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach sydd wedi'i blaenoriaethu ac sy'n strategol.

Mae'r cyfnod trosiannol hwn wedi ein galluogi i dargedu ein buddsoddiadau'n fwy effeithiol lle maent eu hangen fwyaf ac yn arbennig bu modd i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar adeiladau sy'n is na'r safon a darparu cyfleusterau modern a phriodol.

O dan y gyfran gyntaf o arian trosiannol cefnogwyd 32 o brosiectau ledled Cymru gyda thros £77m o grant Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau hyn wedi'u cwblhau i raddau helaeth. O dan ddwy gyfran ddilynol neilltuwyd dros £337m o gymorth gan y Llywodraeth i 34 o brosiectau eraill o Fro Morgannwg i Ynys Môn ac o Sir Benfro i Sir Fynwy. Mae'r prosiectau hyn yn mynd rhagddynt ac maent yn cynnwys 26 o ysgolion newydd a 15 o ganolfannau dysgu Addysg Bellach sydd wedi cael cymorth grant gwerth £75m.

Rydym yn datblygu ffyrdd o greu partneriaethau strategol rhwng awdurdodau er mwyn sicrhau gwell costeffeithlonrwydd a gwerth am arian drwy well prosesau cynllunio, caffael, rheoli prosiect a chyflawni. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi datblygu fframweithiau caffael i wella'r ffordd y cyflawnir eu rhaglenni buddsoddi cyfalaf. Caiff buddiannau'r dull gweithredu hwn eu hystyried wrth i'r sector Addysg Bellach a'r sector Addysg Uwch ystyried ad-drefnu eu hystadau.

### 2.8.3 Cynlluniau sectorol

#### Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif

Mae gan yr Adran flaenraglen o fuddsoddi i ysgolion. Cyhoeddwyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif gwerth £1.4bn ym mis Rhagfyr 2011. Bydd y Rhaglen hon yn helpu i gyflawni gwaith cynllunio lleol strategol ar gyfer darpariaeth i ddysgwyr 3 i 16 oed, ac mewn cydweithrediad ag eraill lle y bo'n briodol, ddarpariaeth i ddysgwyr 16-19 oed. Y nod yw sicrhau'r ddarpariaeth gywir yn y lle cywir am y gost gywir.

Gyda chyfradd ymyrryd cymorth grant cyfalaf o 50% bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £700 miliwn o gymorth ariannol am gyfnod o 7 mlynedd o 2014-15 i 2021-2022, gyda'r 50% sy'n weddill yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Bydd y cylch cyntaf hwn o fuddsoddi yn anelu at gyflawni dros 161 o brosiectau cyfalaf a fydd yn cynnwys ailfodelu ac ailadeiladu ysgolion.

#### Rhaglenni Cyfalaf Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Bydd AdAS yn parhau i fuddsoddi mewn Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) yng Nghymru i ddatblygu system sy'n ymatebol i anghenion a blaenoriaethau cymunedau lleol, cyflogwyr a'r economi leol a rhanbarthol.

Yn unol â datblygu rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun buddsoddi cyfalaf ar gyfer y sector addysg bellach, sy'n gyson â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Lle y gellir hwyluso gwell gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd bydd AdAS yn integreiddio cynlluniau buddsoddi ar draws sectorau addysg, e.e. cydgysylltu buddsoddiadau mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion lleol.

Mae'r sector AB a'r sector AU yn wynebu heriau tebyg o ran diffinio rôl, ymateb cwricwlwm, ymateb i arddulliau, dulliau a thechnolegau newydd. Bydd newidiadau demograffig yn dechrau effeithio ar y sector AB, er bod pwysau demograffig yn y sector AU yn wahanol ac yn fwy cymhleth. Mae Cymru yn parhau i dderbyn mwy o fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU na myfyrwyr o Gymru. Caiff buddsoddiadau cyfalaf eu blaenoriaethu i gefnogi Trawsnewid Addysg a Darpariaeth Hyfforddiant yng Nghymru. Bydd angen hefyd i fuddsoddiadau sicrhau ein bod yn cadw ac yn denu gweithwyr medrus yng Nghymru drwy fuddsoddi a chefnogi sefydliadau yn y ddau sector hyn i ddenu myfyrwyr talentog.

Mae'r cam cyntaf o ddatblygu'r rhaglen hon wedi dechrau gyda chais i bob Sefydliad AB amlinellu ei flaenoriaethau buddsoddi ar gyfer y tair i bedair blynedd nesaf yn dechrau o 2014-15 ymlaen. Ni phennwyd gwerth y rhaglen hon eto.

Bydd gwaith yn dechrau ar ddatblygu rhaglen fuddsoddi AU. Bydd angen i fuddsoddiadau yn y sector AU adlewyrchu adroddiad yr Athro Jones "Yr Adolygiad Annibynnol o Addysg Uwch yng Nghymru, 2009" a datblygiadau mwy diweddar gan gynnwys adroddiad Cyngor Cyllido Addysg

Uwch Cymru ar "Strwythur Addysg Uwch yng Nghymru yn y Dyfodol (2011)" a newidiadau dilynol tuag at nifer o sefydliadau llai. Mae cyfalaf ar gyfer ymchwil yn gwella gallu Cymru i sicrhau buddsoddiad mewn ymchwil sy'n gwella sgiliau pobl Cymru ac yn helpu i ddenu mewnfuddsoddiad.

### 2.8.4 Partneriaid a Strwythurau Cyflawni Cyfredol

Caiff Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AdAS ei chyflawni mewn partneriaeth â phob un o'i phrif randdeiliaid addysg yng Nghymru sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Cyfarwyddwyr Esgobaethol y Sector Gwirfoddol a Gynorthwyir a Sefydliadau AB ac AU.



### Astudiaeth achos: Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath



Adleolwyd Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath o'i lleoliad cyfredol yn Nhondu, i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr, i ysgol newydd ym Mracla yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff yr ysgol newydd ei hariannu ar y cyd gan Archesgobaeth Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru.

Mae'r prif adeilad yn rhychwantu tri llawr ac mae lle i 750 o ddisgyblion 11-18 oed, gan gynnwys 150 o ddisgyblion chweched dosbarth. Drwy godi'r ysgol ar dri llawr ceid gwell effeithlonrwydd o ran defnydd tir ac ynni, gydag awyru naturiol a lloriau concrid dwys iawn yn creu màs thermol ar gyfer rheoli tymereddau'n oddefol.

Drwy'r ysgol gyfan, mae'r gweithgareddau addysgol a chymdeithasol craidd yn creu'r cyswllt rhwng mannau ystafelloedd dosbarth – mae'r brif fynedfa, y neuadd chwaraeon, y neuadd fawr a'r cantîn yn clymu'r mannau addysgu at ei gilydd. Mae ystafelloedd dosbarth a gweithfannau hyblyg yn darparu ar gyfer dosbarthiadau o wahanol faint ac amrywiaeth o arferion addysgu.

Mae'r dyluniad yn golygu bod mwy o dir ar gyfer cyfleusterau chwaraeon i'r ysgol a chyfleusterau hamdden ychwanegol, y gall y gymuned leol ehangach eu defnyddio gyda'r nos ac ar benwythnosau.

At hynny, yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Adeiladu 2012, sef gwobrau uchel eu parch, cafodd yr ysgol wobr yng nghategori'r Adeilad Addysg Gorau a chategori'r Prosiect Cynaliadwy Gorau.

Cafodd y prosiect ei ganmol am ei ddyluniad a ddefnyddiai broffil y tir o'i amgylch a'i gydnabod hefyd am ddulliau cydweithredol y tim dylunio. Yn eu sylwadau ar lwyddiant y prosiect yng nghategori Prosiect Cynaliadwy y Gwobrau, dywedodd y beirniad fod y ffordd yr oedd pensaer y cynllun, a gafodd radd Rhagorol o dan ddull asesu amgylcheddol BREEAM, wedi ymdrin â dylunio goddefol yn hollbwysig i'r

prosiect, nid yn unig o ran lleihau ôl troed carbon yr ysgol ond hefyd leihau'r costau rhedeg, sy'n sbardun allweddol i'r Awdurdod Lleol".

Cafwyd cymeradwyaeth y cam tendro cyntaf ar 17 Rhagfyr 2009 i ddisodli'r Ysgol bresennol, sef Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yn Nhon-du, Pen-y-bont ar Ogwr, a galluogi adeiladu ysgol uwchradd gyda 750 o ddisgyblion gan gynnwys cyfleusterau hamdden ar safle gwag ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Dechreuodd y gwaith ar ddechrau 2010 gydag ysgol bwrpasol newydd ar gost gyffredinol o £21.4m gyda Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £14m i'r prosiect. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol yn Rhagfyr 2011 gan y Prif Weinidog.

# 2.9 Iechyd

## Byrddau Iechyd Lleol ac Ysbytai



Mae'r dyraniad cyfalaf ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn helpu gyda'r ddarpariaeth barhaol o'r seilwaith angenrheidiol, h.y. tir ac eiddo, cyfarpar, TG a cherbydau. Yn ei dro mae hyn yn helpu i gyflawni gofal i'r claf sy'n gyfoes, effeithiol ac o ansawdd uchel.

Dyrannwyd cyfalaf sylfaenol o £259 miliwn ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn 2011-12. Bwriedir i'r swm hwn leihau dros y ddwy flynedd nesaf i tua £215 miliwn.

Caiff y broses o ddyrannu cyfalaf i'r GIG yng Nghymru ei rheoli drwy Raglen Gyfalaf i Gymru Gyfan a sefydlwyd ym mis Mawrth 2007. Mae'r cynllun wedi cael ei ddiwygio ers hynny i ystyried y "Rhaglen Lywodraethu"[10], "Law yn Llaw at Iechyd" ac anghenion newidiol gwasanaethau.

### 2.9.1 Amcanion a diben buddsoddiadau

Mae Rhaglen Gyfalaf i Gymru Gyfan yn targedu buddsoddi cyfalaf i helpu i gyflawni un neu fwy o'r amcanion gwasanaeth lefel uchel canlynol:

- Gwasanaethau sy'n hygyrch i gleifion a gofalwyr (sy'n darparu'r gwasanaethau cywir yn y lleoedd cywir).
- Ailgynllunio gwasanaethau'n sylweddol.
- Datganoli gwaith arferol/canoli gwaith cymhleth.
- Modelau newydd ym maes gofal sylfaenol ac addysgu ystad bresennol gofal sylfaenol i wneud mwy yn lleol.
- Buddsoddi mewn technoleg gyfathrebu a'r adnoddau diagnostig sydd eu hangen i alluogi modelau clinigol newydd.
- Parhau i wella a diweddaru'r ystad bresennol, mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw, gwella cynaliadwyedd a sicrhau'r effeithlonrwydd ynni gorau posibl.

### 2.9.2 Y cynnydd a wnaed yn y sector ers 2007

Ers 2007, mae buddsoddiadau wedi amrywio o ysbytai acíwt mawr i safleoedd gofal sylfaenol bach a cherbydau ambiwlans newydd. Mae dros £1.4 biliwn o wariant cyfalaf wedi cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau a chyfarpar meddygol i helpu i wella'r gwasanaethau iechyd a ddarperir ar gyfer pobl Cymru.

Mae rhaglen gyfalaf Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau sy'n addas at y diben o ran darparu gofal iechyd, sy'n elfen allweddol yn y cynllun gweithredu i sicrhau bod ystad y GIG yn cyrraedd y safon ofynnol ac eir ati i gyflawni hynny.

Er bod gwariant cyfalaf wedi bod yn sylweddol bu'n rhaid iddo gwmpasu ymrwymiad mawr iawn gan gynnwys dros 120 o ysbytai, dros 200 o ganolfannau iechyd a chlinigau, tua 50 o unedau iechyd meddwl, a thros 90 o orsafoedd ambiwlans.

Mae gwariant cyfalaf wedi canolbwyntio ar ddarparu adeiladau sy'n addas at y diben yn y lleoedd cywir, yn hytrach na buddsoddi mewn ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar ystad, na fydd byth yn addas at y diben ac a all fod yn y lle anghywir. Mae buddsoddi wedi cael ei dargedu yn y meysydd swyddogaethol allweddol a ganlyn:

[10] http://cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/?skip=1&lang=cy

- **Uwchraddio a Moderneiddio cyfleusterau Gofal Eilaidd** gan gynnwys amrywiaeth mawr o gynlluniau i sicrhau bod cyfleusterau Ysbytai Cyffredinol yn cyrraedd safonau gwasanaeth a seilwaith cyfoes. Ymhlith enghreifftiau o gynlluniau o'r fath mae'r canlynol:
  - Mae gwaith adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful, sef cynllun gwerth £53 miliwn i foderneiddio wardiau, ar fin cael ei gwblhau
  - Mae Ysbyty Cyffredinol Lleol yng Nglynebwy (Ysbyty Aneurin Bevan), gwerth £56 miliwn, wedi'i gwblhau ac mae'n weithredol
  - Mae ysbyty newydd ar gyfer Cwm Rhondda, Ysbyty Cwm Rhondda, gwerth £38 miliwn, wedi'i gwblhau ac mae'n weithredol
  - Mae Ysbyty Cyffredinol Lleol newydd yng Nghaerffili (Ysbyty Ystrad Fawr), gwerth £162 miliwn, wedi'i gwblhau ac mae'n weithredol
  - Mae Ysbyty Bronglais wedi cael ei ailddatblygu i ddarparu cyfleusterau Damweiniau ac Achosion Brys newydd a Theatrau Llawdriniaeth gwerth £42 miliwn, ar y safle
- **Moderneiddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl** – mae nifer o ganolfannau yng Nghymru yn dal i gael eu darparu o hen wallgofdai sy'n amhriodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl modern. Drwy fuddsoddiadau mae'r cyfleusterau presennol yn cael eu disodli gan amrywiaeth o gyfleusterau newydd i gleifion mewnol a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys buddsoddi:
  - £30m mewn darpariaeth newydd yn y gymuned ac i gleifion mewnol ym Mro Morgannwg
  - £26m mewn Uned CAMHS newydd i Dde Cymru yn Ysbyty Tywysoges Cymru
  - £15m mewn Uned CAMHS newydd yng Ngogledd Cymru yn Ysbyty Abergele
  - £25m mewn Uned Iechyd Meddwl Oedolion a'r Henoed Bregus eu Meddwl newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam
  - £57m yn yr Uned newydd i'r Henoed Bregus eu Meddwl yn Ysbyty Llandoche Caerdydd, a gaiff ei chwblhau yn 2012
- **Cyfleusterau Cymunedol a Gofal Sylfaenol** – sy'n hanfodol i helpu gyda'r bwriad o newid cydbwysedd gofal oddi wrth leoliadau gofal eilaidd. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:
  - Mae £30m yn cael ei wario ar ddatblygu Canolfan Iechyd a Thriniaeth Leol yng Nghaerdydd, ar safle hen Ysbyty Brenhinol Caerdydd
  - Mae canolfan iechyd a lles newydd gwerth £33m ym Merthyr ar fin cael ei chwblhau
  - Mae Ysbyty Cymunedol ac Uned Ddeintyddol Gofal Sylfaenol newydd gwerth £80m yng Nghwm Cynon ar fin cael eu cwblhau
  - Mae ysbyty cymunedol gwerth £18m ym Mhorthmadog, Ysbyty Alltwen wedi'i gwblhau ac mae'n weithredol
- **Buddsoddi mewn Cyfarpar a Thechnoleg Ddiagnostig** – gan gynnwys disodli/cynyddu darpariaeth Cyflymyddion Llinellol ar gyfer canolfannau canser a sganiwr PET newydd, sganwyr MRI a CT a chyfarpar diagnostig arall mewn canolfannau gofal eilaidd ledled Cymru. Mae cynlluniau o'r fath yn cynnwys y canlynol:
  - Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi cwblhau cynllun gwerth £7 miliwn i ddisodli hen gyflymydd llinellol, hen sganiwr ac efelychydd CT yn ogystal ag un Cyflymydd

Llinellol ychwanegol. Mae rhaglen arall gwerth dros £6 miliwn eisoes ar waith i ddarparu dau Gyflymydd Llinellol arall.

- Yn Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl, buddsoddwyd £13 miliwn i ddisodli hen gyflymydd llinellol a phrynu cyflymydd llinellol newydd ychwanegol
- Buddsoddwyd dros £25 miliwn mewn 12 sganiwr CT ac 8 sganiwr MRI ledled Cymru
- Buddsoddwyd dros £8 miliwn mewn Sganiwr PET (Tomograffi Allyrru Positronau) newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd

- **Ambiwlansys Newydd** – ers 2007 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £36 miliwn o arian cyfalaf a ddefnyddiwyd i brynu 746 o gerbydau.
- **Darparu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu newydd:**
  - Buddsoddi £1.5m (2011/12) ym Mhorth Clinigol Cymru sef system gyfrifiadurol wedi'i chynllunio gan glinigwyr i'w helpu gyda'u tasgau bob dydd, i ddal cofnod iechyd unigolyn lle nad oes systemau eraill ar gael a helpu i ddal y data crai a fydd yn helpu i fonitro a rheoli gwasanaethau
  - Buddsoddi £1.7m yn 'Fy Iechyd Ar-lein' – gwefan ddwyieithog i GIG Cymru sy'n galluogi cleifion i weld eu cofnodion iechyd personol.

## 2.9.3 Crynodeb o'r cynlluniau sectorol

Disgwylir i gyfyngiadau ar gyfalaf cyhoeddus ymestyn i'r dyfodol rhagweladwy felly bydd angen o hyd i flaenoriaethu ein dyraniad cyfalaf. Dros y pum mlynedd nesaf bydd angen sicrhau bod digon o gyfalaf ar gael:

- Ar gyfer pob cynllun yr ymrwymwyd iddo yn gytundebol.
- Er mwyn cynnal ansawdd yr ystad bresennol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth adeiladau, offer a chyfarpar.
- Caffael technoleg cyfarpar meddygol newydd ac ychwanegol.
- Hyrwyddo'r broses o ailgynllunio gwasanaethau mawr ym maes gwasanaethau eilaidd, cymunedol a sylfaenol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Fel yn achos buddsoddiadau sydd eisoes wedi'u neilltuo ers 2007, bwriedir i fuddsoddi cyfalaf hyd at 2014/15 gael ei dargedu at y meysydd swyddogaethol allweddol canlynol, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes:

- **Uwchraddio a Moderneiddio cyfleusterau Gofal Eilaidd** gyda buddsoddiadau mawr arfaethedig allweddol gan gynnwys:
  - Gwaith ailddatblygu gwerth £87m yn Ysbyty Treforys Abertawe
  - Gwaith ailddatblygu gwerth £106m yn Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl
  - Gwaith ailddatblygu gwerth £120m yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful
  - Gwaith datblygu gwerth £273m mewn Canolfan Gofal Critigol Arbenigol newydd yn Nhorfaen
- **Moderneiddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl** drwy gwblhau'r gwaith o ddarparu cyfleusterau newydd yn lle'r hen gyfleusterau yn Ysbyty Cefn Coed Abertawe ac Ysbyty yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Bwriedir darparu cyfleusterau newydd ar gyfer cleifion â salwch

meddwl acíwt yn Ysbyty Llandoche, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Treforys am gost o dros £160 miliwn.

- **Cyfleusterau Gofal Cymunedol a Sylfaenol** – bwriedir ymgymryd â nifer o fuddsoddiadau ledled Cymru i ddatblygu cyfleusterau Ysbytai Cymunedol a darparu gwasanaethau yn agosach i gleifion. Bwriedir buddsoddi dros £100 miliwn mewn cynlluniau a fydd yn cynnwys darparu ysbytai newydd yn Aberteifi, Tregaron, Aberaeron, Gogledd Dinbych a Llanfair-ym-Muallt.
- **Ysbytai wedi'u huwchraddio ac wedi'u moderneiddio** yn Llandudno, Llandrindod, y Trallwng ac Aberhonddu.
- **Buddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg ddiagnostig**– parheir i fuddsoddi dros £50 miliwn y flwyddyn mewn Byrddau Iechyd Lleol i'w galluogi i fuddsoddi mewn cyfarpar a phrynu cyfarpar newydd yn lle hen gyfarpar, ymhlith pethau eraill. Rydym hefyd yn bwriadu datblygu a moderneiddio ein hadnoddau o ran Cyflymyddion Llinellol a gwella cyfleusterau yng Nghanolfan Ganser Felindre yn y De.
- **Buddsoddi yn y gwasanaeth ambiwlans/prynu ambiwlansys newydd** – byddwn yn parhau i fuddsoddi tua £5m y flwyddyn mewn ambiwlansys newydd. O ran yr ystad bwriedir buddsoddi dros £30 miliwn dros y 5-7 mlynedd nesaf i ddatblygu Canolfannau Adnoddau Ambiwlans a Depos Ymbaratoi.
- **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu newydd** – byddwn yn cwblhau ein buddsoddiad arfaethedig gwerth £12 miliwn mewn System Gwybodaeth Labordy genedlaethol a byddwn yn datblygu'r ddarpariaeth o gofnodion meddygol cleifion yn seiliedig ar TGCh. Byddwn hefyd yn datblygu gwasanaethau lleol newydd gan ddefnyddio gwasanaethau telefeddygaeth sy'n gysylltiedig â chanolfannau arbenigol. Bwriedir buddsoddi dros £50 miliwn arall mewn TGCh dros y cyfnod cynllunio.

### 2.9.4 Partneriaid a strwythurau cyflawni cyfredol

Rheolir y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy saith Bwrdd Iechyd Lleol a thair Ymddiriedolaeth GIG sy'n gyfrifol am ddarparu a gweithredu cynlluniau cyfalaf unigol. Mae pob un wedi llunio Cynlluniau Cyflawni Strategol pum mlynedd sy'n cwmpasu cynlluniau ar gyfer darparu/ad-drefnu gwasanaethau yn y dyfodol, cynlluniau i gyflawni targedau gwasanaethau a chynlluniau ariannol (gan gynnwys y rhaglen gyfalaf).

Mae'r system o ddyrannu cyfalaf i sefydliadau'r GIG yn ei gwneud yn ofynnol i bob penderfyniad ar fuddsoddi gael ei gyfiawnhau yn unol ag arfarniad systematig o opsiynau wedi'i amlinellu mewn achos busnes. Model 5 Achos Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM yw'r safon ar gyfer cyfiawnhau pob buddsoddiad cyfalaf mawr ym maes Gofal Iechyd yng Nghymru.

Er mwyn helpu sefydliadau'r GIG i gyflawni a gweithredu cynlluniau unigol, mae BILlau ac Ymddiriedolaethau yn defnyddio Fframwaith Caffael Cadwyn Gyflenwi'r GIG. Fe'i lansiwyd yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2006 ac mae'n seiliedig ar feithrin partneriaethau strategol hirdymor, Cadwyn Cyflenwi integredig a chydweithredu. Mae'r fenter yn cynnwys fframwaith galw i lawr o dri Phartner Cadwyn Gyflenwi sy'n ymgymryd â gofynion cynllunio ac adeiladu'r prosiect.

Hyd at fis Hydref 2011 cafodd pob prosiect cyfalaf gwerth dros £5 miliwn ei ddarparu gan y Fframwaith hwn. Mae wedi darparu prosiectau wedi'u cwblhau gwerth £363 miliwn gyda phrosiectau gwerth £227 miliwn wedi dechrau ar y safle a phrosiectau gwerth £552 miliwn

yn yr arfaeth.  Mae bron bob un o'r prosiectau wedi cael ei gwblhau ar amser, o fewn y gyllideb ac i safon dda gyda llawer yn nodi dim diffygion ar adeg trosglwyddo.

Mae'r ofynnol i'r Partneriaid Cadwyn Gyflenwi, fel rhan o'r system o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, gadw cofnodion ynglŷn â ble mae gweithwyr a gyflogir ar brosiectau unigol yn byw yn ôl cod post. Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012 roedd 12,318 o weithwyr wedi cael eu cyflogi ar brosiectau adeiladu o dan y Fframwaith. O'r rhain, roedd 9,811 o weithwyr adeiladu, bron 80%, yn preswylio yng Nghymru. Mae'r defnydd o is-gontractwyr yng Nghymru ar brosiectau Fframwaith hefyd wedi cael ei fonitro ac yn ystod yr un cyfnod roedd 68% o becynnau gwaith ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt wedi'u rhoi i gwmnïau a leolir yng Nghymru.

Mewn adolygiad o'r Fframwaith ar ddechrau 2010 gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a'r Ganolfan Arloesi mewn Adeiladu, ym Mhrifysgol Salford, daethpwyd i'r casgliad ei fod yn symud tuag at gyflawni ei amcanion ac y dylid ei adnewyddu. O dan y broses adnewyddu cyflwynwyd Fframweithiau Rhanbarthol ar gyfer y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd ar gyfer prosiectau adeiladu gwerth rhwng £4 miliwn a £10 miliwn. Daeth hyn i rym ar 1af Hydref 2011. Mae Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer prosiectau adeiladu gwerth dros £10 miliwn wrthi'n cael ei gaffael a bydd yn weithredol o fis Medi 2012.

Er mwyn helpu BILlau/Ymddiriedolaethau i fodloni eu gofynion o dan y trefniadau cytundebol, mae fframweithiau cymorth hefyd wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer swyddogaethau rheoli prosiect, goruchwylio gwaith adeiladu a chynghori ar gostau. Gall BILlau/Ymddiriedolaethau ddefnyddio'r gwasanaethau hyn os teimlant nad oes ganddynt ddigon o arbenigedd yn fewnol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r GIG i fonitro cynnydd o ran gweithredu cynlluniau, neilltuo gwariant a materion allweddol sy'n effeithio ar gyflawni llwyddiannus. Caiff y broses o ddyrannu cyfalaf ei monitro ar sail fisol drwy derfynau adnoddau cyfalaf ffurfiol, gan sicrhau bod modd ymateb i unrhyw flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn neu flaenoriaethau newydd a bod llithriant cyfalaf yn cael ei nodi'n gyflym i'w ailgyfeirio.

## Astudiaeth Achos: Ysbyty Ystrad Fawr






Ym mis Tachwedd y llynedd gwnaeth un o brosiectau braenaru gwreiddiol Cynllun Oes: Adeiladu ar gyfer Cymru, Ysbyty Ystrad Fawr, agor ei ddrysau i gleifion. Mae'r ysbyty newydd yn Ystrad Mynach, yng nghwm Rhymni wrth galon cynlluniau a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Caerffili i wella iechyd a gofal cymdeithasol i'r boblogaeth leol. Bydd agoriad y cyfleuster newydd hwn yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau ysbyty yn y Fwrdeistref gael eu rhesymoli a'u moderneiddio.

Mae'r Ysbyty Cyffredinol Lleol, wrth ymyl afon Rhymni, yn cynnwys 269 o welyau wedi'u trefnu ar bedair lefel. Am fod angen mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â llifogydd posibl rhoddwyd cyfle unigryw i leoli'r maes parcio o dan y prif adeilad a thrwy hynny osgoi'r model traddodiadol o ysbyty yn sefyll yng nghanol maes parcio. Yn ganolog i ddatblygiad yr ysbyty mae'r ffaith bod pob ystafell wely yn un sengl gydag ystafell ymolchi sy'n helpu i sicrhau y darperir gofal o safon uchel, a lleihau cyfraddau heintiau yn yr ysbyty ac ymdrin ag anghenion cleifion o ran preifatrwydd ac urddas.

Mae cleifion mewnol wedi'u trefnu'n unedau nyrsio wyth gwely a phob un yn cynnwys gorsaf nyrsio ganolog. Felly mae pob ward o 32 o welyau yn cynnwys pedwar clwstwr a thrwy hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i wahanu o fewn wardiau a rhyngddynt.

Mae gan bob ystafell wely sgriniau gwydr mawr sy'n cynnwys bleindiau sy'n ei gwneud yn bosibl i nyrsys yn yr orsaf nyrsio arsylwi ar gleifion, ond sydd hefyd yn rhoi mwy o reolaeth i gleifion dros eu preifatrwydd.

Mae'r ystod o wasanaethau yn cynnwys :

- Canolfan Frys Leol sy'n darparu gwasanaeth integredig saith diwrnod yr wythnos.
- Uned Mân Anafiadau sydd ar gael 24 awr y dydd.
- Gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau.
- Uned Asesu Achosion Brys.
- Ward feddygol acíwt gyda gwelyau wedi'u monitro ar gyfer cleifion brys.
- Clinigau mynediad cyflym ar gyfer cleifion brys.
- Amrywiaeth eang o glinigau arbenigol a chyffredinol i gleifion allanol.
- Sganiwr CT a MRI.
- Ystafell Endosgopi a chyfleuster achosion dydd meddygol.
- Theatrau llawdriniaeth lle cynhelir llawdriniaethau achosion dydd ac arhosiad byr.
- Gofal cyn geni ac ôl-eni Meddygon Ymgynghorol a Bydwragedd.
- Gwelyau adsefydlu dwys.

# Pennod 3 – Cyflawni’r Cynllun



# 3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn egluro sut y byddwn yn rhoi'r Cynllun ar waith er mwyn cyflawni'r nodau a amlinellwyd ym mhennod 1. Tynna sylw at y prif randdeiliaid a'u rolau, gan gynnwys:

- Y partneriaethau sy'n ofynnol er mwyn datblygu, cyflawni a chynnal y Cynllun yn llwyddiannus.
- Y strwythurau, y cyfrifoldebau a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sut y byddwn yn rheoli asedau'r sector cyhoeddus er mwyn cael y gwerth gorau ohonynt.
- Y camau a gymerwn o ran datblygu cynaliadwy, y system gynllunio a'r amgylchedd sy'n ymwneud â seilwaith a datblygiadau yn y dyfodol.

Mae'r bennod hon hefyd yn amlinellu ein dull gweithredu a'n polisi o ran seilwaith ariannu ac, yn arbennig, ein dull datblygol o ariannu mewn ffordd arloesol.

# 3.2 Gweithio gyda'n partneriaid

## 3.2.1 Y sector preifat

Mae sawl haen i'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat ac mae'n hanfodol i dwf economi Cymru. Mae'n cynnwys ystod eang o gydberthnasau:

- **Cwsmeriaid** – fel defnyddwyr a buddiolwyr economaidd datblygiadau seilwaith cyhoeddus.
- **Cyflawnwyr** – fel arianwyr cynlluniau seilwaith mawr a gyflawnir drwy amrywiaeth o ddulliau ariannu arloesol, fel cyflenwyr neu adeiladwyr asedau, neu fel rheolwyr gwasanaethau a ddarperir drwy ein seilwaith.

Mae'r sector preifat yn bartner allweddol o ran diwallu anghenion seilwaith Cymru dros y degawdau i ddod. Rydym yn anelu at hwyluso mwy o fuddsoddiad drwy sicrhau, naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd â phartneriaid, fod y rhwydweithiau seilwaith ategol ar waith, megis cyfathrebu o ran trafnidiaeth a chysylltiadau'r grid cenedlaethol. Mae buddsoddiadau mawr megis y posibilrwydd o ddatblygu morglawdd Hafren – cynnig sy'n cael ei ystyried gan y sector preifat ar hyn o bryd heb unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus – prosiect sawl £biliwn a allai sefydlu diwydiant ynni newydd ar hyd arfordir De Cymru, gan arwain at fuddion economaidd sylweddol. Mae'r gwaith o ddatblygu Ynys Môn fel Ynys Ynni yn ddatblygiad allweddol arall a fydd yn esgor ar fuddsoddiad preifat mawr yn seilwaith y Gogledd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru yn cael y fantais economaidd ddeilliedig fwyaf posibl o'r fath fuddsoddiad mawr.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau, yn ogystal â'r Cynllun sy'n darparu'r trosolwg strategol o fuddsoddi allweddol mewn seilwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, ein bod, lle bynnag y bo modd, yn nodi datblygiadau seilwaith arfaethedig yn y sector preifat. Bydd hyn yn gwella ein gallu i gydgysylltu a chydblethu datblygiadau yn y sector cyhoeddus yn ogystal â gwella amlygrwydd 'y llif o brosiectau arfaethedig yng Nghymru' ar gyfer cwmnïau yn y sector preifat a fydd yn helpu i gyflwyno seilwaith newydd yng Nghymru.

### 3.2.2 Cwmnïau cyfleustodau

Mae rhwydweithiau cyfleustodau yn adnoddau sylfaenol sy'n hanfodol ar gyfer economi gynaliadwy a ffyniannus – nawr ac yn y dyfodol. Caiff asedau telathrebu, nwy, trydan a dŵr oll eu rheoli gan y sector preifat o fewn fframweithiau rheoliadol a bennwyd gan y Llywodraeth.

Er mwyn llunio darlun cynhwysfawr o seilwaith Cymru, asedau cyfredol, galw yn y dyfodol a phroblemau posibl, mae angen i ni ddeall cynlluniau presennol darparwyr cyfleustodau a'u cynlluniau at y dyfodol. Er enghraifft, bydd twf y sector cynhyrchu ynni yng Nghymru yn dibynnu ar allu'r rhwydwaith Grid Cenedlaethol i ymdopi ag ymdrin â mwy o adnoddau. Rydym yn cydnabod bod cyfleoedd cydweithredu i'w datblygu rhwng darparwyr yn ogystal â'r Llywodraeth.

### 3.2.3 Llywodraeth Leol yng Nghymru

Mae llywodraeth leol yn brif randdeiliad sydd â buddiant allweddol yn seilwaith Cymru, a chyfrifoldeb am elfen sylweddol ohono, gan gynnwys cyflwyno a chynnal a chadw rhwydweithiau trafnidiaeth (ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd), ysgolion, elfennau o ofal sylfaenol, tai, llifogydd a gwastraff.

Yn 2011-12, rhagwelir bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwario tua £1bn ar fuddsoddi cyfalaf. Felly, mae gan lywodraeth leol asedau pwysig iawn yn y sector cyhoeddus, o ran gwerth ac ansawdd.

Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru yn deall pwysigrwydd cydweithio, fel rhan o Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus a chyflawni Adolygiad Simpson, i ddarparu gwasanaethau a seilwaith allweddol, gan gynnwys:

- Darparu seilwaith addysg sy'n addas at y dyfodol drwy'r Rhaglen Ysgolion Trosiannol a'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Datblygu dull arloesol a chydweithredol o reoli a thrin gwastraff drwy'r Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff.
- Buddsoddi yn y gwaith o wella ein rhwydwaith ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd drwy Fenter Leol Benthyciadau gan y Llywodraeth.
- Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Dechrau'n Deg gan ddarparu gwell cyfleusterau meithrinfeydd a gofal ar gyfer plant cyn oed ysgol.

Mae'r rhain yn dangos sut rydym yn meithrin ein cydberthnasau gwaith ar hyn o bryd ond mae cryn dipyn yn fwy o gyfleoedd posibl i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, y bwriadwn fanteisio arnynt dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae llywodraeth leol yn bartneriaid cyflawni allweddol a bydd esblygiad ein cydberthynas waith yn hanfodol i lwyddiant yn y dyfodol wrth i'r Cynllun ddatblygu ac aeddfedu.

### 3.2.4 Sector cyhoeddus ehangach Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydweithio â phob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith y partneriaid cyflawni allweddol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith mae'r GIG, y sector Addysg Bellach a'r sector Addysg Uwch, a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r asiantaethau a fydd yn ffurfio'r Un Corff Amgylcheddol.

### 3.2.5 Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eisoes yn bartneriaid allweddol o ran buddsoddi mewn tai – hynny yw adeiladu tai cymdeithasol newydd a hefyd wella tai presennol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i wella tai, ond byddwn hefyd yn creu cyfleoedd newydd i ddefnyddio cyfleusterau benthyca Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn rhoi hwb i'r buddsoddiad mewn tai a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

### 3.2.6 Llywodraeth y DU

Mae'n bwysig cydweithredu â Llywodraeth y DU lle bynnag y bo modd er mwyn achub ar y cyfle i fuddsoddi mewn seilwaith lle y bo'n fuddiol i'r ddwy ochr drwy:

- **Seilwaith a rennir** – yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, mae Cymru wedi'i hintegreiddio â Lloegr i raddau sylweddol – mae tua 90% o boblogaeth Cymru yn byw llai na 50 milltir o Glawdd Offa. Rhydd hyn gyfleoedd naturiol i rannu gwasanaethau a seilwaith.
- **Cydweithio ar seilwaith nad yw wedi'i ddatganoli** – ceir sectorau pwysig o seilwaith yng Nghymru nad ydynt wedi'u datganoli, yn enwedig cyfleusterau ynni mawr a'r rheilffyrdd. Mae angen i ni weithio'n agos â Llywodraeth y DU yn y sectorau hyn er mwyn sicrhau bod y seilwaith cywir yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Ymhlith y meysydd allweddol yr eir i'r afael â hwy ar y sail hon mae trydaneiddio Cledrau'r Cymoedd a datblygiadau o ran Wylfa.
- **Nodi cyfleoedd i Gymru ddiwallu anghenion seilwaith y DU** – gallai Cymru o bosibl ddiwallu rhai o anghenion seilwaith y DU a nodwyd yng Nghynllun Seilwaith Cenedlaethol y DU (Tachwedd 2011), yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â phorthladdoedd a meysydd awyr, cynhyrchu ynni, a chyflenwi dŵr.

Drwy ddatblygu'r Cynllun fel canolbwynt ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, byddwn yn gallu cynnig gwell gwybodaeth, llywio mwy o benderfyniadau strategol, creu cyfleoedd a chaniatáu ar gyfer un pwynt lobïo hyddysg cryf wrth negodi materion seilwaith strategol â Llywodraeth y DU.

Rydym yn falch o weld bod y Canghellor wedi nodi ei fwriad yn Natganiad yr Hydref 2011 i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu ateb i'r tagfeydd ar hyd yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru. Bellach, caiff yr opsiynau manwl ar gyfer rhyddhau'r pwysau ar y llwybr strategol allweddol hwn eu hystyried gyda Llywodraeth y DU.

### 3.2.7 Gweinyddiaethau datganoledig eraill

Mae Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Rydym wedi dysgu o'u profiadau ac adeiladwn arnynt er mwyn sicrhau bod gennym Gynllun sy'n diwallu anghenion Cymru yn y ffordd orau. Ymgysylltwn yn rheolaidd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar lefel Weinidogol a lefel swyddogion er mwyn rhannu profiadau a dysgu wrth i'n cynlluniau seilwaith esblygu.

Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, a hynny ar lefel Gweinidogion a lefel swyddogion, er mwyn rhannu profiadau a gwybodaeth wrth i'n cynlluniau seilwaith esblygu.

### 3.2.8 Undeb Ewropeaidd

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru gryn brofiad o gydweithio er mwyn cyflawni rhaglenni â nodau cyffredin. Gan adeiladu ar hyn, datblygir rhaglenni'r UE newydd ar gyfer 2014-2020 mewn ymgynghoriad â phartneriaid ledled Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, gyda'r nod o weld y rhaglenni newydd yn dechrau'n brydlon yn 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar raglenni'r UE yng Nghymru, gan gynnwys drwy ddefnyddio offerynnau ariannol arloesol megis JESSICA a'i gwneud hi'n haws i sefydliadau yng Nghymru gael budd o raglenni'r UE eraill megis Cysylltu Ewrop (seilwaith rhwydwaith yr UE) a Gorwel 2020 (ymchwil ac arloesi).

### 3.2.9 Partneriaid cymdeithasol a'r Trydydd Sector

Mae gan bartneriaid cymdeithasol a'r trydydd sector ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o hyrwyddo buddiannau cyflogeion a busnesau yng Nghymru, gwella lles ein cymunedau a hyrwyddo cyfranogiad a dealltwriaeth gymunedol o ran materion lleol a chenedlaethol ehangach. Mae denu Arian Ymddiriedolaeth a ffynonellau buddsoddi allweddol fel rhan o waith datblygu cydweithredol a chymunedol yn elfen allweddol o'r Sector hwn.



## 3.3 Strwythurau, cyfrifoldebau a phrosesau llywodraethu Llywodraeth Cymru

### 3.3.1 Dyrannu adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith

Gweinidogion Cymru sy'n pennu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, sy'n llywio'r penderfyniadau ynghylch gwariant a nodir yn y Gyllideb flynyddol. Manylir ar ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol yn y Rhaglen Lywodraethu[11], a gyhoeddwyd ym mis Medi.

Dyrennir cyllidebau cyfalaf i Weinidogion fel rhan o'r broses gyllideb. Creffir arnynt ac fe'u cymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gweinidogion Portffolio sy'n gyfrifol am awdurdodi gwariant o'u cyllidebau a sicrhau eu bod wedi ymrwymo'n briodol i gyflawni amcanion ein Rhaglen Lywodraethu.

[11] http://cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/?skip=1&lang=cy

Nodir dyraniadau cyfalaf ar gyfer 2012/13, fel y nodwyd yng Nghyllideb Derfynol Rhagfyr 2011, isod.

| | **£m** |
|---|---|
| Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 240.6 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau (gan gynnwys trafnidiaeth) | 261.6 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 89.5 |
| Addysg a Sgiliau | 161.3 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 61.6 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 294.6 |
| Gwasanaethau canolog a Materion gweinyddol | 28.4 |
| Cronfa wrth gefn[12] | 94.3 |
| **Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **1232.0** |

Yn hanesyddol, gwnaed penderfyniadau ynghylch prosiectau buddsoddi o fewn Llywodraeth Cymru gan yr adran berthnasol. Pennwyd cyllidebau cyfalaf yn y broses gyllidebol flynyddol ac mae pob adran wedyn wedi defnyddio ei gweithdrefnau ei hun i werthuso prosiectau penodol a phenderfynu arnynt.

Ers 2008-09, bu proses drawsadrannol o ddyrannu cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn uniongyrchol i brosiectau a rhaglenni, i ddechrau drwy'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol – dwy gyfran yn cwmpasu 2008-09 i 2010-11 – ac yna drwy'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog – dau gam yn cwmpasu 2011-12 i 2013-14. Ers 2008-09, dyrannwyd tua £700m drwy'r ddwy gronfa hyn, sy'n 7.4% o gyfanswm cyllideb cyfalaf ddyranedig Llywodraeth Cymru yn y cyfnod hwnnw o tua £9.5bn.

**Gweithdrefnau newydd i helpu i ddyrannu adnoddau mewn ffyrdd mwy strategol**

Byddwn yn ategu prosesau adrannol ac yn adeiladu ar ddulliau gweithredu blaenorol drwy atgyfnerthu gweithdrefnau trawsadrannol, gan gynnwys system werthuso fwy cadarn a chyson a graddio opsiynau buddsoddi ynghyd â sefydlu Pwyllgor Buddsoddi Strategol newydd i gefnogi penderfyniadau Gweinidogion. Caiff y gweithdrefnau newydd hyn eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch dyrannu tua £250m o gronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd ar gael yn 2013-14 a 2014-15. Manylir ar hynny yn yr Hydref. Bydd y Pwyllgor Buddsoddi Strategol hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran cynghori Gweinidogion ar ddatblygiad dulliau ariannu arloesol newydd.

## 3.3.2 Ein dull o gyflawni Sicrwydd Busnes a Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau

Cyflawni'r gwerth gorau posibl am arian yw'r nod craidd wrth reoli'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ein buddsoddiadau. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn defnyddio arfer gorau cadarn i bennu cwmpas a chynllunio ein buddsoddiadau mewn modd eglur o ran yr hyn rydym am ei gyflawni ac i sicrhau bod y buddsoddiadau hynny yn cael eu cyflawni'n ddidrafferth. Disgrifiwn ein dull o wneud hyn fel dwy elfen ar wahân ond sy'n gorgyffwrdd – Sicrwydd Busnes a Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau.

[12] Mae £50m o'r gronfa gyfalaf wrth gefn eisoes wedi'i ddyrannu i gyllidebau Gweinidogion, fel y cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011. Nodir sut y caiff gweddill cronfeydd cyfalaf wrth gefn 2012-13 eu dyrannu ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Mae **Sicrwydd Busnes** yn golygu **'gwneud y pethau cywir ar yr adeg gywir'** ac mae a wnelo â phennu cwmpas, cynllunio a chaffael ein rhaglenni a'n prosiectau buddsoddi a rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y gwariant.

Y **Model Pum Achos** yw'r adnodd arfer gorau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi cynigion gwariant. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried y canlynol yn fanwl:

- Yr achos strategol – cyweddu strategaethau ac amcanion buddsoddi clir.
- Yr achos economaidd – gwerth am arian.
- Yr achos masnachol – a yw'n ddeniadol i'r farchnad a threfniadau caffael.
- Yr achos ariannol – fforddiadwyedd.
- Yr achos rheoli – pethau i'w cyflawni a chynlluniau cyflawni.

Datblygir cynigion cymhleth mawr ar dri cham sef:

- Yr Achos Amlinellol Strategol (SOC) – sy'n gwneud yr achos dros newid.
- Achos Busnes Amlinellol (OBC) – sy'n adeiladu ar y SOC er mwyn cadarnhau'r datrysiad sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian.
- Achos Busnes Llawn (FBC) – sy'n adeiladu ar yr OBC drwy dywys y dewis opsiwn drwy'r broses gaffael, gan roi cynlluniau cyflawni ar waith a darparu manylion costau terfynol y cynllun.

Mae'r holl gamau hyn yn cynrychioli toriad lle y gellir rhoi'r gorau i'r cynnig a ddatblygir os nad yw'n cyweddu'n strategol mwyach; os nad yw'n cynnig gwerth am arian neu os nad yw'n fforddiadwy neu os na ellir ei gyflawni.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun, byddwn yn cyflwyno dull safonol o gyflawni Sicrwydd Busnes o fewn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, gan ddarparu hyfforddiant ac arweiniad a chymorth i wella gallu ac adnoddau. Caiff canllawiau newydd ar arfer gorau ym maes Sicrwydd Ansawdd a ddatblygwyd gyda Thrysorlys EM, eu cyhoeddi yn fuan.


Mae **Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau** yn golygu **'gwneud pethau'n gywir'** ac mae a wnelo â chyflawni ein rhaglenni a'n prosiectau a rhoi sicrwydd i'r Uwch Swyddog Cyfrifol sy'n arwain y gwaith o gyflawni'r cynllun.

Ymhlith yr adnoddau arfer gorau o ran Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau mae:

- Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus i gyflawni rhaglenni – fframwaith arfer gorau ar gyfer cyflawni rhaglenni cymhleth yn unol â strategaethau hirdymor.
- PRINCE2 i gyflawni prosiectau – strwythur trefniadol diffiniedig ar gyfer rheoli prosiect a thîm rheoli prosiect, gan roi pwyslais ar rannu'r prosiect yn gamau hawdd eu rheoli.
- Adolygiadau Gateway ac archwiliadau iechyd ar gyfer sicrwydd rhaglenni a phrosiectau – asesiad o iechyd polisi, rhaglen neu brosiect ar gamau datblygu allweddol o'u sefydlu i adolygu'r buddiannau a wireddir.

Mae Sicrwydd Busnes a Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn llwyddo i wneud y mwyaf o'r adnoddau prin sydd gennym a chyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru. Dengys Diagram 2 y gydberthynas rhwng yr adnoddau arfer gorau a'r camau cyflawni allweddol.

Diagram 2 – Adnoddau arfer gorau a chamau cyflawni allweddol




**Sicrwydd Busnes**
**'Gwneud y pethau cywir ar yr adeg gywir'**
**Cydblethu'n strategol**

- Pennu cwmpas a chynllunio cynigion
- Arfarnu opsiynau a nodi'r ateb gorau
- Cadarnhau gwerth am arian
- Dyrannu ac ymrwymo adnoddau
- Adnoddau – Model Pum Achos
- Pwyntiau ymyrryd ffurfiol – AO yn cymeradwyo SOP, SOC, OBC, FBC

**Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau**
**'Gwneud pethau'n gywir'**

- Sicrwydd cyflawni – sicrhau bod y cynllun yn cyflawni'r canlyniadau cytûn
- Rheolaeth a'r gallu i ymyrryd
- Adnoddau – MSP, PRINCE2, Adolygiadau Gateway

Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogion arweiniol proffesiynol ar gyfer Sicrwydd Busnes a Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r dulliau gweithredu hyn a rhoi arweiniad a chymorth i adrannau fel y bo'n briodol.

Ceir manylion am y camau nesaf o ran gwella Sicrwydd Busnes a Sicrwydd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau o fewn Llywodraeth Cymru ym Mhennod 4.

## 3.4 Defnyddio ein hasedau'n well

Mae'r sefyllfa sydd ohoni yn un lle y gallai'r sector cyhoeddus gael ei ddisgrifio'n brin o arian ond yn llawn adnoddau. Mae'n dod yn fwyfwy pwysig i reoli asedau eiddo'n effeithiol pan fo cyllidebau'n dynn ac mae'n rhaid i ni gysoni ein sail asedau yn well er mwyn helpu'r busnes a gweithio'n galed i gyflawni arbedion effeithlonrwydd – buddsoddi lle y bo'n briodol, rhesymoli lle y bo angen a sicrhau'r arbedion mwyaf drwy ddefnyddio ystadau'n well.

Mewn adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru, nodwyd bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £500m bob blwyddyn yn cynnal tir ac adeiladau sy'n werth tua £12bn. Cafwyd nad oedd tir ac adeiladau'r rhan fwyaf o sefydliadau yn bodloni gofynion newidiol nac yn cyflawni'r gwerth gorau posibl am arian.

Mae a wnelo rheoli asedau eiddo mewn ffordd strategol â chysoni ein sail asedau â nodau ac amcanion corfforaethol a sicrhau bod ein sail asedau tir ac adeiladau wedi'i strwythuro yn y ffordd orau bosibl. Ein nod yw gwarchod holl seilwaith cyhoeddus Cymru mewn ffordd gyfrifol – gan weithio i feithrin gwybodaeth ganolog am holl asedau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y rheini nas rheolir gan y sector cyhoeddus – eu cyflwr a'r rhwymedigaethau a'r goblygiadau cysylltiedig. Gallwn wella'r broses o reoli ein sail asedau genedlaethol drwy gydweithredu o'r fath.

### 3.4.1 Manteision Rheoli Asedau'n Dda

Drwy reoli asedau'n dda gallwn sicrhau'r manteision canlynol:

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well drwy well eiddo a chydleoli gwasanaethau a dwyn ynghyd ddefnydd tebyg o fewn yr un eiddo, yn hytrach na'u darparu ar wahân.
- Gwell cynhyrchiant, newidiadau i ddiwylliant corfforaethol a hwyluso newidiadau corfforaethol.
- Cadw eiddo mewn cyflwr da.
- Rhyddhau cyfalaf i'w ailfuddsoddi neu i leihau dyledion.
- Caffael strategol arloesol.

### 3.4.2 Meincnodi

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol – **Cyflwr yr Ystad**[13] – sy'n sôn am effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yr ystad weinyddol. Mae'r ddisgyblaeth sydd ynghlwm wrth lunio'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad wedi ein galluogi i lunio darlun manwl a hyddysg o'r ystad a myfyrio ar ein perfformiad fel rheolwyr ystad.

Er mwyn mesur a llywio gwelliannau, rhaid cael data manwl gywir ar berfformiad yr ystad. Mae data o'r fath yn ei gwneud hi'n bosibl i gymharu ystad weinyddol Llywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn ac â'r sector preifat a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

### 3.4.3 Cydweithredu

Mae angen clir i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydweithredu o ran yr ystad eiddo er mwyn cyflawni targedau ariannol a dyheadau darparu gwasanaethau, drwy gydweithredu o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau.

Mae eiddo'r sector cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus a gellir ei ddefnyddio fel catalydd i resymoli gwasanaethau. Gallai sefydliadau'r sector cyhoeddus ddod at ei gilydd i wella'r broses o gynllunio a gweithredu eu heiddo a helpu i ddarparu gwasanaethau ledled Cymru gan sicrhau mwy o fuddiannau a defnyddio llai o adnoddau.

Caiff y gwaith o reoli asedau ar y cyd yng Nghymru ei arwain gan lif gwaith Caffael a Rheoli Asedau Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, a gadeirir gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau.

Mae'r **Gweithgor Asedau Cenedlaethol** yn gweithredu ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella gwasanaethau drwy nodi, hwyluso a chefnogi'r gwaith o gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arloesi o ran gweithredu'r ystad gyhoeddus a'i hasedau cyfatebol.

13 http://cymru.gov.uk/about/civilservice/facts/ourbuildings/?lang=cy

Nod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yw creu strwythur i helpu i sicrhau bod yr ystad gyhoeddus, gan gynnwys tir, yn cael ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau a chyflawni gwerth am arian mewn ystod eang o asedau drwy:

- Annog a chefnogi cydweithio rhwng sefydliadau eiddo'r sector cyhoeddus er mwyn nodi cyfleoedd strategol.
- Annog rhannu data a chynlluniau ar gyfer y dyfodol i helpu i lywio'r broses o ddadansoddi gwybodaeth sy'n ategu gwaith cynllunio strategol a gweithredol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd posibl sydd i'r sector cyhoeddus rannu gwybodaeth am asedau (h.y. asedau â photensial o ran gwasanaethau a rennir, defnydd cymunedol neu waredu cydgysylltiedig).
- Sicrhau bod y sector cyhoeddus yn cymryd rhan mewn rhaglen i ddatblygu adnodd gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer tir ac eiddo i Gymru drwy fabwysiadu data asedau hygyrch, drwy e-PIMS.
- Nodi prosiectau peilot i helpu i bennu cwmpas a chyflawni prosiectau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar eiddo, a fydd yn hwyluso gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.
- Cyflwyno adnoddau i hwyluso defnydd mwy effeithlon o asedau'r sector cyhoeddus e.e. y Protocol Trosglwyddo Tir.

Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni'r canlynol:

- **Cronfa ddata Tir ac Eiddo'r Sector Cyhoeddus ar gyfer Cymru Gyfan** – y nod, wrth ei datblygu, oedd ei gwneud hi'n bosibl i wybodaeth eiddo lefel uchel gael ei chofnodi gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru a bod ar gael iddynt. O ganlyniad iddi, mae modd gweld ystad gyfan y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys asedau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth y DU a bydd yn helpu i nodi cysylltiadau allweddol, darpar bartneriaid a chyfleoedd i gyd-ddatblygu, cydleoli, rhannu asedau a rhesymoli asedau mewn ffordd strategol.
- Y **gofrestr Eiddo Gwag** – gan gynnwys y gallu i chwilio am eiddo gwag presennol, yn y dyfodol neu rai posibl sydd ar gael drwy gronfa ddata e-PIMS a'i restru ochr yn ochr â bwletinau misol am eiddo gwag a roddir i bob corff sydd wedi'i gofrestru'n ffurfiol ar y gronfa ddata. Pan fydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn nodi bod ased dros ben, disgwylir iddynt ddechrau marchnata'r eiddo i'r sector cyhoeddus drwy ePIMS. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i wella'r gronfa ddata ymhellach drwy annog ei defnydd fel adnodd i helpu'r sector cyhoeddus i gydweithio a sicrhau gwell gwerth am arian.
- **Y Protocol Trosglwyddo Tir[14]** – canllaw arfer gorau ar gyfer trosglwyddo neu waredu tir rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd ei ddefnydd yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau'r amser a'r gost sy'n gysylltiedig â'r broses o drosglwyddo, defnyddio a gwaredu'r ystad gyhoeddus rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru drwy nodi materion a rhwystrau cyllidebu/cyfrifyddu a allai godi o'r fath drosglwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys deall yn glir y cyfyngiadau penodol a wynebir gan gyrff amrywiol o ran gwaredu asedau. Pan gaiff eiddo ei farchnata ar ePIMS, lle y dangosir diddordeb gan sefydliad arall yn y sector cyhoeddus, disgwylir i'r trafodyn gael ei wneud drwy'r Protocol Trosglwyddo Tir. Mae'r Protocol ar gam cynnar a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau ei fod yn datblygu ac yn esblygu i fod o'r budd mwyaf posibl.

[14] http://cymru.gov.uk/topics/improvingservices/pslg/nwp/assetprocure/landtransfer

## Astudiaeth Achos: Grŵp Asedau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd



Nod y Grŵp Asedau, a sefydlwyd yn wreiddiol o dan Fwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Caerdydd fel rhan o gymysgedd o weithgareddau i integreiddio gwasanaethau, oedd sicrhau budd i'r cyhoedd o reoli eiddo ac asedau cyhoeddus mewn ffordd gydgysylltiedig.

Fe'i mabwysiadwyd fel un o'r prosiectau peilot o dan yr hen Weithgor Asedau Cenedlaethol fel rhan o Raglen Effeithlonrwydd ac Arloesi Llywodraeth Cymru. Aeth y 12 o sefydliadau cyhoeddus partner ati i gynllunio dull integredig o resymoli asedau, eu gwaredu, rhannu adeiladau a nodi cyfleoedd datblygu economaidd a chymdeithasol. Y nod oedd creu a chyflawni mwy o werth i'r BGLl na'r hyn y gellir ei wneud gan y sefydliadau unigol yn gweithio ar eu pennau eu hunain.

Ymhlith y sefydliadau partner mae Cyngor Dinas Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, BIP Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Morgannwg (bellach wedi ymddiswyddo oherwydd y rhan a chwaraeir ganddi ym Mhrosiect Cwm Taf), Prosiect Sector Gwirfoddol Caerdydd.

Fel adolygiad peilot cam cyntaf, nodwyd ardal Treganna (ardal a chymuned canol dinas yng ngorllewin Caerdydd) i adolygu asedau'r sector cyhoeddus. Manylir ar y canfyddiadau cychwynnol isod.

- Swyddogaeth cefn swyddfa – y maes mwyaf ffyniannus a lleiaf cymhleth o ran cyfleoedd yn ôl pob tebyg. Yn ôl yr adolygiad peilot, mae potensial i gyflawni cryn arbedion effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r ystad gyhoeddus.
- Ar gyfer y pum partner a nodwyd a all fod â gofyniad parhaus am gynrychiolaeth o fewn Treganna naill ai mewn rôl weinyddol (cefn swyddfa) neu'n darparu gwasanaethau (rheng flaen). Dengys dadansoddiad dangosol, drwy gydweithredu a rhesymoli, y gellid arbed costau rhedeg o tua 26%.
- Cafodd nifer o asedau dros ben posibl eu nodi hefyd, a allai unwaith eto esgor ar dderbyniadau cyfalaf sylweddol.
- Bydd cyfleoedd i ychwanegu gwerth drwy gydweithredu, gan gynnwys cyflawni gwaith datblygu ac adfywio ar gam cynharach.
- Rhaid hefyd reoli disgwyliadau. Nid yw sail asedau sylweddol yn y sector cyhoeddus yn cyfateb i ganlyniadau effeithlonrwydd uniongyrchol yn awtomatig. Ar hyn o bryd, mae hyn yn rhannol oherwydd gwahanol swyddogaethau darparu gwasanaethau a thanlinellodd adolygiad o'r sefydliadau partner sef 'Asset Plans and Estate Strategies' nad oedd un yn cynnwys adran ar 'gydweithredu'. O ystyried yr uchod, bydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn gynyddrannol.
- Byddai datblygu 'cynlluniau darparu gwasanaethau integredig' yn cyflymu'r broses o gyflawni arbedion effeithlonrwydd o'r sail asedau.

## 3.5 Caffael yn well

Diffinnir caffael fel y broses o gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y cwsmeriaid a'r defnyddwyr gwasanaethau, tra'n sicrhau gwerth am arian drwy gydol oes y cynnyrch gan gynnwys ei waredu.

### 3.5.1 Polisi Caffael

Mae polisi caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ceisio cyflawni'r gwerth mwyaf posibl o'r cydwario. Mae hyn yn golygu cael gwerth am arian yn ei ystyr ehangaf drwy ystyried ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel rhan o'r broses gaffael.

Y mentrau polisi allweddol yw:

- Polisi Buddiannau Cymunedol.
- "Agor Drysau – y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig" a'r canllawiau cysylltiedig ar weithio gyda'r Trydydd Sector ac ymgysylltu â Busnesau a Gynorthwyir.
- Asesiad Risg Cynaliadwyedd.
- Grŵp Llywio'r Strategaeth Caffael Gwaith Adeiladu.
- Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID).
- Hyrwyddo amlygrwydd a hygyrchedd cyfleoedd contract.

Mae gwaith Tîm Polisi Gwerth Cymru yn canolbwyntio ar ymgorffori arfer da yng ngwaith caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru, cefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ystyried 'buddiannau cymunedol' wrth gaffael yn y sector cyhoeddus a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus fel bod cyfleoedd contract ar gael i bawb.

### 3.5.2 Polisi Buddiannau Cymunedol

Rydym yn gweithio gydag Adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill megis Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, Sgiliau Adeiladu a sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gytuno ar fesurau i atgyfnerthu'r Polisi Buddiannau Cymunedol. Drwy nodi llif o waith, caiff y farchnad wybod am gyfleoedd contract newydd yn gynnar. Mae hyn yn cyfateb yn agos â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r mesurau hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Nodi ffactorau sbarduno, megis arian grant, i sicrhau y caiff buddiannau cymunedol eu hystyried ar raddfa ehangach mewn perthynas â phob contract adeiladu a gwasanaeth sy'n werth dros £2m.
- Cymorth 'Siop Un Stop' i ddarpar gontractwyr i ddod o hyd i bobl ddiwaith/dan anfantais.
- Rhoi canllawiau ar flaenoriaethau hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghymru.
- Adolygu cwmpas cyfarwyddebau newydd yr UE i atgyfnerthu polisi a datblygu cyngor a chanllawiau cyfreithiol pellach.
- Monitro canlyniadau, edrych ar dueddiadau ac arfer gorau a chymharu canlyniadau perthynol.

Byddwn yn sicrhau bod polisi Buddiannau Cymunedol yn rhan o gyflawni prosiectau'r Cynllun er mwyn gwireddu'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn.

I helpu i ddatblygu'r polisi hwn ymhellach, byddwn yn defnyddio'r adnodd mesur Buddiannau Cymunedol ym mhob prosiect. Bydd yn nodi effeithiolrwydd y polisi ac yn helpu i amlinellu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol.

Hyd yma, mae saith prosiect wedi cwblhau'r Adnodd Mesur i nodi gwerth eu contractau:–

| Teitl y Prosiect | Gwerth y Contract | Incwm i Drigolion Cymru | Refeniw i Fusnesau yng Nghymru | Cyfraniad at fusnesau bach a chanolig yng Nghymru | Pobl dan Anfantais a gafodd help i gael gwaith | Wythnosau hyfforddiant a roddwyd i bobl dan anfantais |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd Osgoi Gartholwg RhCT | £67m | £26.4m | £35.6m | £29.2m | 71 | 536 |
| Cynllun Ffordd yr A465 Llywodraeth Cymru (Rhan 3) | £3.9m | £2.6m | £850,000 | £550,000 | 0 | 0 |
| Fframwaith Tai o Ansawdd Sir Gaerfyrddin | £53.5m | £16.2m | £33.9m | £29.9m | 62 | 8951 |
| Cynllun Ffordd yr A40 Llywodraeth Cymru | £31.2m | £10.2m | £16.2m | £11.8m | 0 | 129 |
| Blwyddyn Prosiect 2009 Glamorgan Capita Consultancy | £8.4m | £3.7m | £113,627 | £113,672 | 8 | 62 |
| Blwyddyn Prosiect 2010 Glamorgan Capita Consultancy | £11.1m | £5m | £225,211 | £225,211 | 9 | 108 |
| Y Gweithfeydd – Swyddfa Gofnodion Glynebwy | £10.4m | £0.6m | £8.7m | £8.2m | 30 | 66 |
| **Cyfanswm** | **£185.5m** | **£64.7m** | **£95.5m** | **£79.9m** | **180** | **9852** |

## Nodiadau

i) Cyfanswm cost y contract a dalwyd gan sefydliad yn y sector cyhoeddus.

ii) Faint o werth y contract a wariwyd ar gostau staff a llafur i bobl yn byw yng Nghymru.

iii) Faint o werth y contract yr aeth y prif gontractiwr yn ei flaen i'w wario gyda busnesau yng Nghymru.

iv) O'r swm a wariwyd gyda busnesau yng Nghymru, faint o werth y contract a wariwyd gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

v) Nifer y bobl ddiwaith a gafodd help i ddychwelyd i weithio.

vi) Sawl wythnos o hyfforddiant a roddwyd i bobl ddiwaith a gafodd eu recriwtio, ynghyd â phobl eraill dan anfantais yn y cymunedau lleol. Mae hyfforddiant yn cynnwys prentisiaethau, NVQs, treialon gwaith, profiad gwaith, ac ati.

### 3.5.3 Grŵp Llywio'r Strategaeth Caffael Gwaith Adeiladu

Cafodd Grŵp Llywio'r Strategaeth Caffael Gwaith Adeiladu ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r diwydiant adeiladu yng Nghymru ac mae'n gweithio ar y mentrau canlynol:

- Llunio strategaeth gaffael gyffredin ar gyfer gwaith adeiladu sy'n seiliedig ar sicrhau'r gwerth mwyaf am arian drwy brosiectau adeiladu cyhoeddus.
- Llunio blaenraglen o brosiectau adeiladu arfaethedig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sydd o dan drothwy'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Ymgorffori prosesau cyffredin gan gynnwys SQuID ar y cam cyn cymhwyso ac argymhellion yr adolygiad Gwersi a Ddysgwyd o gytundebau fframwaith gwaith adeiladu.
- Gwella gallu ac adnoddau timau caffael yn y sector cyhoeddus drwy ddarparu'r hyfforddiant a'r adnoddau perthnasol.
- Gwella Taliadau Teg drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan er mwyn diogelu buddiannau ein contractwyr lleol, llai o faint.
- Defnyddio'r cydfuddsoddiad gan y sector cyhoeddus mewn gwaith adeiladu fel sbardun i sicrhau Buddiannau Cymunedol.

Mae gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ran allweddol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod yr ochr gyflenwi yn gallu cael gafael ar gymorth priodol fel bod modd achub ar gyfleoedd contract a'u hennill. Mae'r gwaith o sefydlu Panel y Sector Adeiladu gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi hoelio sylw ar gymorth ochr gyflenwi yn y Sector Adeiladu.

Byddwn yn cynnwys holl ddeilliannau'r Grŵp Llywio wrth gyflawni prosiectau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru er mwyn sicrhau bod gwaith caffael yn seiliedig ar y canlynol:

- Strategaeth gytûn.
- Cyflawni Buddiannau Cymunedol.
- Prosesau cyffredin, syml.
- Timau caffael deallus a medrus.

# 3.6 Sut y byddwn yn ymdrin â Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio

**Cynaliadwyedd** – pobl iach a chynhyrchiol mewn cymunedau cynhwysol a bywiog, sydd ag amgylchedd amrywiol a gwydn ac economi carbon isel ddatblygedig

Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru ac mae wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu. Caiff y camau a gymerwn o ran datblygu cynaliadwy eu cyflwyno yn ein cynllun statudol **Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**.

Yn ein barn ni, datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor sy'n ein helpu i ddiffinio'r llwybr datblygu gorau i Gymru. Gellir crynhoi datblygu cynaliadwy fel y gwaith o sicrhau'r lles neu'r ansawdd bywyd gorau posibl yng Nghymru yn y tymor hwy, o fewn cyfyngiadau amgylcheddol.

Mae hyn yn golygu:

- Buddsoddi ar gyfer yr 'hirdymor' a darparu'r amodau ar gyfer datblygu a fydd yn gallu ymdopi â newidiadau yn y dyfodol ac yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl.
- Ceisio buddsoddiad sydd o fudd yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.
- Sicrhau bod y sawl yr effeithir arnynt yn helpu i lywio buddsoddiad ac yn gallu rhannu'r buddiannau.

Mae Cymru eisoes yn un o'r ychydig wledydd yn y byd sydd â dyletswydd statudol yn ymwneud â Datblygu Cynaliadwy. Byddwn yn atgyfnerthu ein dull gweithredu ymhellach drwy gyflwyno **Bil Datblygu Cynaliadwy** i osod dyletswydd datblygu cynaliadwy arnom ni a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a chreu corff Datblygu Cynaliadwy annibynnol i Gymru. Gallai'r corff hwn hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy yng ngweithgareddau'r sector cyhoeddus a'i brosesau gwneud penderfyniadau.

## 3.6.1 Cynllunio Gofodol

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i lunio cynllun cenedlaethol ar gyfer ein defnydd o adnoddau naturiol hanfodol Cymru, gan gynnwys ynni, gwastraff, dŵr a'r perygl o lifogydd. Fe'i datblygir yn sgil yr ymgynghoriad ar y cynigion a geir yn **Cynnal Cymru Fyw** er mwyn rhoi sail gadarn i wneud penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Yn y cyfamser, Cynllun Gofodol Cymru 2008 sy'n parhau i gyfleu nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl, lleoedd a'r dyfodol mewn cyd-destun gofodol.

Un o ddibenion allweddol cynllunio gofodol yw integreiddio ar draws portffolios Gweinidogol a chydnabod y dylai polisïau a'r modd y cânt eu cyflwyno adlewyrchu gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a daearyddol ledled Cymru – nid oes un ateb i bawb. Byddwn yn sicrhau bod yr ethos hwn o gynllunio gofodol yn rhan o'r Cynllun o'r dechrau wrth feithrin y wybodaeth sydd ei hangen i lywio penderfyniadau buddsoddi mewn seilwaith sy'n genedlaethol strategol.

### 3.6.2 Diwygio cynllunio

Ers datganoli, rhoddwyd polisïau cynllunio cenedlaethol ar waith sy'n dylanwadu ar y modd y cyflawnir y canlynol: datblygu cynaliadwy, adnewyddu economaidd a thai fforddiadwy. Rydym wedi cyflwyno system gynllunio datblygu lleol newydd i wella'r broses o wneud ceisiadau cynllunio. Rydym hefyd wrthi'n ymgynghori ar gynigion i atgyfnerthu rôl datblygu cynaliadwy o fewn y system gynllunio, drwy gyflwyno datganiad clir am y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy, o fewn Polisi Cynllunio Cymru.[15]

Yn hanesyddol, ein ffactorau sbarduno deddfwriaethol fu Biliau'r DU, is-ddeddfwriaeth a pholisi. Mae'r cymhwysedd i lunio ein deddfwriaeth sylfaenol ein hunain yn gyfle newydd pwysig i Gymru ac rydym yn ymrwymedig i gyflwyno Bil Cynllunio yn ystod y tymor hwn o'r Cynulliad.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori Annibynnol i nodi opsiynau i alluogi strwythurau sefydliadol i roi'r system gynllunio ar waith yng Nghymru yn y dyfodol gan ystyried blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Bydd yn:

- Nodi amcanion polisi allweddol y mae'n ofynnol i'r system gynllunio eu cyflawni nawr ac yn y dyfodol.
- Asesu trefniadau cyflawni sefydliadol sy'n bodoli eisoes, gan nodi meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella.
- Cynnig opsiynau ar gyfer rhoi'r system gynllunio ar waith yn y dyfodol, gan gynnwys gwneud cynlluniau a gwasanaethau rheoli datblygu.

Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn sail i lunio Papur Gwyn ar Gynllunio yn ystod 2013.

Ochr yn ochr â gwaith y Grŵp hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adolygiad o'r broses gydsynio ar gyfer pob prosiect ynni adnewyddadwy yng Nghymru a gafwyd ers 2005. Bydd cam cyntaf y gwaith yn pennu cwmpas yr amserlenni cydsynio ar gyfer y prosiectau yng Nghymru, bydd yr ail gam (a'r un olaf) yn cynnwys dadansoddiad astudiaeth achos manwl o brosiectau sydd wedi cael cydsyniad ers 2005. Bwriedir i ganlyniadau'r astudiaeth helpu i nodi unrhyw rwystrau a gwelliannau posibl i'r broses gydsynio (nid dim ond caniatadau cynllunio). Ymdrinnir â'r argymhellion y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu gweithredu mewn sawl ffordd gan gynnwys trefniadau gweithio'r Un Corff Amgylcheddol a'r Bil Cynllunio.

### 3.6.3 Rhaglen Cymru Fyw

Yn draddodiadol, rheolwyd effaith amryw weithgareddau ar yr amgylchedd drwy gyfres o fesurau ar wahân sy'n cyfyngu ar y cyfle i lunio'r atebion mwyaf darbodus ac effeithiol i'r amgylchedd a chymdeithas gyfan, er mwyn mynd i'r afael â phwysau cronnol cymhleth neu ymdrin ag achosion sylfaenol problemau amgylcheddol yn effeithiol. Rydym yn cymryd y camau deddfwriaethol canlynol i ymdrin â'r rhwystrau hyn:

- Mae a wnelo Papur Gwyrdd '**Cynnal Cymru Fyw**' â'r ffordd y rheolwn ein hadnoddau naturiol – gan ganolbwyntio ar eu rheoli yn gyfan gwbl a gweithredu mewn ffordd fwy integredig sy'n cynnig sail glir i fuddsoddi arni.

[15] Daw'r ymgynghoriad i ben ar 25 Mai 2012.

- Yr **Un Corff** – cyfuno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i reoli adnoddau naturiol Cymru a chynnig 'siop un stop' ar gyfer cyngor a phenderfyniadau.

### 3.6.4 Cyflawni Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

Wrth gynllunio ein seilwaith ar gyfer y dyfodol, mae angen i ni roi ystyriaeth gynyddol i sut y gall wrthsefyll pwysau yn y dyfodol. Bydd newidiadau i'n hinsawdd yn y degawdau i ddod yn peri heriau mawr – i'r byd ac i Gymru. Dros yr hanner canrif nesaf, disgwyliwn weld hafau mwy poeth, patrymau glawio newidiol, lefel y môr yn codi'n gynyddol a mwy o dywydd eithafol yn amrywio o sychder i lifogydd i aeafau garw iawn. Mae angen i ni gynllunio ar gyfer hyn nawr ac ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod ein seilwaith yn fwy gwydn ac yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol yn y dyfodol.

Mae'r **Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd** yn nodi ymrwymiadau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae angen cymryd camau i leihau allyriadau er mwyn osgoi effeithiau mwyaf difrifol newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau allyriadau 3% bob blwyddyn, ac mae'r **Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau** yn nodi'r polisïau sydd ar waith i wella effeithlonrwydd ynni, gwneud trafnidiaeth carbon isel yn realiti a meithrin y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau y gall Cymru achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o economi carbon isel.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod po gynharaf y bydd Cymru yn dechrau paratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd y mwyaf parod y byddwn i reoli hinsawdd newidiol. Mae'r **Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu** yn nodi'r camau a gymerwn i gyflawni hyn. Mae'r camau strategol a gymerwn yn canolbwyntio ar ddatblygu Cynlluniau Ymaddasu Sectorol a nodwyd bod seilwaith Cymru yn thema allweddol.

Drwy ddatblygu asedau seilwaith ar gyfer y dyfodol sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy a gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd o'r dechrau, sicrheir bod gennym rwydweithiau sy'n addas at y diben, caiff costau rheoli asedau eu lleihau yn yr hirdymor a chyflwynir rhwydweithiau seilwaith ar gyfer y dyfodol sy'n ategu ffordd o fyw gynaliadwy. Bydd yr ystyriaethau a amlinellir yn y bennod hon wrth wraidd y broses flaenoriaethu a ddilynir gennym wrth ddewis cynigion buddsoddi.

### 3.6.5 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

O ran asesiad amgylcheddol y Cynllun hwn o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, noda Adran 5(5)(b) o'r Rheoliadau fod 'cynllun neu raglen ariannol neu gyllidebol' y tu allan i gwmpas y Ddeddf. Fel cynllun cyllidebol, nid yw Rheoliadau 2004 felly'n gymwys i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. At hynny, nid yw'r Cynllun hwn yn un sy'n ofynnol o dan unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol, reoliadol na gweinyddol yn unol ag Adran 2(1)(c) o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, er bod y Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru y tu allan i gwmpas Rheoliadau 2004, mae Gweinidogion Cymru yn ymrwymedig i Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Rydym wedi nodi lle rydym eisoes wedi defnyddio Asesiad Amgylcheddol Strategol (a thechnegau asesu eraill) i lywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a rhaglenni yn y Cynllun hwn. Bydd angen i gynlluniau a rhaglenni unigol y dyfodol a nodwyd yn y Cynllun hwn gael eu hystyried ar sail teilyngdod. Bydd cynlluniau adnoddau naturiol cenedlaethol yn y dyfodol yn destun AAS.

# 3.7 Sut y byddwn yn ariannu'r hyn sydd i'w gyflawni a dulliau cyllido arloesol

## 3.7.1 Diwygio ariannol

Cyflwynodd y Comisiwn ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru[16] a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2010, ddadl gref dros ddiwygio'r ffordd y caiff Llywodraeth Cymru ei hariannu. Dangosodd y Comisiwn fod Cymru wedi'i thanariannu, yn berthynol i angen, ac argymhellodd y dylai trefniadau ariannu yng Nghymru yn y dyfodol fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o angen perthynol. Argymhellodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gael y pŵer i fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf.

Ym mis Hydref 2011, sefydlodd Llywodraeth y DU Gomisiwn Silk[17] i adolygu trefniadau ariannol a chyfansoddiadol presennol Cymru. Ynghyd â Chomisiwn Silk, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n trafod yr achos o blaid:

- Cyflwyno isafswm ar gyfer y fformiwla a ddefnyddir i bennu cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru i atal y sefyllfa o ran tanariannu rhag gwaethygu.
- Galluogi Llywodraeth Cymru i arfer ei phwerau benthyca presennol i ariannu buddsoddiadau cyfalaf.

Disgwylir i'r trafodaethau hyn orffen mewn da bryd i lywio canlyniad Rhan 1 o Gomisiwn Silk, y disgwylir iddo gyflwyno ei adroddiad ym mis Tachwedd.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae achos cryf dros bennu isafswm a gallu benthyg arian yn syth i ariannu buddsoddiadau cyfalaf, a bydd yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU yn hyn o beth.

## 3.7.2 Cyllido arloesol

Ym marn Llywodraeth Cymru, dylai buddsoddiadau mewn seilwaith cyhoeddus gael eu hariannu'n bennaf drwy wariant cyfalaf uniongyrchol gan y llywodraeth. Rhaid i bob math o fuddsoddiad gael ei ariannu ac mae'n rhaid i unrhyw arian a fenthycir – ni waeth o ble y daw – gael ei ad-dalu â llog. Yn gyffredinol, felly, bydd gwariant cyfalaf uniongyrchol gan y llywodraeth yn cyflwyno seilwaith cyhoeddus mewn ffordd ratach na mathau eraill o fuddsoddiad.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae achos economaidd a gwerth am arian cryf dros roi hwb i'r adnoddau sydd ar gael i'w buddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yng Nghymru uwchlaw cyllidebau cyfalaf y llywodraeth. Rydym eisoes wedi dangos ein hymrwymiad i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf drwy droi bron £100m o'n cyllideb refeniw yn gyfalaf yn 2011-12. Serch hynny, yn yr hinsawdd economaidd a gwariant cyhoeddus sydd ohoni mae angen i ni wneud mwy.

Mae'r achos hwn yn arbennig o gryf ar hyn o bryd am y rhesymau canlynol:

- Y toriadau enfawr o 40% a mwy yn ein cyllideb gyfalaf a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.
- Y ffordd fympwyol y caiff cyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru ei phennu drwy fformiwla Barnett, heb ystyried yr angen i fuddsoddi yng Nghymru.
- Yr angen dybryd i fuddsoddi er mwyn rhoi hwb i swyddi a thwf yn y byrdymor a'r hirdymor.

[16] http://wales.gov.uk/funding/financereform/report
[17] http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

- Y manteision economaidd a'r manteision eraill a ddaw yn sgil cyflawni prosiectau seilwaith y mae eu hangen yn ddirfawr yn gynt a fyddai, fel arall, yn wynebu oedi am sawl blwyddyn, neu efallai ddim yn digwydd o gwbl.
- Cost gymharol isel benthyca.

Fel y nodwyd uchod, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu benthyca'n uniongyrchol i ariannu buddsoddiadau mewn seilwaith ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU yn hyn o beth drwy'r trafodaethau rhynglywodraethol sy'n mynd rhagddynt. Byddai benthyca yn rhoi hwb i fuddsoddi ar unwaith er mwyn gwrthbwyso'r gwaethaf o doriadau Llywodraeth y DU a chefnogi swyddi a thwf. Rydym hefyd yn ymrwymedig i weithio gyda llywodraeth leol a phartneriaid eraill, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, er mwyn defnyddio eu capasiti benthyca i gynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith â blaenoriaeth. Hefyd, rydym wrthi'n datblygu cyfryngau sy'n defnyddio asedau cyhoeddus i roi hwb i fuddsoddi, megis datblygiad Pont Trelái.

Lle nad yw'r llwybrau ariannu hyn yn briodol neu'n ddigonol i gyflawni ein huchelgeisiau fel Llywodraeth, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd arloesol eraill o ariannu buddsoddiadau mewn seilwaith. Fel y nodwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ystyried yr holl bartneriaid ariannu posibl – rhai cyhoeddus a phreifat – ac ystod eang o offerynnau a dulliau cyflawni, gan gynnwys datblygu cyfrwng dim difidend. Y nod yw cwblhau'r gwaith hwn yn yr hydref.

Mae gan Lywodraeth Cymru enw da eisoes am fynd ati i ariannu mewn ffyrdd arloesol er mwyn helpu i gyflawni seilwaith â blaenoriaeth, a rhydd yr adran hon fanylion am y mentrau allweddol. Gyda'i gilydd, bydd y mentrau hyn yn creu mwy nag £1bn o fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru.

## Menter Leol Benthyciadau gan y Llywodraeth

Cafodd y fenter hon ei lansio ar 31 Ionawr, fel ffordd o sicrhau mwy o fuddsoddiad ym mhriffyrdd Cymru. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r lleihad mewn cyllidebau cyfalaf a'r cynnydd mewn pwysau refeniw yn effeithio ar awdurdodau lleol yn ogystal â llywodraethau cenedlaethol. Cafodd y fenter ei chynllunio i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â diffygion mewn refeniw, gan eu galluogi i nodi adnoddau ychwanegol i fynd ati i fenthyca'n ddarbodus. Bydd y trefniadau ariannu yn golygu bod modd gwneud hyd at £170m o fuddsoddiad cyfalaf yn y gwaith o wella priffyrdd Cymru, yn y 22 o awdurdodau lleol, dros y tair blynedd nesaf. Mae'r camau arloesol hyn wedi helpu i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn fforddiadwy a rhydd fodel ar gyfer cynlluniau pellach.

## Mentrau tai, gan gynnwys Partneriaeth Tai Cymru (PTC) a NewBuy

Ym mis Awst 2011, gweithredodd Llywodraeth Cymru PTC. Mae'r fenter hon yn bartneriaeth rhwng pedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae'r bartneriaeth yn darparu tai rhent fforddiadwy o safon i bobl sy'n byw yn y De a'r Gogledd. Mae gan PTC bron 150 o dai, ac mae'n eu prydlesu'n ôl i'r Cymdeithasau Tai am 10 mlynedd. Mae gan PTC werth cyfalaf o £16m – cyfuniad o £3m o arian grant gan Lywodraeth Cymru, benthyciad o £12m gan is-adran fasnachol Cymdeithas Adeiladu'r Principality a chyfanswm o £1m gan y pedair Cymdeithas Tai sy'n rhan o'r bartneriaeth. Fel y nodwyd ym Mhennod 1, rydym yn adeiladu ar hyn ac yn cynyddu £30m ar y PTC.

Mae modelau ariannu newydd sy'n rhoi hyder i'r sector preifat fuddsoddi yn hanfodol i roi hwb i fuddsoddi mewn seilwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer cynllun gwarantu morgeisi cenedlaethol newydd i helpu pobl yng Nghymru i brynu tŷ drwy leihau'r blaendal sydd ei angen ac mae'n ystyried fersiwn Cymreig o NewBuy, sef y model a ddefnyddir gan Loegr a'r Alban.

Mae NewBuy wedi'i anelu at y rheini sydd â blaendal o 5-10% yn unig ac felly bydd y benthycwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn darparu morgais benthyciadau a gwerth o 90-95%. Mae'n seiliedig ar gwmnïau adeiladu yn y sector preifat a'r Llywodraeth yn neilltuo canran fechan o bris prynu pob eiddo newydd a adeiledir ganddynt er mwyn rhoi cyfrif am y risg o fethu ag ad-dalu morgais ac adfeddiannu. Mae hyn yn diogelu benthycwyr rhag colledion adfeddiannu a chaiff y risg ei rhannu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r math hwn o fodel yn rhoi'r hyder i fanciau a chymdeithasau adeiladu gynnig morgeisi benthyciadau a gwerth uchel ac mae'n rhoi'r hyder i gwmnïau adeiladu fuddsoddi mewn tai newydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud cynnydd drwy gymryd camau arloesol yn y sector tai sy'n defnyddio asedau'r sector cyhoeddus i ddenu buddsoddiad preifat, gan gynnwys cyfryngau a gefnogir gan dir megis datblygiad Pont Trelái a amlygir yn yr astudiaeth achos isod. Gallai'r model hwn arwain at gryn dipyn yn fwy o gartrefi tai cymdeithasol a fforddiadwy na fyddai'n bosibl fel arall, o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r cyfyngiadau ariannol heb grant tai cymdeithasol.



## Pont Trelái , Caerdydd – Astudiaeth achos




Mae Pont Trelái yng Nghaerdydd yn hen safle cyflogaeth 56 erw a leolir nid nepell o ganol y ddinas ac sydd wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn.

Cyflwynodd Cymdeithas Adeiladu'r Principality (PBS) gynnig arloesol ar gyfer safle Pont Trelái sy'n rhagweld prosiect yn cynnwys 700 o unedau tai y byddai 300 ohonynt ar gyfer rhent canolraddol, 100 ar gyfer rhent cymdeithasol a 300 yn unedau i'w gwerthu ar y farchnad agored, gan gynrychioli 57% o dai fforddiadwy, heb fod angen Grant Tai Cymdeithasol (GTC), yn amodol ar Ganiatâd Cynllunio yn y dyfodol.

Cefnogodd Llywodraeth Cymru'r fenter hon gan weithio gyda PBS a datblygu model buddsoddi arloesol i gael gafael ar arian cyfalaf ac adeiladu tai yr oedd eu hangen yn fawr.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality gwmni "nid er elw" menter gymdeithasol newydd o'r enw Ely Bridge Development Company (EBDC), a fydd yn gyfrifol am y datblygiad. Mae rhannau o Bont Trelái wedi'u halogi'n sylweddol ac mae angen cymryd camau adferol. Fel y cyfryw, nodwyd £6m o gyllid o'r pecyn Ysgogi Economaidd

ac fe'i rhoddwyd i DevCo ar ffurf benthyciad ad-daladwy fel bod modd ymdrin â'r halogi cyn gynted â phosibl a'i gwneud yn bosibl i'r gwaith datblygu fynd rhagddo heb unrhyw oedi.

Cynigir y dylai'r cwmni hwn gael ei ddiddymu ar ddiwedd y datblygiad ac y dylai'r stoc i'w rhentu gael ei throsglwyddo i gwmni buddsoddi (InvestCo). Bydd perchenogaeth rydd-ddeiliadol o'r cartrefi fforddiadwy yn parhau gydag (InvestCo). Byddai'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a benodwyd hefyd yn gyfrifol am reoli'r eiddo a'i yswirio. Byddai'r unedau rhent cymdeithasol yn cael eu gosod yn unol â rhenti meincnod, gydag eiddo rhent canolraddol yn cael ei osod ar uchafswm o 75% o rent y farchnad breifat, na fydd yn uwch na lwfans Tai lleol (LHA).

Bwriedir i unrhyw elw o ddatblygu'r safle (yn enwedig gwerthu'r tir tai ar y farchnad agored) gael ei ailfuddsoddi yn y gwaith o edrych ar safleoedd tai fforddiadwy amgen a gallu'r model i dyfu yn unol â'r anghenion.

## Cefnogi mentrau

Ym maes busnesau bach, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o gronfeydd buddsoddi pwrpasol. Cronfa JEREMIE yw'r un fwyaf o'r rhain. Hon oedd y gyntaf i'w sefydlu yn y DU ac mae ganddi werth cyfalaf o £150m, sy'n cynnwys £75m o gymorth gan Fanc Buddsoddi Ewrop. Bydd cronfa JEREMIE (Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig) yn helpu dros 800 o fusnesau i ehangu a bydd yn creu hyd at 15,000 o swyddi ledled Cymru. Mae dros £80m eisoes wedi cael ei fuddsoddi mewn mwy na 390 o fusnesau mewn ychydig dros ddwy flynedd, ac ymhlith y math hwn o gronfa dyma'r un sy'n perfformio orau yn y DU.

Ym mis Mawrth, lansiwyd cronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig Llywodraeth Cymru, a ariennir ar y cyd gan Barclays Bank ac sydd â gwerth cyfalaf o £40m. Bydd y gronfa, a fydd yn darparu cyllid ar gyfer twf busnes a chreu swyddi i fusnesau bach a chanolig nad ydynt yn gymwys am arian o dan fenter JEREMIE, yn rhedeg am bedair blynedd a bwriedir iddi greu hyd at 4000 o swyddi. Rydym hefyd wedi sefydlu Cronfa newydd i Ficrofusnesau sydd â gwerth cyfalaf o £6m, a Chronfa Fuddsoddi ar gyfer Gwyddorau Bywyd, sy'n rhoi arian ecwiti dynodedig i fusnesau gwyddorau bywyd a leolir yng Nghymru.

Bydd yr holl gronfeydd hyn yn creu etifeddiaeth barhaus o gyllid, i'w ailgylchu a'i ailfuddsoddi yn yr hirdymor, gan gefnogi nifer o brosiectau er budd ardaloedd a phobl Cymru.

## Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff

Bydd y rhaglen hon – y manylwyd arni ym Mhennod 2 – yn cyflwyno adnoddau trin gwastraff ledled Cymru. Mae Swyddfa'r Rhaglen Caffael Gwastraff yn rhoi cyngor ac arian i awdurdodau lleol, gan reoli dwy is-raglen: y rhaglen trin gwastraff bwyd a gwastraff organig a'r rhaglen trin gwastraff gweddilliol. Ym mhob rhaglen, mae awdurdodau lleol wedi dod at ei gilydd i ffurfio Consortia caffael. Rhydd darpariaeth hirdymor ffioedd tipio y cymhelliant i'r sector preifat fuddsoddi mewn seilwaith gofynnol a'i gyflwyno. Mae gan y prosiectau werth cyfalaf o tua £780m.

## Sicrhau Cyllid Preifat

Mae sicrhau cyllid preifat wrth wraidd amcan Llywodraeth Cymru i hybu buddsoddiad yn seilwaith Cymru. Yn wir, mae nifer o'r cynlluniau uchod yn dibynnu ar gyfalaf preifat i raddau amrywiol.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ffafrio defnyddio'r Fenter Cyllid Preifat (PFI) a chroesawodd y cyhoeddiad a wnaed y llynedd ynghylch adolygiad sylfaenol o PFI yn dilyn adroddiadau beirniadol gan Bwyllgor Dethol y Trysorlys a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Un o ganlyniadau safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch PFI yw'r ffaith nad oes gan gyllidebau yng Nghymru rwymedigaethau refeniw mawr. Er enghraifft, mae'r rhwymedigaeth am gynlluniau PFI yng Nghymru tua un rhan o ddeg o'r lefel yn yr Alban – £100m y flwyddyn yng Nghymru o'i gymharu â thua £1bn y flwyddyn yn yr Alban.

Mae'r diffyg dyledusrwydd cymharol hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried y lefel fwyaf posibl o gymorth refeniw ar gyfer buddsoddiadau fel rhan o'i pholisi. Gyda hynny mewn golwg, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried datblygu dulliau arloesol newydd o sicrhau buddsoddiad preifat mewn seilwaith cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfrwng "dim difidend" i ariannu a chyflwyno prosiectau seilwaith cyhoeddus yng Nghymru.

Fel gweddill y DU a gwledydd eraill, bydd Cymru yn wynebu sawl her dros y blynyddoedd i ddod o ran denu buddsoddiad preifat i seilwaith cyhoeddus. Mae'r ansefydlogrwydd mewn marchnadoedd ariannol a goblygiadau Basel III – sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanciau ddarparu arian cyfatebol ar gyfer rhwymedigaethau drwy asedau fel ffordd o sicrhau eu bod yn cadw digon o gyfalaf i ymdopi â cholledion yn y dyfodol – yn debygol o gael effaith andwyol ar awydd banciau i fenthyca arian prosiect yn yr hirdymor. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen datblygu modelau buddsoddi newydd a denu buddsoddwyr newydd i seilwaith cyhoeddus, gan gynnwys buddsoddwyr sefydliadol, yn enwedig cronfeydd pensiwn, a Banc Buddsoddi Ewrop.

### 3.7.3 Buddsoddi i Arbed

Mae cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru yn helpu sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i newid i ddulliau mwy effeithlon ac arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae cymorth Buddsoddi i Arbed hefyd yn helpu rhaglen waith rheoli asedau Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n anelu at achub ar gyfleoedd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o reoli ystadau mewn ffordd ragweithiol a strategol. Yn benodol, rhoddwyd arian tuag at brosiectau peilot ystadau a fydd yn cyflymu gweithgareddau ar dair lefel: rhesymoli asedau corfforaethol; cydweithredu ar lefel leol; a chyfleoedd o ddefnyddio asedau dros ben.

Mae'r Gronfa wedi rhoi gwedd newydd ar ddatblygu prosiectau gwella gwasanaethau cyhoeddus a bydd arian yn parhau i fod ar gael dros y tair blynedd nesaf gydag isafswm o £45m i'w fuddsoddi mewn prosiectau newydd. Hefyd, ystyrir y posibilrwydd o gynnig mwy o gymorth cyfalaf drwy'r Gronfa dros y blynyddoedd i ddod yn ystod 2012.

## Astudiaeth achos – Buddsoddi i Arbed



Mae'r arian a roddwyd drwy'r cynllun Buddsoddi i Arbed eisoes wedi helpu nifer o brosiectau gwella gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â buddsoddiadau cyfalaf, gan gynnwys:

- Gorsaf wybodaeth Casnewydd yn Un. Canolfan wyneb yn wyneb amlasiantaethol lle y gall pobl leol gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus modern. Drwy weithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau, gall asiantaethau yn y sector cyhoeddus ddarparu gwell gwasanaethau tra'n defnyddio llai o adnoddau.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – **Gwella eich Lle**. Mae'r prosiect wedi arwain at ddarparu swyddfeydd cynaliadwy a fforddiadwy a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol rheolaidd yn sgil y ffaith bod llai o ôl-groniad o waith cynnal a chadw, costau rhedeg a defnydd o ynni.
- Galw Gofal/Care Connect: Mae Gwasanaeth Monitro Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth galwadau dwyieithog 24 awr i helpu pobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol yn eu cartrefi eu hunain. Ymhlith y buddiannau ehangach mae mesurau adfer mewn argyfwng dwyieithog a chosteffeithiol, achredu gwasanaethau a'r defnydd mwy effeithiol o TGCh ac asedau eiddo.
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (UWIC) – i-barth, siop un stop i fyfyrwyr. Darparu gwell gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr o gyfleusterau newydd a ddatblygwyd ar gampws Llandaf. Mae'r fenter wedi arwain at ddarparu gwasanaethau proffesiynol, cyson, cydgysylltiedig, rhagweithiol, atebol a mwy effeithlon.

# Pennod 4 – Y camau nesaf



## 4.1 Cyflwyniad

Mae’r Bennod hon yn nodi’r canlynol:

- Crynodeb o’n hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol hyd yn hyn a’r casgliadau rydym wedi eu llunio yn sgil y broses hon.
- Sut rydym yn bwriadu esblygu ac aeddfedu’r llif o brosiectau arfaethedig fel eu bod o’r budd mwyaf i randdeiliaid cyflawni.
- Y camau nesaf a gymerir i gyflawni nodau’r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ym Mhennod 1.

## 4.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun yn newid sylweddol o ran dull Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn seilwaith.

Dim ond dechrau proses barhaus yw’r gwaith ymgysylltu allanol a wnaed hyd yn hyn ac mae wedi helpu i lunio’r fersiwn cyntaf hwn o’r Cynllun. Byddwn yn parhau i gynnal y trafodaethau hyn â rhanddeiliaid, gan fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd ym mhob sector, yn enwedig cyfleustodau craidd a rheolwyr asedau seilwaith strategol Cymru (er enghraifft, porthladdoedd, meysydd awyr a chyfleusterau cynhyrchu ynni) er mwyn llunio a mireinio ein dull gweithredu wrth i’r amgylcheddau gwleidyddol ac economaidd esblygu.

Ymhlith y themâu allweddol sydd wedi codi yn sgil ein trafodaethau â rhanddeiliaid mae:

- Cadarnhau pwysigrwydd y llif o brosiectau arfaethedig, yn enwedig manylion am amseriad, cost a chyllid prosiectau a rhaglenni â blaenoriaeth er mwyn rhoi hyder i’r farchnad a helpu sectorau i gynllunio a chysoni’n briodol – safbwynt a rennir gan y sector preifat a’r sector cyhoeddus.
- Gwerth bod yn agored a thryloywder penderfyniadau a dull cyson o werthuso prosiectau â blaenoriaeth.
- Cafodd pwysigrwydd datblygu a gwella cysylltiadau trafnidiaeth ledled Cymru, ar y ffyrdd a’r rheilffyrdd, yn ogystal â gwneud gwelliannau i seilwaith porthladdoedd, fferïau a chludiant eu cydnabod fel meysydd buddsoddi allweddol i gefnogi twf economi Cymru, fel y buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy, stoc dai a mynediad band eang cyflym ledled Cymru.
- Byddai cynnydd yn y buddsoddiad mewn seilwaith uwchlaw lefelau arfaethedig presennol yn cael ei groesawu i roi hwb i’r diwydiant adeiladu, ac i helpu i ddenu buddsoddiad mewnol i wella economi Cymru.
- Dylai unrhyw fuddsoddiad dargedu nid yn unig seilwaith newydd ond hefyd y gwaith o gynnal a chadw asedau presennol, sy’n amlygu pwysigrwydd Cynllun Rheoli Asedau i Gymru gyfan.

Mae ein dull gweithredu wedi cael ei lywio gan yr adborth gwerthfawr rydym wedi’i gael ac mae ein dull o gyflawni’r Cynllun yn mynd i’r afael â’r holl themâu allweddol hyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a bwriadwn ddatblygu ein prosesau dros y flwyddyn i ddod.

## 4.3 Y llif o brosiectau arfaethedig

Mae tystiolaeth gref y gall gwella tryloywder buddsoddiadau mewn seilwaith arfaethedig arwain at leihad sylweddol yng nghost y gwaith o gyflwyno seilwaith – nododd Adolygiad IUK o Gostau Seilwaith a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 arbedion posibl o £2bn – £3bn y flwyddyn yn sgil lleihau costau cyflawni prosiectau a rhaglenni seilwaith economaidd y DU.

Nododd yr adroddiad y gallai'r arbedion gael eu gwneud drwy sicrhau bod gwell ymgysylltu yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, symleiddio prosesau a gweithio gyda diwydiant i wella systemau caffael, cynyddu cynhyrchiant, hyrwyddo arloesedd a sicrhau gwell integreiddio o ran y diwydiant. Yn yr adroddiad blynyddol cyntaf ar hynt y rhaglen Adolygu Costau[18] a gyhoeddwyd yn ddiweddar, awgrymir wrth i'r gwaith o ymdrin â materion a nodwyd fynd rhagddo, fod arbedion costau yn dechrau dod yn amlwg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, drwy wella amlygrwydd a rhoi llif cyflenwi o fuddsoddiadau cymeradwy i'r sector preifat, y byddwn yn creu'r cyfle i gwmnïau yn y sector preifat gynllunio a chysoni â'n buddsoddiadau. Yn hanfodol, bydd hyn yn caniatáu amser i baratoi a chydweithredu, gan sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau wrth gymryd rhan yn y broses gaffael.

Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein llif cyflenwi drwy:

- Ei ddiweddaru'n flynyddol, gan adolygu ac amlygu cynlluniau sydd o bwys cenedlaethol.
- Cael adborth drwy ein proses ymgysylltu er mwyn mireinio'r data a sicrhau ei fod o'r gwerth mwyaf i fod o fudd i randdeiliaid cyflenwi.

## 4.4 Cyflawni amcanion y Cynllun Seilwaith

Amlinellwyd ein gweledigaeth ym Mhennod 1, gan nodi ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus. Byddwn yn cymryd y camau canlynol i gyflawni pob nod:

**Nod 1:** creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan ganolbwyntio adnoddau ar fuddsoddiadau sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy

Mae cyflawni system sy'n blaenoriaethu buddsoddiadau seilwaith sydd o'r budd economaidd mwyaf i'r wlad yn gofyn am ddull canolog, strwythuredig a chyson o werthuso a graddio cynigion buddsoddi adrannol. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu dull gweithredu canolog o fewn Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ac asesu cynigion ar gyfer buddsoddiadau.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio'r diffiniad o 'seilwaith o bwys cenedlaethol' i Gymru.
- Annog a hwyluso cydweithredu trawsbynciol rhwng partneriaid cyflenwi seilwaith lle ceir cyfleoedd i sicrhau'r buddiannau economaidd mwyaf i Gymru, er enghraifft lle mae'r posibilrwydd o 'fwndelu seilwaith'.

[18] http://www.hm-treasury.gov.uk/iuk_cost_review_index.htm

**Nod 2:** cynyddu'r adnoddau a fuddsoddir mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth dros y deng mlynedd nesaf y tu hwnt i lefelau cyllidebol a disgwyliedig

Mae'n gwbl glir bod angen ategu arian cyfalaf traddodiadol â dulliau arloesol o ddenu buddsoddiadau ychwanegol sylweddol lle mae'n cynnig gwerth am arian. Yn ogystal â datblygu'r trafodaethau rhynglywodraethol hanfodol, dros y 12 mis nesaf byddwn yn:

- Cyflawni cam dau o Fenter Leol Benthyciadau gan y Llywodraeth a fydd yn arwain at fuddsoddiad pellach o tua £60m mewn gwelliannau i briffyrdd (fel rhan o becyn buddsoddi'r Fenter sy'n werth £170m i gyd).
- Ailgyfalafu Partneriaeth Tai Cymru fel bod modd buddsoddi ymhellach.
- Rhoi mentrau newydd ar waith, gan gynnwys:
  - Ehangu model llwyddiannus Pont Trelái o fewn y sector tai a sectorau eraill
  - Datblygu ffyrdd o godi arian gan gynnwys bondiau i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

**Nod 3:** lleihau costau cynnal a chadw a darparu seilwaith a sicrhau bod ein buddsoddiadau yn rhoi'r gwerth gorau am arian

Rydym yn safoni'r ffordd rydym yn cael Sicrwydd Busnes a chyflawni cynlluniau drwy bob rhan o Lywodraeth Gymru a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau mwy cyson i ddatblygu ac arfarnu achosion busnes, monitro buddsoddiadau'n well a mynd ati i reoli cynlluniau mawr mewn ffordd newydd. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi canllawiau arfer gorau gan Lywodraeth Cymru ar sut i bennu cwmpas a chynllunio achosion busnes gan ddefnyddio'r Model Pum Achos.
- Cyflwyno gofyniad i bob cynllun a gaiff gymorth gan Lywodraeth Cymru i:
  - Feddu ar strwythurau llywodraethu priodol sydd â llinellau atebolrwydd clir
  - Defnyddio arfer gorau mewn ffordd gymesur ar gyfer cynllunio, pennu cwmpas a chyflawni cynlluniau – hyd yn oed os nad Llywodraeth Cymru yw'r brif ffynhonnell ariannol
  - Sicrhau bod y gwaith o gyflawni buddiannau yn cael ei fonitro a'i adolygu er mwyn dwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd a'u bwydo'n ôl er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus

- Parhau i ddatblygu ein dull o reoli asedau a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3.4 a chynyddu'r wybodaeth am asedau yn y sector cyhoeddus a ddelir ar gronfa ddata ePIMS a gwella ansawdd y wybodaeth honno.

**Nod 4:** sefydlu a chynnal system newydd o fonitro gwariant ar seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus

Ar unrhyw un adeg, mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â thros 1000 o gynlluniau cyfalaf ac mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf ym maes cyflenwi ac yn sicrhau y gall rhanddeiliaid weld sut mae'r cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt yn glir. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn gwneud y canlynol:

- Parhau i ddatblygu'r Cynllun fel 'gwybodaeth ganolog' i gynnwys buddsoddi yn y seilwaith cyhoeddus lleol a chenedlaethol yn ogystal â chynlluniau buddsoddi yn y sector preifat ar hyn o bryd ac yn y dyfodol lle y bo modd.
- Parhau i ddatblygu'r llif o brosiectau arfaethedig drwy ymgysylltu'n barhaus, gan gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf bob 12 mis.
- Pennu cwmpas a chynllunio system unedig i ddal a gwella amlygrwydd statws presennol cynlluniau parhaus.

# Atodiad 1 – Y Llif o Brosiectau Arfaethedig

## Cyflwyniad

Bydd y llif hwn o brosiectau arfaethedig yn cynnig mwy o eglurder a sicrwydd i'n partneriaid cyflawni, ac mae'n rhestr o holl raglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru lle mae cyfanswm gwerth cynllun yn fwy na £15m ac os nad yw wedi dechrau eisoes, mae ar fin dechrau o fewn y tair blynedd nesaf. Rydym wedi rhoi cipolwg o'r holl gynlluniau perthnasol gan gynnwys rhai presennol ac arfaethedig a byddwn yn mireinio ac yn diweddaru'r llif o brosiectau arfaethedig dros amser i adlewyrchu cynlluniau arfaethedig a chynlluniau wedi'u blaenoriaethu, yn enwedig lle mae cyfle i'n partneriaid cyflawni gyflwyno tendr. Er bod y cynlluniau arfaethedig a gyflwynir yma yn brosiectau rydym wedi'u blaenoriaethu ac y maent yn debygol iawn o gael eu cyflawni fel y'u disgrifir, nid yw hwn yn ymrwymiad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, er mwyn adlewyrchu'r posibilrwydd o ansicrwydd yn y dyfodol. Bwriedir i hon fod yn ddogfen fyw. Drwy ymgysylltu'n barhaus â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, bwriadwn lunio a mireinio'r wybodaeth yn y llif hwn o brosiectau arfaethedig gan sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'n partneriaid cyflawni.

## Sectorau

### Datblygu Economaidd

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Bang Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru | £400m | i'w gadarnhau | Dechrau 2012<br>Cwblhau erbyn 2015 | £57 miliwn wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth y DU; £70 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop; proses gystadleuol i sicrhau'r cyflenwr neu'r cyflenwyr. | Bydd hyn yn galluogi ac yn ategu'r gwaith o ddatblygu'r economi ddigidol ac yn helpu i ddarparu gwasanaethau digidol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. |
| Ardaloedd Menter | £125m | i'w gadarnhau | Ar hyn o bryd mae 7 ardal wedi'u nodi yn 2012, a bwriedir i'r mentrau redeg tan 2015 | BETS | Bydd Ardaloedd Menter yn agwedd bwysig ar ddatblygu economaidd a byddant yn gyson â blaenoriaethau sectorol a strategol allweddol. Er enghraifft, ar hyn o bryd rydym yn ystyried cynllun cyfalaf mawr i liniaru llifogydd er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r ardal fenter ar Lannau Dyfrdwy. |

## Trafnidiaeth

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Priffyrdd gan Awdurdodau Lleol | | £12m y flwyddyn o gymorth refeniw i lywodraeth leol | Dechrau yn 2012 Achosion Busnes gan Awdurdodau Lleol wedi'u cymeradwyo | O dan Fenter Leol Benthyciadau gan y Llywodraeth, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £240m dros y cyfnod o 22 mlynedd – £4m yn 2012-13, £8m yn 2013-14 a £12m yn 2014-15. Rhoddir yr arian i awdurdodau lleol ar ffurf grant yn ystod y flwyddyn yn 2012-13, cyn troi'n Grant Cynnal Refeniw wedyn. | Byddai gwariant arfaethedig Llywodraeth Leol ar wella priffyrdd yn y tymor canolig yn cael ei ddwyn ymlaen i 2012-13. Heb y cynnig hwn, byddai llawer o welliannau i briffyrdd yn dal i fod yn rhy gostus. |
| Prosiect Deuoli'r A465 ym Mlaenau'r Cymoedd – Rhan 3 | £148.5m | £148.5m | Dechrau yn 2012. Cwblhau erbyn 2015 + 5 mlynedd o ôl-ofal. Yr achos busnes terfynol i'w gyflwyno i'w gymeradwyo Mehefin 2012 | Cyfuniad o:<br>• Gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru: £65.1m<br>• Arian ERDF: £83.4m<br>• Prif Gontractwr Carillion a benodwyd 10/03/10. Tendr am isgontractwyr ddiwedd 2012. | Mae cefnffordd yr A465 wedi'i dynodi'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) sy'n cysylltu tir mawr Ewrop â'r Deyrnas Unedig. Mae'n ffordd strategol bwysig i ardal drefol De Cymru, gan gysylltu'r De a'r Gorllewin â Chanolbarth Lloegr. |
| Gwella Cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ros Goch | £51m | £51m | Dechreuodd gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2012. Cwblhau erbyn gaeaf 2014 | I'w ariannu drwy gyllideb gyfalaf Trafnidiaeth. | Mae'r A477 yn brif goridor o'r dwyrain i'r gorllewin yng Nghymru. Mae'r gefnffordd wedi'i dynodi'n rhan o'r TEN-T sy'n cysylltu tir mawr Ewrop a'r Deyrnas Unedig ag Iwerddon drwy Ddoc Penfro. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau Rheilffordd i Orllewin Abertawe – Tre-gŵyr i Gasllwchwr | £25m | £25m | Dechrau ym mis Gorffennaf 2012 Cwblhau erbyn 2015. Achos Busnes wedi'i gymeradwyo | I'w ariannu drwy gyfuniad o:<br>• gyfalaf Llywodraeth Cymru: £2.5m<br>Asiant Cyflenwi – Network Rail. | Mae'r rheilffordd rhwng Abertawe a Chaerfyrddin yn un deudrac ar y cyfan, heblaw am ran pum milltir o Gyffordd Gorllewin Cockett i Gyffordd Gorllewin Dyffryn. Mae'r rhan un llinell hon, gyda Gorsaf Tre-gŵyr yn y canol, yn rhoi cryn bwysau ar y rhwydwaith, gan gyfyngu ar ddarpariaeth gwasanaethau. Bydd y buddsoddiad hwn o fudd i gymudwyr ac yn ehangu'r mynediad i swyddi a hyfforddiant i'r rheini sy'n byw ar hyd y llinell. |
| Amser Teithio rhwng y De a'r Gogledd a Gwelliannau Capasiti | £45m | £45m | Dechrau ym mis Ebrill 2012 | I'w hariannu drwy gyfuniad o gyllideb cyfalaf Trafnidiaeth ac Arian SCIF.<br>Asiant Cyflenwi Network Rail. | Rhan o'r amcan strategol i wella cysylltiadau rhwng y De a'r Gogledd, gwella traciau a signalau ac ailddyblu'r llinell sengl rhwng Wrecsam a Chyffordd Saltney. |
| CASR – Adnewyddu Signalau yn Ardal Caerdydd | £200m | £14.5m | Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn ystod haf 2012 | I'w hariannu drwy gyfuniad o gyllideb cyfalaf Trafnidiaeth ac Arian WEFO.<br>Asiant Cyflenwi Network Rail. | Gwella cledrau a signalau a mathau eraill o seilwaith yn ardal Caerdydd yn barod ar gyfer twf mewn gwasanaethau trên yn y dyfodol, o 12 trên yr awr ar hyn o bryd i hyd at 16 trên yr awr. Mae'r prosiect hwn yn brosiect allweddol sy'n rhagflaenu'r broses o drydaneiddio rhwydwaith Cledrau'r Cymoedd. |

## Yr Amgylchedd – Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | £44m | £24m | Dechrau 2009 Cwblhau erbyn 2015 | Cytunwyd ar y rhaglen o brosiectau. Fe'i hariennir yn bennaf drwy gyfalaf Llywodraeth Cymru gyda chyfraniad o ERDF. | Pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth a chodi ymwybyddiaeth, ynghyd â'r buddiannau economaidd sylweddol, yn gyson â'r Strategaeth Llifogydd a dyheadau'r Rhaglen Lywodraethu. |
| Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf nas cefnogir gan Ewrop | £36m | £36m | Dros y cyfnod yn gorffen 2014/15 | Caiff prosiectau eu harwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd/ Awdurdodau Lleol. Caiff prosiectau sy'n rhan o'r Rhaglen a gefnogir gan Ewrop eu blaenoriaethu oherwydd cyfyngiadau amser yr arian sydd ar gael. | Fel uchod. |

## Yr Amgylchedd – Rhaglenni Buddsoddi mewn Seilwaith Gwastraff

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Gwastraff Bwyd Canol Cymru | £6.5m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £1.28m cyfalaf<br>£162k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Tachwedd 2012 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Mae cynnig ariannol terfynol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar FBC y prosiect yn debygol o gael ei drosi'n gyfraniad refeniw yn unig oherwydd natur fasnachol y datrysiad.<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 10,400 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. Mae'r Cynigiwr a Ffefrir yn cynnig trin y gwastraff mewn cyfleuster AD presennol yn Swydd Rydychen. | Canolfan wedi'i sefydlu rhwng Powys a Cheredigion. |
| Prosiect GwyriAD (Gwastraff Bwyd) | £6.2m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £1.03m cyfalaf<br>£118k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Mehefin 2013 | Cynnig ariannol cymeradwy terfynol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar FBC – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 8,900 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. Mae'r Cynigiwr a Ffefrir yn cynnig adeiladu cyfleuster treulio anerobig (AD) ar y safle cyhoeddus yn Llwyn Isaf. | Cyngor Gwynedd. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Gwastraff Bwyd Gogledd-ddwyrain Cymru | £7.3m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £1.45m cyfalaf<br>£164k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Awst 2013 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Contract i sicrhau ateb hirdymor, cynaliadwy i drin 11,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. Mae'r Cynigiwr a Ffefrir yn cynnig adeiladu cyfleuster treulio anerobig (AD) ar y safle cyhoeddus yn Rhuallt, Sir Ddinbych. | Grŵp wedi'i sefydlu rhwng Sir Ddinbych, Conwy a Sir y Fflint. |
| Prosiect Gwastraff Bwyd De-orllewin Cymru | £10.0m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £3.6m cyfalaf<br>£275k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Mawrth 2014 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 43,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. Mae dau gynigiwr yn dal i drafod, sy'n cynnig adeiladu cyfleusterau AD masnachol ar safleoedd ym Mhwllfawatkin, Castell-nedd Port Talbot, a New Inn, Pont-y-pŵl. | Mae grŵp wedi'i sefydlu rhwng Sir Benfro, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Gwastraff Bwyd Cwm Yfory | £8.2m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £1.6m cyfalaf<br>£213k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Mawrth 2014 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Mae dau gynigiwr yn dal i drafod, sydd ill dau yn cynnig adeiladu cyfleuster AD ar y safle cyhoeddus ym Mryn Pica, RhCT. Bydd y cyfleuster yn gallu trin tua 20,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. | Mae grŵp wedi'i sefydlu rhwng Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd. |
| Prosiect Gwastraff Bwyd a Gwastraff Organig Blaenau'r Cymoedd | £8.2m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £1.48m cyfalaf<br>£253k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Mehefin 2014 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 22,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. Mae dau gynigiwr yn dal i drafod, sy'n cynnig adeiladu cyfleusterau AD masnachol ar safleoedd yn New Inn, Pont-y-pŵl ac yng Ngwlad yr Haf. | Mae grŵp wedi'i sefydlu rhwng Blaenau Gwent, Torfaen a Chaerffili. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Gwastraff Bwyd a Gwastraff Organig Caerdydd | £8.2m<br>(Rhan o'r rhaglen Gwastraff Bwyd. Cyfanswm gwerth yn £54.6m) | £1.63m cyfalaf<br>£239k o refeniw y flwyddyn (15 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Chwefror 2016 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn).<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 20,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd. Cafodd Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2011. Mae'r cyngor wrthi'n cwblhau'r cam cyn cymhwyso. | Cyngor Caerdydd. |
| Prosiect Gwyrdd (Gwastraff Gweddilliol) | £150m | £0m (dim) cyfalaf<br>£9.12m o refeniw y flwyddyn (25 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Ebrill 2016 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 175,000 tunnell y flwyddyn o wastraff gweddilliol. Mae dau gynigiwr yn dal i drafod, sy'n cynnig adeiladu cyfleusterau Ynni o Wastraff masnachol ar safleoedd yng Nghaerdydd a Chasnewydd. | Mae consortiwm wedi'i ffurfio rhwng Caerdydd, Casnewydd, Caerffili, Bro Morgannwg a Sir Fynwy. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | £150m | £0m (dim) cyfalaf<br>£5.71m o refeniw y flwyddyn (25 mlynedd) | Trefnwyd i ddechrau Chwefror 2017 | Cynnig ariannol wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru – yn daladwy yn dilyn proses gomisiynu lwyddiannus.<br>Contract i sicrhau datrysiad trin hirdymor, cynaliadwy ar gyfer 195,000 tunnell y flwyddyn o wastraff gweddilliol. Mae tri chynigiwr yn dal i drafod, sy'n cynnig adeiladu cyfleusterau Ynni o Wastraff ar Lannau Dyfrdwy tra'n ystyried opsiynau eraill. | Mae consortiwm wedi'i ffurfio rhwng Gwynedd, Ynys Môn, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol De-orllewin Cymru | £200m | i'w gadarnhau | Datblygu Achos Busnes Amlinellol i dodd o hyd i'r dull caffael priodol (h.y. 5 neu 7 ALl) | Llunio Achos Busnes Amlinellol i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. | Mae consortiwm wedi'i ffurfio rhwng Sir Benfro, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Canol Cymru | £50m | i'w gadarnhau | Datblygu Achos Busnes Amlinellol i dodd o hyd i'r dull caffael priodol (h.y. 2 neu 7 ALl) | Llunio Achos Busnes Amlinellol i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. | Mae consortiwm wedi'i ffurfio rhwng Powys a Cheredigion. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Blaenau'r Cymoedd | £100m | i'w gadarnhau | Mewn trafodaethau â LIC/CLILC a Blaenau'r Cymoedd ynghylch gweithio mewn partneriaeth. Dyddiad dechrau i'w bennu wrth i'r prosiect ddatblygu | Partneriaethau wrthi'n trafod. | Mae consortiwm wedi'i ffurfio rhwng Blaenau Gwent a Thorfaen. |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Cwm Yfory | £100m | i'w gadarnhau | Mewn trafodaethau â LIC/CLILC a Cwm Yfory ynghylch gweithio mewn partneriaeth. Dyddiad dechrau i'w bennu wrth i'r prosiect ddatblygu | Partneriaethau wrthi'n trafod. | Mae consortiwm wedi'i ffurfio rhwng Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. |

## Ynni

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Arbed Cam 2 – Prosiectau Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ariannu gwelliannau perfformiad ynni ar sail ardal yn y cartrefi lleiaf ynni effeithlon yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. | £43m | £11m | Dechrau 2011<br>Cwblhau erbyn 2015 | I'w ariannu drwy Arbed – Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Arian cyfatebol wedi'i roi gan Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a'r Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth. Nid yw Rheolwr y Cynllun wedi'i benodi eto ond dylai gael ei gadarnhau erbyn 31 Mawrth 2012.<br>Tri chylch ariannu:<br>Cynigion am brosiectau yn 2011, 2012 a 2013; gyda gwaith yn mynd rhagddo yn 2012, 2013 a 2014. | Mae Arbed yn rhaglen drawsbynciol wedi'i chynllunio i sicrhau'r budd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl o'r buddsoddiad hwn, ynghyd â helpu i gyflawni ymrwymiadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau tlodi tanwydd a hybu gwaith datblygu ac adfywio economaidd. |

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Nest – rhaglen gwella perfformiad ynni a arweinir gan alw. Ariannu gwelliannau i berfformiad ynni ledled Cymru yng nghartrefi'r rheini sy'n debygol o wynebu tlodi tanwydd ac sy'n byw mewn cartrefi aneffeithlon iawn o ran ynni | £100m | £100m | I fod i ddechrau Ebrill 2012 tan fis Mawrth 2016 | Wedi'i ariannu drwy gyllideb cyfalaf Nest. Cafodd Rheolwr y Cynllun ei benodi ym mis Ionawr 2011 yn dilyn proses gaffael. | Mae Nest wedi cael ei datblygu i roi cymorth wedi'i dargedu i gartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd nad ydynt wedi llwyddo i gael budd o gynlluniau effeithlonrwydd ynni domestig yn y gorffennol yn ogystal â sicrhau'r budd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl o'r buddsoddiad hwn. |
| Ynni'r Fro – Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy yn y Gymuned | £15m | £0 | Dechrau 2009/10, i'w gwblhau erbyn 2015/16 | I'w ariannu gan ERDF a'r sector preifat. | Nod Ynni'r Fro yw hybu twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol yn y dyfodol drwy ei gwneud yn bosibl i sefydlu neu ddatblygu ymhellach fentrau cymdeithasol cynaliadwy yn seiliedig ar osodiadau ynni adnewyddadwy newydd yn y gymuned. |

## Tai – Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol (GTC)

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Raglen<br>2012/13 – 2014/15 | £188m | £109.5m | Yn mynd rhagddi (Rhaglen ddatblygu dreigl. Trefnir cynlluniau dair i bum mlynedd ymlaen llaw, gyda dyddiadau cychwyn hyblyg) | Wedi'i hariannu o'r rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol. Telir grant i gymdeithasau sy'n gyfrifol am benodi contractwyr. | Mae'r buddsoddiad mewn tai yn cynorthwyo economi Cymru o ran cynnal a chefnogi swyddi adeiladu a hefyd y gadwyn gyflenwi. |
| Rhaglen Gofal Ychwanegol<br>2012/13 – 2013/14 | £30.5m | £17.7m | Mae arian ar gael ar gyfer pob cynllun sy'n rhan o'r Rhaglen Gofal Ychwanegol bresennol (5 cynllun ar y safle ar hyn o bryd) | Wedi'i hariannu o elfen frigdorri'r Rhaglen GTC. Telir grant i gymdeithasau tai sy'n gyfrifol am benodi contractwyr. | Mae darparu tai o ansawdd da yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac yn gwella cyflawniad addysgol. |

## Tai – Rhaglen Ansawdd Tai Cymru

| Prosiect/ rhaglen | Cyfanswm Gwerth y Cynllun (amcangyfrif) | Cymorth Llywodraeth Cymru | Amserlen | Cyllid a chyflenwi | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| BEL Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM) | £108m | £108m<br>Mae dwy ran i'r BEL LAM:<br>• LAM<br>• Gwaddol | Gwneir taliadau ar gyfer grant cyfalaf LAM i awdurdodau lleol (ALlau) unigol mewn deg rhandaliad rhwng mis Mai a mis Chwefror bob blwyddyn<br>Gwneir taliadau ar gyfer Gwaddol i sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol Mawr (TGM) ar ddechrau mis Ebrill bob blwyddyn, yn amodol ar adolygiad blynyddol o gynllun busnes sefydliadau TGM | **LAM – £60.4m – (gweler tabl un)** dyraniad dangosol o grant cyfalaf ar gyfer 2012/13. Fe'i telir i ALlau i ariannu gwaith atgyweirio cyfalaf i'w stoc tai.<br>**Gwaddol – £47.6m** – dyraniad ar gyfer 2012/13. Fe'i telir i sefydliadau TGM i gau'r bwlch ariannol ac ategu'r cynllun busnes trosglwyddo stoc. Mae'r gyllideb Gwaddol yn cynnwys £3.8m i ariannu costau cyn pleidleisio ALl os bydd tenantiaid yn pleidleisio'n erbyn trosglwyddo.<br>Nodir faint o waddol a delir yn 2012/13 a'r symiau LAM dangosol ar gyfer 2012/13 yn y tabl isod sydd hefyd yn ddangosol ar gyfer 2013/14.<br>Mae'r BEL LAM wedi'i wastatáu ers ei sefydlu ar £108m ac fe'i diogelwyd yn llawn. Gall y rhaniad rhwng LAM a gwaddol amrywio bob blwyddyn, yn amodol ar drosglwyddiadau yn y dyfodol. Gall faint o LAM a delir i ALlau amrywio hefyd, yn amodol ar y fethodoleg ddyrannu gytûn a niferoedd stoc. | Mae'r buddsoddiad mewn tai yn cynorthwyo economi Cymru o ran cynnal a chefnogi swyddi yn y diwydiant adeiladu a hefyd y gadwyn gyflenwi.<br>Mae darparu tai o ansawdd da yn helpu i fynd i'r afael â thlodi (gan gynnwys tlodi tanwydd) ac yn gwella cyflawniad addysgol.<br>Bydd cytundebau ariannu bylchau gwaddol unigol yn amrywio ond fel rheol cytunir ar gymorth gwaddol ar sail dreigl ddwy flynedd, yn amodol ar adolygiad blynyddol o'r cynllun busnes. Disgwylir i waddol gael ei dalu am hyd at 30 mlynedd. Fodd bynnag, dim ond i'r cytundeb treigl dwy flynedd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ei hun yn gyfreithiol. |

| Grant cyfalaf LAM i awdurdodau lleol | Symiau dangosol ar gyfer 2012/13 | Arian i gau bwlch gwaddol i sefydliadau TGM | Symiau dangosol ar gyfer 2012/13 | Cyfanswm BEL LAM |
|---|---|---|---|---|
| Caerffili | £7.3m | Tai RhCT | £7.3m | |
| Caerdydd | £9.6m | Bron Afon | £5.8m | |
